Mae parch at amrywiaeth yn fater allweddol wrth i'n cymunedau newid a datblygu yn yr 21ain ganrif. Rhaid inni barchu'r hyn sydd wedi bod o'r blaen a'r cyflawniadau hyd at y pwynt hwnnw, ond rhaid inni hefyd dderbyn a pharchu bod pethau wedi newid a'u bod yn parhau i esblygu. Rhaid inni barchu pob unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yma, sy'n cynrychioli neu'n ymweld â'r fwrdeistref sirol.

Cyd-destun a Deddfwriaeth

Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 2024 i ddangos yn bennaf ymrwymiad y Cyngor i fodloni Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'n amlygu cysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cefnogi 4 o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru; Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp gwarchoddedig.

Gan adeiladu ar ein gwaith cydraddoldeb blaenorol mae'r cynllun yn esbonio i staff, dinasyddion, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bwriadu cyflawni ei ymrwymadau cydraddoldeb tra'n parhau i fod yn sefydliad cynhwysol nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

I'n cynorthwyo i ysgrifennu ein Cynllun, fe wnaethom ymgysylltu â'n dinasyddion, staff, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ystod o wybodaeth am gydraddoldeb a oedd yn ein cefnogi i ddiffinio beth fyddai ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y 4 blynedd nesaf, a thrwy wrando arnynt gobeithiwn fod yr amcanion hyn yn ystyrlon ac yn gyraeddadwy i ni eu cyflawni.

Gwnaethom edrych ar ba flaenoriaethau oedd i'w hystyried yn genedlaethol ac ar lefel y cyngor, a'u seilio ar ba dystiolaeth a oedd ar gael inni i gefnogi'r gwaith. Gwnaed llawer o waith dros y blynyddoedd i asesu ein cynnydd yn erbyn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy gynlluniau gwasanaeth a'r broses hunanasesu.

Buom yn ystyried ffynonellau allanol o wybodaeth megis adroddiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru, polisïau a blaenoriaethau, adroddiadau ymchwil ac ystadegau perthnasol eraill sydd ar gael i'n helpu. Mae nifer o adroddiadau allanol a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cefnogi a dylanwadu ar ddatblygiad ein hamcanion cydraddoldeb newydd.

Creodd y pandemig Covid-19 anawsterau i bob preswlydd, cymuned a busnes ar draws y fwrdeistref sirol. Wrth i ni barhau i ymdrin â'r newidiadau y mae hyn wedi'u cyflwyno i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, rydym yn ymwybodol o'r goblygiadau i bobl sy'n dal un o'r nodweddion gwarchoddedig i sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn gwasanaethau cyfartal gan y cyngor ac nad ydynt dan anfantais. oherwydd eu hamgylchiadau personol. Wrth i ni edrych ymlaen at adferiad yn ystod 2022-2023 a thu hwnt, byddwn yn parhau i sicrhau darpariaeth deg ar gyfer ein holl breswylwyr a derbynwyr ein gwasanaethau.

Sut rydym yn cyflawni'r ddyletswydd

Mae datganiad cydraddoldeb y Cyngor yn gwneud ei ymrwymiad yn glir;

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan bobl wahanol anghenion, gofynion a nodau a byddwn yn ymateb yn weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu trwy hyrwyddo cysylltiadau da a pharch oddi mewn a rhwng ein cymunedau, trigolion, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'n gweithlu.

Byddwn hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i bawb i'n gwasanaethau, ni waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabled, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, BSL ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na ellir dangos ei fod yn gyfiawn.

Mae parch at amrywiaeth yn fater allweddol wrth i'n cymunedau newid a datblygu yn yr 21ain ganrif. Rhaid inni barchu'r hyn sydd wedi bod o'r blaen a'r cyflawniadau hyd at y pwynt hwnnw, ond rhaid inni hefyd dderbyn a pharchu bod pethau wedi newid ac yn parhau i esblygu. Rhaid inni barchu pob unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yma, sy'n cynrychioli neu'n ymweld â'r fwrdeistref sirol.

Rhaid i wasanaethau'r Cyngor adlewyrchu'r anghenion amrywiol hyn ac mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes gefndir cryf o ran darparu gwasanaethau hygyrch mewn ffordd synhwyrol, fesuredig a chost-efeithiol. Mae cyllid llywodraeth leol yn cael ei herio fwyfwy ac mae'n rhaid i unrhyw newidiadau ystyried yr effaith ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, sy'n dwyn awdurdod llawn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Wrth i ni symud i 2021-2022, mae gennym ni ddyletswyddau economaidd-gymdeithasol newydd sy'n golygu y byddwn ni'n newid y ffordd rydyn ni'n cynnal asesiadau effaith.

Trwy Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, mae'r cyngor wedi dangos tystiolaeth o'r monitro a wnaed i adolygu effaith y cynnydd a wnaed gennym i gyflawni camau gweithredu'r Amcanion Cydraddoldeb. Cesglir gwybodaeth berthnasol o ffynonellau mewnol ac allanol gan gynnwys ymarferion ymgynghori cyhoeddus, data Cyfrifiad, data troseddau casineb lleol neu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Unwaith y caiff yr adroddiad hwn ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i hyrwyddo'n eang yn fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Casglu Perfformiad, Data a Gwybodaeth y Cyngor

Perfformiad y Cyngor

Yn 2018 fe wnaethom osod ein chwe Amcan Llesiant a'u hymgorffori yn ein Cynllun Corfforaethol. Nid yw gosod amcanion yn beth newydd, rydym wedi bod yn gosod Amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella ers nifer o flynyddoedd; fodd bynnag dyma'r tro cyntaf i ni osod amcanion dros gyfnod cynllunio o bum mlynedd.

Gan y gall amgylchiadau newid dros amser, mae'n bwysig i ni sicrhau bod ein Cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben. Felly cynhaliwyd adolygiad o'n hamcanion i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac o ganlyniad, gwnaethom fân newidiadau i'r Cynllun fel y'i cymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2019. I weld y Cynllun wedi'i ddiweddarau, cliciwch [yma](#).

Darperir perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol; y blociau adeiladu yw gwybodaeth perfformiad ar draws y cyngor. Mae gwasanaethau'n darparu gwybodaeth sy'n cael ei bwydo i fyny i lefel Cyfarwyddiaeth a Chorfforaethol trwy asesiadau perfformiad. Cynhwysir gwybodaeth cydraddoldeb yn yr asesiadau perfformiad; fodd bynnag, yn ystod 2021-2023, byddwn yn gweithio i gysylltu ein Hamcanion Cydraddoldeb yn benodol â'r adroddiadau perfformiad.

Casglu Gwybodaeth Berthnasol

Wrth ystyried a chasglu gwybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, defnyddiwyd Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 fel templed. Mae meysydd gwasanaeth yn cadw gwybodaeth a allai gynorthwyo'r cyngor i nodi sut mae'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol, a chysylltwyd â Phenathiaid Gwasanaeth i ofyn iddynt ddarparu diweddariad cynnydd ar gyfer eu maes gwasanaeth yn erbyn pob un o'r camau gweithredu perthnasol.

Gwnaethom edrych ar adroddiadau'r cyngor a ysgrifennwyd yn ystod y 12 mis i gasglu gwybodaeth berthnasol i roi darlun ehangach o'r gwaith a wnaed. Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod cydraddoldeb wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau'r cyngor yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ddangos tystiolaeth o ystyriaethau cydraddoldeb y cynnig.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio data monitro cyflogaeth a ddarperir trwy system AD y cyngor. Mae'r data cyflogaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys athrawon a gweithwyr mewn ysgolion.

Gellir gweld Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y cyngor: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 - CBSC](#)

Ffynonellau gwybodaeth

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio roedd yn bwysig bod meysydd o arfer da yn cael eu nodi ar draws meysydd gwasanaeth i ddangos bod ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb yn bodoli ar draws y Cyngor. Mae'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2018-2023)
- Cyflenwi gwasanaeth/prosiectau (2020-2021)
- Arferion cyflogaeth
- Rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu
- Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (2020-2021)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2019-2020)
- Monitro a chyflenwi cynllun gweithredu'r CCS (2020-2021)

Diffyg Casglu ac Effeithiolrwydd Gwybodaeth

Er bod gwybodaeth berthnasol sylweddol wedi'i chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn, cydnabyddir ei bod weithiau'n anodd casglu a monitro'r holl wybodaeth mewn cyngor mor fawr â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cafodd gwasanaethau eu dargyfeirio i ymateb i bandemig Covid-19 ac nid oedd yn bosibl casglu gwybodaeth fel y byddem yn ei wneud mewn blwyddyn arferol. Yn y tymor hwy, cydnabyddir y gellir gwneud gwelliannau bob amser i annog dull cyson o rannu gwybodaeth. Ein bwriad yw cynnwys adroddiadau cydraddoldeb yn benodol yn ein prif brosesau asesu perfformiad.

Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol (Amcan Cydraddoldeb 4)

Er gwaethaf pandemig Covid-19, mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i gynnal deialog gyda'i drigolion ac i ofyn am eu barn ar nifer o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Ymgysylltu Cynhwysol a Chymryd Rhan yw un o'n dewisiadau Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Mae ymgysylltu a chymryd rhan wedi parhau mewn ffordd ystyrlon, ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystod 2020-2021, yn fewnol gyda'n staff ac yn allanol gyda'n cymunedau a'n partneriaid.

Er mwyn gwneud iawn am y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer ymgysylltu wyneb yn wyneb o ganlyniad i Covid-19, cyflymwyd y symudiad tuag at dulliau digidol gyda mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a digidol lle bo'n briodol. Er ein bod bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod ymgysylltu ac ymgynghori yn gynhwysol, gwnaed ymdrech ychwanegol i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno ymgysylltu â ni yn gallu gwneud hynny yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion a bod y rheini "nad ydynt yn cael eu clywed yn aml", gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, y rhai sydd dan anfantais economaidd a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn cael gwybod am y cyfleoedd hyn e.e trwy ddefnyddio rhwydweithiau a grwpiau presennol a defnyddio eu dulliau ymgysylltu sefydledig. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu digidol yn peri anawsterau i rai pobl ac rydym wedi defnyddio'r rhwydweithiau hyn a dulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu i'n helpu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Mae gwaith wedi parhau i gyflawni Fframwaith 'Ymgynghori ac Ymgysylltu' Tîm Caerffili, ([Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025](#)) a gymeradwywyd gan Gabinet y cyngor ym mis Chwefror 2020, a nododd ddull gweithredu ar gyfer dealltwriaeth gyffredin i wella ymgysylltiad ymhellach. Mae'n nodi'r egwyddorion a'r safonau ar gyfer sut y bydd y cyngor yn ymgysylltu i adeiladu '*disgwyliadau clir a rennir sy'n galluogi ffocws ar yr hyn y gellir ei gyflawni*'.

Yr egwyddorion o fewn y fframwaith yw:

- Byddwn yn grymuso ein trigolion i gael mwy o ddylanwad dros y materion sy'n effeithio arnynt
- Byddwn yn cynyddu ac yn cryfhau rôl cymunedau yn y ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â bwrdeistref sirol Caerffili
- Bydd hyn yn ein helpu i ddeall anghenion ein cymunedau, a fydd yn ei dro yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn bodloni'r anghenion hynny, a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Byddwn yn cefnogi cymunedau i weithredu, trwy eu helpu i nodi anghenion a'u cefnogi i ddatblygu atebion a arweinir gan y gymuned.

Mae egwyddorion strategol Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau penodol i Gymru ac Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru wedi'u gwreiddio drwy'r ddogfen gyfan.

Yn dilyn secondiad yr Uwch Swyddog Cyfathrebu i'r Tîm Trawsnewid y llynedd, cymeradwywyd achos busnes i benodi Swyddog Prosiect Ymgysylltu i gefnogi'r maes gwaith hwn ymhellach. Mae'r Tîm Trawsnewid yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd sy'n rhan o'r Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori i sicrhau bod dull cydgyssylltiedig ar draws ymgynghori, ymgysylltu a

chyfathrebu sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol unigolion wrth i'r cyngor barhau i drawsnewid.

Mae gweithgareddau eraill sydd wedi cyfrannu at yr amcan hwn yn cynnwys:

Paratoi'r cyngor ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ar 1 Ebrill 2021. Datblygwyd proses Asesu Effaith Integredig newydd sy'n cyfuno nifer o asesiadau blaenorol, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r asesiad yn erbyn y ddyletswydd newydd. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r berthynas â data ac ymgynghori.

- Yr hyfforddiant a gyflenwyd
 - Hyfforddiant Asesu Effaith Integredig i uwch reolwyr (cyflwynwyd 4 sesiwn ym mis Mawrth 2021)
- Rhaglen hyfforddi gynlluniedig
 - Ymgynghori ac Ymgysylltu Effeithiol (4 sesiwn hyfforddi wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2021)
 - Gwneud gwybodaeth yn hawdd i'w darllen a'i deall, Anabledd Dysgu Cymru (i'w chyflwyno ym mis Mai 2021)

Mae gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus yn parhau i gael eu hyrwyddo'n rhagweithiol ar dudalen flaen gwefan y Cyngor, yn ogystal ag ar draws ei sianeli digidol. Hefyd, mae rhagor o fanylion am weithgareddau ymgysylltu cyfredol (gan gynnwys dolenni i arolygon byw lle bo'n briodol) a chanlyniadau gweithgareddau ymgysylltu diweddar yn cael eu cofnodi ar y wefan. <https://www.caerffili.gov.uk/cymerwch-ran/ymgyngoriadau>

Yn ystod 2020-2021, cynhaliodd y cyngor nifer o weithgareddau ymgynghori allweddol yn fewnol ac yn allanol gan gynnwys:

- **Sgwrs Caerffili** - rhoddodd y cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio ar draws y fwrdeistref i rannu eu profiad o fywyd ar draws yr ardal a nodi blaenoriaethau i helpu i siapio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion dinasyddion wrth i ni symud ymlaen. Mae'r ymgynghoriad hwn yn enghraifft o sut mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i annog cyfranogiad, hyrwyddo ymgynghoriadau a sicrhau bod pob sector o'r gymuned yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Ceir adroddiad cryno llawn yn <https://www.caerffili.gov.uk/cymerwch-ran/ymgyngoriadau/ymunwch-yn-nhrafodaeth-caerffili>
- **Rhaglen Ysgolion y 21^{ain} Ganrif** – ymgynghoriadau ar Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon (<https://www.caerffili.gov.uk/cymerwch-ran/ymgyngoriadau/ysgolion-yr-21ain-ganrif-ysgol-gymraeg-cwm-gwyddon>) ac Ysgol Arbennig a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields (<https://www.caerffili.gov.uk/cymerwch-ran/ymgyngoriadau/ysgolion-yr-21ain-ganrif-ysgol-a-chanolfan-adnoddau-cae'r-drindod>)
- **Ymgynghoriad Teithio Llesol Cam 1** - Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ailgyflwyno eu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021. Bydd yr ymgynghoriad mewn tri cham ac roedd Cam 1 yn gofyn am adborth ar rwystrau i gerdded a beicio drwy'r offeryn ar-lein cyffredin. Roedd Cam 2 yn gofyn am farn ar y seilwaith presennol yn y Fwrdeistref a pha anawsterau y mae pobl yn eu profi wrth gerdded neu feicio a bydd Cam 3 yn ceisio nodi llwybrau ar gyfer y dyfodol <https://www.caerffili.gov.uk/cymerwch-ran/ymgyngoriadau/ymgyngoriad-yngylch-map-rhwydwaith-integredig-teithio-llesol-cam-1>

- Arolwg gweithio ystwyth i staff sydd eisoes wedi cael profiad o weithio mewn ffordd ystwyth, yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws ac yn flaenorol, gan gynnwys a oedd eu nodweddion gwarchoddedig wedi gwneud y newid yn fwy anodd iddynt (Mehefin 2020).
- Arolwg staff (cyflawnwyd yn gynnar ym mis Ebrill 2021) i'r holl staff, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen/nad ydynt yn gweithio yn y swyddfa, i geisio barn am strategaethau a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar staff.

Ymateb i Covid-19 a Helpu ein Trigolion Bregus

Mae'r adran ganlynol yn rhoi cipolwg byr o rai o'r mesurau arfer da a roddwyd ar waith gan y Cyngor yn ystod pandemig Covid-19, sy'n dangos ein cydymffurfiad a'n hymrwymiad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Roedd ymddangosiad y Coronafeirws ar draws y byd yn her sylweddol a digynsail i'n ffordd o fyw a'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.

Mae Swyddogion a Chynghorwyr wedi gweithio'n ddiflino i ddiwallu anghenion ein cymunedau mewn ffyrdd newydd. Mewn ychydig ddyddiau, fe wnaeth y Cyngor ail-bwrpasu, ailffocysu ac ail-lunio ei hun er mwyn ymateb i anghenion uniongyrchol ein cymunedau. Ein prif ddiben fu erioed, ac sy'n parhau i fod, sef "i amddiffyn ein pobl a'n lle".

Heb oedi dim, cyflwynodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Argyfwng a'i drefniadau parhad busnes i gyflawni a chydlynu'r ymateb, gan weithio ar draws gwasanaethau'r Cyngor ynghyd â'n partneriaid allweddol, awdurdodau lleol cyfagos a Llywodraeth Cymru. Mae'r cyrff hyn yn parhau i weithredu mewn amgylchedd deinamig a heriol, gan addasu ac ymateb i ystod o risgiau i gyflenwi gwasanaethau a llesiant ein staff a'n trigolion.

Yn ystod y pandemig coronafeirws, ailbwrpasodd y gyfarwyddiaeth addysg ei hun, gan ddarparu cymorth i bob plentyn a pherson ifanc. Defnyddiwyd ystod o swyddogion, gan gynnwys swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysg, timau addysg gymunedol gweithwyr ieuenctid a chwyselwyr mewn ysgolion, i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed. Felly, mae ein hasesiad o berfformiad yn canolbwyntio ar lun ehangach na data perfformiad yn unig, ac mae'n dangos sut mae'r camau a gymerwyd i gefnogi disgyblion ac ysgolion drwy'r pandemig wedi bod yn effeithiol.

Parhaodd y mwyafrif o'n 500+ o wasanaethau i weithredu, er bod lefelau staffio wedi gostwng. Mae staff wedi newid yn llwyr y ffordd y maent yn gweithio - naill ai'n gweithio'n uniongyrchol ar y rheng flaen; cael eu hadleoli i wasanaethau sydd newydd eu cyflwyno, neu weithio 'o bell' o'u cartrefi. Cyflwynwyd gwasanaethau newydd, megis canolfannau gofal plant i weithwyr allweddol, darparu grantiau i fusnesau a gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddsbarthu bwyd a meddyginiaethau, i dynnu sylw at ddim ond rhai o'r pethau a wnaethom.

Mae'r canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am lefel y gwasanaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r pandemig, yn seiliedig ar yr egwyddor gyffredinol o "amddiffyn ein pobl a'n lle".

Ymateb y Gymuned

Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, ysgrifennodd y Cyngor at dros 76,620 o aelwydydd. Roedd y llythyr yn gwahodd y trigolion hynny oedd yn cwrdd â meini prawf llym (dros 70/ gyda chyflwr iechyd, yn gwarchod/ yn hunan-ynysu ac nad oedd cefnogaeth arall ar gael iddynt gan ffrindiau, teulu, cymdogion neu grŵp cymunedol lleol) i gysylltu i weld sut y gallai'r cyngor gynorthwyo.

Ymatebodd dros 1,550 o drigolion bregus i'r llythyr, a daeth 590 o aelodau o staff y cyngor ymlaen i helpu (350 o'r rheini'n gwirfoddoli yn eu hamser eu hunain). Cafodd pob person bregus ei 'baru' ag aelod o staff a ffurfiwyd 'Cynllun Cyfaill' y cyngor. O'r pwynt hwnnw ymlaen, darparodd y fyddin wirfoddol gefnogaeth hanfodol i'r trigolion bregus hynny, gan gynnwys siopa a sicrhau cyflenwadau, danfon meddyginiaethau a gwneud galwadau ffôn rheolaidd i helpu i atal arwahanrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adborth gan y trigolion agored i niwed ar y cynllun cyfaill wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae'n amlwg bod y cynllun hwn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae gwirfoddoli hefyd wedi bod yn rôl werth chweil i'r rhai sy'n cefnogi'r bobl fregus, gyda 97.3% o'r rhai a holwyd yn nodi eu bod wedi gweld y cynllun naill ai'n brofiad cadarnhaol neu gadarnhaol iawn. Ategwyd a chefnogwyd y gwasanaeth hwn gan y cynnig parhaus o Brydau Uniongyrchol, a oedd yn parhau i weini prydau poeth o ansawdd uchel.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hwy a chreu gwaddol cadarnhaol i sefyllfa nas gwelwyd o'r blaen, bu'r tîm yn gweithio gyda GAVO ar fodel a fyddai'n galluogi aelodau'r gymuned i ddarparu cymorth tebyg i drigolion bregus wrth symud ymlaen.

Ailganolbwyntiodd y Gwasanaeth Cofrestru ei waith ar gofrestru marwolaethau (llawer yn ymwneud â Covid-19) wrth i seremonïau priodas a chofrestriadau genedigaethau gael eu hatal. Roedd y gwasanaeth cofrestru marwolaethau yn gweithredu o bell dan rai amodau emosïynol iawn, ond roedd y staff yn parhau i fod yn hynod broffesiynol drwy'r amser.

Roedd staff y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn gweithio'n ddiflino ac o bell i orfodi deddfwriaeth ymbellhau cymdeithasol mewn adeiladau busnes yn ogystal â chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r model olrhain cyswllt a rheoli heintiau mewn cartrefi gofal.

Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwywyd cynnig i ddatblygu'r Cynllun Cyfeillion presennol a'r Etifeddiaeth Adfywio Cymunedol i fod yn Wasanaeth Gofal Caerffili, gyda'r nod o sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn, yn y lle iawn, ac ar yr amser iawn, gan ddefnyddio un pwynt cyswllt drwy system brysbenneu.

Mae Gwasanaeth Gofal newydd Caerffili yn darparu cyngor, cefnogaeth a chyfeirio trwy asesiadau cryfder i wasanaethau cymorth mewnol ac allanol, i alluogi pobl i ddod yn fwy gwydn a byw mor annibynnol â phosibl trwy fodel cymunedol fel rhan o ddull graddol o ddatblygu taith integredig o un pen i'r llall, trwy wasanaethau mewnol ac allanol ar gyfer trigolion sydd 'mewn perygl'.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Arhosodd mwyafrif y gwasanaethau yn eu lle yn ystod y pandemig, ond fe wnaethom benderfynu cau ein canolfannau dydd ac un o'n cyfleusterau gofal seibiant. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn ar y sail bod mwyafrif y bobl a fyddai wedi bod yn mynychu ar y rhestr warchod, a'r ffaith bod angen inni adleoli'r staff i wasanaethau pobl hŷn a chau bylchau yn ystod absenoldeb salwch.

Cafodd problemau mewn perthynas â lledaeniad Covid-19 mewn cartrefi gofal sylw ledled y DU. Mae cartrefi gofal ym mwrdeistref sirol Caerffili hefyd wedi wynebu'r problemau hyn gydag adroddiadau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn dod o nifer o gartrefi.

Bu parhau i gynnal y Gwasanaethau Plant yn gymhleth. Yn aml bu'n rhaid gwneud cyswllt gwaith cymdeithasol â phlant a/neu deuluoedd dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo a chafodd pob un ond yr asesiadau/adolygiadau mwyaf hanfodol eu gohirio. Yn ogystal, cafodd achosion gofal yn y llysoedd eu hatal hefyd.

Tai

Ar adeg yr achosion, roedd yr awdurdod ar y trywydd iawn i ddod â'i raglen Safon Ansawdd Tai Cymru i ben yn 2020 ond yn amlwg rhoddwyd terfyn ar y cyfan heblaw gwaith brys ar unwaith. Cydnabu Llywodraeth Cymru y broblem, a derbyniodd bod angen ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau rhaglen SATC.

Derbyniodd pob tenant, ac eithrio'r rhai oedd yn byw mewn llety gwarchod alwadau sicrwydd. Dechreuwyd drwy dargedu tenantiaid agored i niwed i wirio eu llesiant ond yn raddol ehangwyd y gwasanaeth i bob cartref.

Roedd canlyniad y galwadau'n cynnwys rhoi arweiniad ar sut i gael cymorth ariannol, manylion cyswllt a chyngor ar sut y gall tenantiaid dalu eu rhent gyda'r Tîm Rhenti ac arianwyr yn ffonio tenantiaid yn ôl os oedd angen cymorth ychwanegol arnynt, gan ddarparu gwybodaeth am sut i roi gwybod am waith atgyweirio a chyngor brys ar y gwasanaeth atgyweirio, cyfeirio materion ymddygiad gwrthgymdeithasol at y swyddog perthnasol a chyngor i gysylltu â'r Heddlu, darparu gwybodaeth ar sut i wneud hunan-atgyfeiriad ar gyfer parcel bwyd a hefyd gwneud trefniadau ar eu rhan, gwybodaeth ar sut i wneud cais am bryd ysgol am ddim a darparu cyngor ar ba gyfleusterau/gwasanaethau'r cyngor oedd yn parhau ar agor.

Hybiau Gofal Plant

Pan gaeodd ysgolion Caerffili, sefydlwyd chwe Hwb Gofal Plant prif ffrwd bron yn syth gyda Trinity Fields hefyd yn cael ei sefydlu fel hwb Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) arall. Bu staff awdurdodau lleol yn gweithio drwy benwythnos 20-22 Mawrth 2020 i asesu a phrosesu'r 800 cais cyntaf am ofal plant gan weithwyr allweddol. Agorodd yr Hybiau ddydd Mawrth, 24ain Mawrth gyda 88 o blant, gan ryddhau 75 o weithwyr allweddol, gyda 21 o deuluoedd yn cael eu cefnogi yn Trinity Fields. Erbyn Mehefin 2020 roedd 9 hwb prif ffrwd, 1 hwb ADY ac 1 hwb ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed yn gweithredu. Cynyddodd nifer y disgyblion i 362 y dydd, gyda darpariaeth hefyd yn cael ei chynnig yn ystod gwyliau'r ysgol, gan gynnwys gwyliau banc. Cefnogwyd yr hybiau bob dydd gan 255 o staff ysgol gwirfoddol yn ogystal â staff ar draws gwasanaethau eraill y cyngor.

Prydau Ysgol am Ddim (PYDd)

Yn dilyn y cyhoeddiad y byddai ysgolion yn cau, roedd y Cyngor yn wynebu her aruthrol wrth barhau i ddiwallu anghenion dros 5,500 o ddisgyblion PYDd o fewn y fwrdeistref sirol. Tra roedd Awdurdodau Lleol eraill yn ystyried cynlluniau talebau a thaliadau arian parod, penderfynodd Caerffili eu bod yn dymuno rhoi bwyd yn uniongyrchol ar blatiau ein disgyblion PYDd.

I wneud i hyn ddigwydd, bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyflenwyr lleol i sefydlu cerbyd storio oer a chanolfan pacio a dosbarthu yn Nhŷ Penallta. Roedd y prydau a oedd yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion PYDd yn cynnwys bocs o 5 pryd wedi'u rhewi, torth o fara, 2 beint o laeth a detholiad o bwddinaw, pecyn llysiau a ffrwythau

ffres wythnosol ynghyd â chardiau ryseitiai i annog rhieni/gwarcheidwaid i ddefnyddio'r cynhwysion i goginio gyda'u plant. Tyfodd y cynllun yn sylweddol wrth i'r gair ledaenu am y gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarparwyd. Yn ei anterth, cynlluniodd y tîm lwybrau dosbarthu ar gyfer dros 60 o gerbydau i gyflenwi PYDd i dros 5000 o blant a phobl ifanc, gyda chynnydd yn y nifer sy'n hawlio PYDd o 70% i 91%. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflwyno'r pecyn prydau PYDd heb ddull "Tîm Caerffili" go iawn gyda chyfranogiad staff o dros 20 o feysydd y Cyngor.

Er bod y cynllun wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda sylw cadarnhaol helaeth yn y cyfryngau, y gymeradwyaeth fwyaf a phwysicaf yw'r adborth helaeth a hynod gadarnhaol a gafwyd gan ein cymuned a'r cwsmeriaid a oedd wedi derbyn y gwasanaeth. Mae'r dyfyniad hwn yn crynhoi'r teimlad cymunedol:

"Chwarae teg i CBSC. Dosbarthiad gwych arall o brydau bwyd, a synnu o weld y ffrwythau. Rydych chi wir wedi gofalu am bethau trwy'r pandemig hwn. Mae pob aelod o staff sydd wedi dod â phethau i ni wedi bod mor hyfryd a chwrtais. Diolch yn fawr iawn eto."

Aeth y gwasanaeth ymlaen i ennill gwobr genedlaethol 'Tîm Gwasanaeth Gorau: Gwasanaeth Arlwygo' yng Ngwasanaeth Gwobrau Blynyddol APSE. Ym mis Gorffennaf 2021, roedd cyfanswm o 1.3m o brydau wedi'u dosbarthu i blant a phobl ifanc agored i niwed ledled y fwrdeistref sirol ers dechrau'r pandemig, gyda 31,215 o brydau'n cael eu dosbarthu bob wythnos.

Blynyddoedd Cynnar

Cefnogodd staff y Blynyddoedd Cynnar fwy na 400 o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a oedd â phlant 0-3 oed gyda chynllun gweithgaredd unigol wythnosol ar gyfer datblygiad plant a chymorth i deuluoedd, ac yna apwyntiad galwad ffôn i weld sut oedd y datblygiad yn dod yn ei flaen a p'un a oedd unrhyw anghenion neu bryderon teuluol eraill.

Symudodd y rhaglenni rhianta i gyrsiau ar-lein ac roeddent ar gael i bawb yn y fwrdeistref sirol. Yn ogystal, cafodd dros 1000 o becynnau gweithgaredd ar gyfer plant 0-3 oed, gan gynnwys llyfr, eu dosbarthu i deuluoedd Dechrau'n Deg a oedd yn rhan o'r rhaglen ond na allent gael mynediad at ofal plant, rhianta neu grwpiau iaith yn ystod y pandemig. Roedd timau iechyd hefyd yn ffonio holl rieni babanod newydd-anedig a ryddhawyd o'r ysbyty i sefydlu unrhyw anghenion cymorth.

Hwylusodd y gwasanaeth blynyddoedd cynnar ehangach ar gyfartaledd 20 cais y dydd ar gyfer naill ai lleoliadau gofal plant neu ganolfannau i blant gweithwyr hanfodol. Ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed, darparwyd dull cydlynol rhwng Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, lle y cynigiwyd lleoedd o fewn Hybiau Gofal Plant fel mater o drefn.

Dysgu o Bell

Derbyniodd ysgolion arweiniad parhaus gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar weithredu strategaeth dysgu o bell a oedd yn anelu at gynnal parhad dysgu i ddisgyblion tra'u bod gartref. Mae'r cymorth hwn yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n defnyddio Hwb, llwyfan digidol ar gyfer addysgu a dysgu, fel y prif arf ar gyfer cyfathrebu a dysgu proffesiynol. Rhannwyd arfer ac ymchwil datblygol ag ysgolion, gyda'r bwriad o wella a mireinio strategaethau cyfredol i ymgysylltu â disgyblion trwy fynediad o bell. Mae meysydd eraill o fewn y gyfarwyddiaeth addysg, megis y Gwasanaeth Cerdd a'r Tîm

Ysgolion lach, yn darparu cyfleoedd dysgu ychwanegol i ddisgyblion. Roedd y Fforwm Ieuenctid yn arf defnyddiol i fesur adborth ar effeithiolrwydd y strategaeth dysgu o bell.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn rhoi menter Llywodraeth Cymru ar waith i gefnogi dysgwyr sydd 'wedi'u hallgáu'n ddigidol', nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg briodol neu fand eang digonol. Helpodd y fenter hon ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig i gael yr un cyfleoedd dysgu â'u cyfoedion trwy roi gliniaduron a chysylltiadau band eang iddynt.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Dangosodd y Gwasanaeth Ieuenctid hyblygrwydd ac arloesedd wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd trwy gydol yr ymateb i'r pandemig. Ar y cyd â chydweithwyr ar draws y cyngor, cynorthwyodd y gweithwyr Ieuenctid i ddsbarthu parseli bwyd brys i'r rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dyluniwyd pecynnau gweithgareddau i ysgogi pobl ifanc a darparu addysg anffurfiol. Roeddent hefyd yn helpu i leihau lledaeniad y feirws trwy weithio yn y gymuned gyda Heddlu Gwent yn cynghori pobl ifanc, wyneb yn wyneb, ynghylch ymddygiad priodol.

Yn ystod y cyfnod clo, cefnogwyd dros fil o bobl ifanc gan y Gwasanaeth Ieuenctid, y mwyafrif ohonynt ag un neu fwy o ffactorau risg. Parhaodd y gwasanaeth ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged NEET ôl-16, hynny yw, llai na 2.5% nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Addaswyd cwricwlwm y Gwasanaeth Ieuenctid i'w gyflwyno ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg i gyfathrebu â grwpiau o bobl ifanc ar sail un-i-un, yn seiliedig ar gymorth.

Diogelu'r Economi

Cafodd y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig effaith economaidd ddifrifol. Fel rhan o'r ymateb i hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru nifer o grantiau a oedd ar gael i gefnogi busnesau. Gweinyddwyd taliadau'r grantiau hyn gan Awdurdodau Lleol a Chyngor Caerffili. Yn wir, mae'r Cyngor wedi gwneud y ganran a'r gwerth uchaf o daliadau grant cymorth busnes ledled Gwent, ac mae yn y chwarter uchaf ledled Cymru.

Mae staff yn Nhîm Busnes, Menter ac Adnewyddu'r cyngor wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Grantiau Busnes ac wedi bod yn eu cyfeirio at ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael.

Bu blwyddyn gyflenwi 2020-21 yn ddigynsail, ac mae pandemig Covid-19 wedi cyflwyno heriau unigryw i'r economi, gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol i gyflogwyr a gweithwyr. Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, daeth cyflogaeth i ben i bob pwrpas ar draws llawer o sectorau, ac yna adferiad araf ac ysbeidiol trwy gydol gweddill y flwyddyn, a gafodd ei effeithio gan gyfnodau clo eraill.

Er bod y cynllun Ffyrlo wedi rhoi sicrwydd i lawer o weithwyr, mae diswyddiadau torfol a diweithdra wedi bod yn nodwedd anochel o ganlyniad economaidd y pandemig. Yn fewnol, gyda dyfodiad cychwynnol y pandemig, gwelwyd hefyd fod adrannau mawr o weithlu'r Cyngor yn cael eu hadleoli i feysydd gwasanaeth â blaenoriaeth, er enghraifft, adleolwyd staff y rhaglen gyflogaeth i gefnogi banciau bwyd a chinio ysgol am ddim. Arweiniodd hyn at effeithiau anochel ar gapasiti cymorth cyflogaeth. Nid yw'n syndod bod y ffactorau allanol mawr hyn wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd yr Amcan yn ystod y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, ar lefel gyffredinol a chan ystyried heriau'r

pandemig, bernir bod yr amcan hwn yn datblygu'n foddhaol, yn enwedig mewn perthynas â chymorth cyflogaeth.

Crynodeb

Er mai dim ond canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol y bu'n bosibl i ni ei wneud yn 2020-2021 oherwydd y pandemig Covid-19, canllawiau Llywodraeth Cymru a gofyniad i ddarparu cymorth i bobl agored i niwed, gwnaethom yn siŵr ein bod yn parhau i weithio'n galed, gan wneud gwahaniaeth i fywydau trigolion a thenantiaid Caerffili.

Ceir enghreifftiau manwl o'r hyn a aeth yn dda yn 2020-2021 yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor 2020-2021. I weld yr adroddiad cliciwch [yma](#).

Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Gohiriwyd y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol yng Nghymru, a ddylai fod wedi'i rhoi ar waith ym mis Ebrill 2020, tan 31 Mawrth 2021 oherwydd pandemig Covid-19. Rhoddodd yr oedi gyfle i ni adolygu ein pecyn cymorth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) cyfredol a datblygu pecyn cymorth Asesiad Effaith Integredig (AEI) i sicrhau bod gennym becyn cymorth asesu a oedd yn addas i'r diben ac yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Diben y ddyletswydd yw sicrhau bod y cyrff cyhoeddus penodedig yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion. Rhaid iddynt hefyd sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae cynnwys cymunedau mewn gwneud penderfyniadau yn allweddol i wneud y penderfyniadau cywir ac i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Rhaid iddynt hefyd ystyried (cynnal asesiad) sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ofynion deddfwriaethol. Mae'r gofynion hyn yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor a gallai methu â chyflawni'r ddyletswyddau hyn arwain at i'r Cyngor wynebu her gyfreithiol am beidio â dilyn y broses briodol.

Er nad oes gofyniad adrodd yn gysylltiedig â'r ddyletswydd, mater i gyrff rhestredig perthnasol yw dangos sut y maent yn bodloni'r gofyniad statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyrff cyhoeddus perthnasol i ddangos tystiolaeth o drywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y ddyletswydd, a dylent ddeall yn llawn effaith debygol penderfyniadau o'r fath er mwyn rhoi sylw dyledus i leihau anghydraddoldebau canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae sylw dyledus yn gysyniad sefydledig mewn cyfraith cydraddoldeb. Yn y bôn, mae'n rhoi pwysau ar fater penodol sy'n gymesur â'i berthnasedd, ac mae'r un egwyddorion i'w disgwyl gennym ni o ran y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Wrth adolygu ein pecyn cymorth AEA presennol a chymharu â'r hyn yr oedd cynghorau eraill yng Nghymru yn ei ddefnyddio, roedd yn amlwg bod llawer ohonynt eisoes wedi trosglwyddo i ddefnyddio pecyn cymorth AEI. Nid yn unig roeddent yn asesu'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, ond hefyd ar feysydd eraill, megis Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Hawliau'r Plentyn, Deddf yr Amgylchedd, Cynllun Corfforaethol (Amcanion Llesiant), Risg a Diogelu Data.

Yn dilyn trafodaethau niferus a sawl drafft, gweithredodd y Cyngor y defnydd o AEI o 31 Mawrth 2021, i gyd-fynd â gweithredu'r ddyletswydd. Mae'r asesiad hwn yn sicrhau y bydd pob cynnig sy'n symud ymlaen i benderfyniad yn dangos tystiolaeth ac yn rhoi sylw dyledus i bum darn o ddeddfwriaeth yn ogystal ag alinio'r cynigion â'r Amcanion Llesiant yn ein Cynllun Corfforaethol.

Mae'r AEI yn ymgorffori gofynion y gofynion deddfwriaethol canlynol mewn un asesiad effaith (Gweler **Atodiad 1**):

- [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) 2011](#)
- [Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021](#)
- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a'r [5 Ffordd o Weithio](#)
- [Mesur y Gymraeg 2011](#) a [Safonau'r Gymraeg](#)
- [Egwyddorion Gunning](#) (tudalen trydydd parti Saesneg yn unig)

Gwaith Hyrwyddo Cydraddoldeb

Yn 2020-2021, nododd y Cyngor nifer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth naill ai drwy godi ymwybyddiaeth trwy ddatganiadau i'r wasg neu bostiadau cyfryngau cymdeithasol. Dathlwyd/marciwyd y canlynol naill ai'n gyhoeddus neu'n fewnol gyda staff:

Mai 2020

[Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl](#)

[Pythefnos Gofal Maeth](#)

[Dydd Ewyllys Da](#) (Urdd)

Mehfin 2020

[Mis Pride](#)

[Wythnos Gofalwyr](#)

[Diwrnod y Lluoedd Arfog](#)

Gorffennaf 2020

Ymwybyddiaeth o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – oherwydd cyfyngiadau Covid-19 cafodd digwyddiadau eu canslo.

Awst 2020

[Pride Cymru](#)

Medi 2020

Bore Coffi Macmillan (mewnol)

Hydref 2020

[Mis Hanes Pobl Dduon](#)

[Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb](#)

Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd (mewnol)

Diwrnod Shwmae

|



Tachwedd 2020
[Diwrnod Rhuban Gwyn](#)



Rhagfyr 2020
[Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg](#)

Ionawr 2021
[Diwrnod Cofio'r Holocost](#)

Chwefror 2021
[Mis Hanes LGBTQ+](#)

Mawrth 2021
[Dydd Gŵyl Dewi](#)
[Diwrnod Rhyngwladol Menywod](#)
[Ymgyrch Dim Hiliaeth Cymru](#)
[Diwrnod y Gymanwlad](#)

Astudiaethau Achos

Mae'r astudiaethau achos a ganlyn yn enghreifftiau o arfer da o'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau yn ystod pandemig mewn ffordd sy'n dangos diwylliant cynhwysol y sefydliad. Ar adeg hynod heriol i lawer o bobl fregus, teuluoedd, cymunedau a busnesau roedd yn bwysig bod y Cyngor yn camu i mewn i fannau cymorth newydd i helpu i amddiffyn pobl a lleoedd.

Astudiaeth Achos 1: Gwasanaeth Prydau Ysgol Am Ddim

Yn ystod y pandemig, gweithiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn agos mewn partneriaeth â chyflenwyr lleol a fu'n helpu i gefnogi'r fenter prydau ysgol am ddim. Ychydig oriau ar ôl cyhoeddi cau ysgolion ar ddydd Gwener 20 Mawrth 2020, fe weithredodd Tîm Arlwyo Cyngor Caerffili yn syth, gan weithio gyda staff a chyflenwyr i greu system i sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael 5 pryd iach a chytbwys bob wythnos.

Ym mis Mawrth 2020, heriwyd y tîm Arlwyo i fwydo dros 6,000 o blant a phobl ifanc yn ardal bwrdeistref Caerffili a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Darparwyd brechdanau am y pythefnos cyntaf, hyd nes y gallai'r tîm a chyflenwyr lleol drefnu pecynnau prydau wedi'u rhewi i'w dosbarthu i gartrefi cymwys.

Parhawyd i ddanfôn y bwyd pan aeth y plant yn ôl i'r ysgol ym mis Medi nes i arlwyo gael ei ailgyflwyno'n ddiogel, ac maent wedi parhau yn ystod cyfnod clo 2021 pan gaewyd ysgolion.

Roedd y gwasanaeth dosbarthu yn gweithredu dros wyliau'r Pasg a chafodd ei ddarparu hefyd i'r disgyblion hynny sy'n hunan-ynysu.

Bu Bwydydd Castell Howell, Woosnam Dairies a W R Bishop yn helpu i gyflenwi ffrwythau, llysiau, pwdinau, llaeth, bara a llawer mwy i dros 5000 o blant ar draws y fwrdeistref sirol.

Cyrhaeddodd y tîm garreg filltir ym mis Mawrth 2021, ar ôl cyrraedd blwyddyn o gyflenwi prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ar draws y fwrdeistref sirol.



Astudiaeth Achos 2: Cynllun Cyfeillio Covid-19

Dechreuodd y Cynllun Cyfeillio ar 16 Mawrth 2020 oherwydd yr angen i ddarparu ymateb cymunedol i gefnogi'r grwpiau canlynol i barhau i hunan-ynysu:

- Pobl dros 70 a/neu gyda bregusrwydd sylfaenol yn ymwneud â chyflwr iechyd.*
- Heb unrhyw rwydwaith cymorth arall na theulu agos



Yn yr un wythnos, ymatebodd 385 o staff i e-bost cychwynnol yn gofyn am wirfoddolwyr i gefnogi'r grwpiau hyn; darparu cefnogaeth gyda siopa, casglu presgripsiwn, cadw mewn cysylltiad, ac ati. Roedd y garfan gychwynnol hon o staff gwirfoddol yn cynnwys staff ysgol ac Aelodau Etholedig. Cafodd gwirfoddolwyr eu categorio yn ôl ardal cod post fel y gallent helpu mor agos â phosibl at eu cymuned eu hunain.

Sefydlwyd llinell ffôn benodol ar gyfer pobl oedd yn agored i niwed Covid-19 ac anfonwyd 76,620 o lythyrau i bob cartref yn nodi y gallent ofyn am gymorth pe bai pobl yn bodloni'r meini prawf uchod. Ar yr un pryd, dosbarthwyd 50,000 o gardiau 'Cymydog Da' ymhlith y gymuned ac i Aelodau Etholedig, ACau ac ASau.

Rheolodd yr Uned Polisi Corfforaethol y system gyda chymorth ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Roedd gwasanaethau a oedd i bob pwrpas wedi cau eu gweithgaredd prif ffrwd yn cynnig staff i'r Cynllun Cyfeillio fel rhan o'r wythnos waith arferol. Datblygwyd canllawiau i gyfeillion, eu diweddarau'n rheolaidd, a'u cyhoeddi drwy e-bost, SMS a thrwy dudalen we bwrpasol.

Ar anterth y cynllun, roedd 1,560 o Bobl Fregus wedi'u cofrestru arno, ac ar 30 Mehefin 2020 y ffigur oedd 1,157. Rhestrwyd llinell ffôn Covid-19 ar dudalennau gwe Covid-19 ac fe'i hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y daflen cyngor cyffredinol a aeth i bob cartref a oedd yn gwarchod o dan gyfarwyddyd GIG.

Cynhaliodd yr adran Tai hefyd alwadau sicrwydd i holl denantiaid Cartrefi Caerffili a oedd yn agored i niwed, gan ychwanegu ychydig mwy o atgyfeiriadau. Roedd cyfeiriadau'n dueddol o ddod oddi wrth gyrff cefnogi cleientiaid e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, a darparwyr Cefnogi Pobl. Cynyddodd y broses 'Profi, Olrhain a Diogelu' ychydig o atgyfeiriadau, gan mai cyngor y llywodraeth ar y pryd oedd y dylai unrhyw un a oedd yn hunanynysu nad oedd yn gallu cael mynediad at fwyd neu feddyginiaeth gysylltu â'u hawdurdod lleol neu'r trydydd sector.

Roedd gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 yn cynnwys:

Parseli Bwyd Llywodraeth Cymru

Ar gyfer pobl a oedd yn hynod glinigol fregus yn ôl y GIG, darparodd Llywodraeth Gymru barsel bwyd wythnosol i'w ddanfoni i'r cartref, os nad oedd rhwydwaith cymorth arall yn bodoli. Gofynnodd 296 o bobl ar restr warchoddedig y GIG, a oedd yn byw ym mwrdeistref sirol Caerffili, am barsel bwyd wythnosol a gweinyddwyd y system hon hefyd gan y Cyngor, gydag uwchlwytho dyddiol i system Llywodraeth Cymru. Daeth y cyfnod gwarchod i ben ar 16 Awst 2020, ac anogwyd y grŵp hwn o bobl i siopa drostynt eu hunain a defnyddio'r slotiau siopa ar-lein â blaenoriaeth oedd ar gael iddynt.

Danfoni Eitemau o Fferyllfeydd.

Er mwyn lleihau'r amseroedd aros hir ar gyfer Cyfeillion a chymunedau, fe wnaethom gynnig mwy o yrwyr y Cyngor oedd â gwiriad gwell Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ategu trefniadau danfoni y fferyllfeydd. Derbyniodd 7 fferyllfa leol y cynnig o gymorth.

Partneriaid Ymateb Cymunedol

Yn ystod yr wythnos gyntaf, cynullwyd grŵp o bartneriaid i rannu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys: Gwasanaethau Oedolion, GAVO, Rhwydweithiau Llesiant Integredig, Fforwm 50+, Rhwydwaith Rhieni, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl, Tai, Age Cymru, Cynllunio at Argyfwng ac ati. Cafodd gwybodaeth am adnoddau cymorth cymunedol ei chreu a'i dosbarthu o fewn y grŵp, gan gynnwys busnesau a oedd yn cynnig gwasanaethau dosbarthu bwyd, manylion grwpiau cydfuddiannol Covid-19 lleol, gwasanaethau cymorth trydydd sector ac ati. Cadwyd y wybodaeth hon yn gyfredol a chafodd ei rhannu hefyd ar y brif [dudalen we Covid-19](#).

Banciau bwyd

Daeth banciau bwyd dan bwysau wrth i wirfoddolwyr hunan-ynysu a'r rhoddion yn lleihau. Rhoddwyd system dros dro ar waith gan y tîm Adfywio Cymunedol i gefnogi darpariaeth gyda thalebau, rhoddion a danfoniadau. Rhoddwyd system brysbennu ar waith i gysylltu unigolion â dosbarthwr talebau lleol. Bu gwirfoddolwyr Banc Bwyd yn paratoi parseli, gyda staff Adfywio Cymunedol yn eu cydlynu a'u dosbarthu. Cafodd stoc ei ailgyflenwi a'i reoli o Lancaich Fawr trwy sicrhau rhoddion bwyd, a rhoddion ariannol gan y sector preifat a grwpiau cymunedol. Derbyniodd dros 2,000 o bobl gymorth banc bwyd.

Beth ddigwyddodd nesaf

Nid oedd lefel y gefnogaeth a gynigiwyd ar y cynllun cyfeillio gan staff y Cyngor yn gynaliadwy wrth i wasanaethau ailddechrau; fodd bynnag roedd angen o hyd o fewn cymunedau, er mai'r nod tymor canolig oedd annog gwydnwch personol ymhlith Pobl Fregus.

Roedd yn anodd rhagweld beth fyddai'r cydbwysedd rhwng galw ac adnoddau; fodd bynnag roedd yn rhaid rhoi cynlluniau ar waith i staff ddychwelyd i'w dyletswyddau arferol dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Roedd hyn yr un mor berthnasol i weithgarwch ymateb cymunedol arall e.e. dosbarthu prydau ysgol am ddim a danfoni nwyddau o'r banc bwyd. Er mwyn amcangyfrif a chynllunio ar gyfer anghenion galw yn y cynllun cyfeillio, casglwyd data gennym mewn dwy ffordd:

- Arolwg o'r holl gyfeillion i ofyn sut mae'r rôl wedi bod iddyn nhw, ac a oes ganddyn nhw unrhyw ddiddordeb mewn parhau i wirfoddoli yn y rôl wrth symud ymlaen. Derbyniwyd 150 o ymatebion ac maent wedi eu crynhoi yn **Atodiad 2**
- Gwnaethpwyd galwadau i dawelu meddyliau'r holl Bobl Fregus a oedd wedi cofrestru ar y cynllun i ofyn sut oedden nhw a pha lefel o gefnogaeth yr oedden nhw'n ei feddwl y gallent fod ei angen tra bod y cyfnod clo yn parhau. Gweler **Atodiad 3**.

Cynigion camu-i-lawr

Cytunodd y Cabinet y dylid trosglwyddo rheolaeth y cynllun cyfeillio i dîm Adfywio Cymunedol y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a oedd yn caniatáu:

- Adnabod pobl fregus yn haws mewn cymunedau
- Gwell ymgysylltu
- Nodi anghenion gwasanaeth newydd mewn cymunedau
- Y cyfle i adeiladu ar ac ehangu'r grwpiau cydgymorth Covid-19
- Symud asedau cymunedol mewn cydgynhyrchu grymusol
- Cefnogi'r llinyn Cymunedau Gwydn o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Astudiaeth Achos 3: Cynllun Gwirfoddoli Staff

Un o nodau strategaeth **Tîm Caerffili: Gwell Gyda'n Gilydd** yw gweithredu Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol. Nododd arolwg y Cynllun Cyfeillion (**Atodiad 2**) y byddai 95.4% o'r 150 o staff a ymatebodd (allan o 590 o gyfeillion) yn bendant neu'n debygol o fod eisiau parhau i wirfoddoli mewn swydd debyg yn y dyfodol. Mae'r staff dan sylw wedi ennill ymdeimlad pendant o falchder a gwerth.

Fel rhagflaenydd ar gyfer Gwirfoddoli Corfforaethol, gan adeiladu ar yr ewyllys da a welwyd yn yr ymatebion a dderbyniwyd gan gyfeillion sy'n gwirfoddoli ar y Cynllun Cyfeillio, cynigiwyd bod staff yn cael eu cefnogi i barhau yn y rôl cyfaill trwy ychwanegu categori at y Polisi Absenoldeb o hyd at 2 ddiwrnod y flwyddyn mewn oriau, pro rata. Y disgwyl yw y byddai hyn yn cael ei baru â chyfnod cyfatebol o'u hamser eu hunain. Bydd y canlyniadau'n cael eu gwerthuso ar ôl 6 mis drwy gynnal arolwg o'r staff a'r rheolwyr sy'n gysylltiedig gyda'r bwriad o sefydlu Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol ehangach.

Bydd caniatáu i staff barhau yn y rôl Cyfaill, o bosibl gydag ychydig o anogaeth drwy amser i ffwrdd â thâl i gefnogi pobl hŷn a phobl fregus, yn ddiamau yn helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd tymor hwy y tu hwnt i gyfnod Covid-19 yn ogystal â darparu gwydnwch yn y Cynllun Cyfeillio. Yr ymchwil a ddyfynnir yn aml yw bod pobl hynod unig yn dioddef yr hyn sy'n cyfateb i iechyd o ysmegu 15 sigarét y dydd, a bod pobl hynod unig ddwywaith yn fwy tebygol o ddatblygu Alzheimers. Byddai cynnal cynllun cyfeillio tebyg i gyfeillion yn wasanaeth ataliol ar yr un pryd â chaniatáu i staff deimlo'n rhan o'u cymunedau ac ymdrech Tîm Caerffili. Mae Gwirfoddoli Corfforaethol hefyd yn faes Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chysylltiadau â phartneriaid allanol gan gynnwys prosiect 'Ffrind i mi' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Data Monitro Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ddata lefel uchel o'r hyn sydd gan system gyflogres iTrent ar 31 Mawrth 2021 o ran proffil gweithlu CBS Caerffili, o ran nodweddion gwarchoddedig a gallu ieithyddol staff.

- Dangosir data Rhyw, Ethnigrwydd ac Anabledd fesul Cyfadran ar hyn o bryd.
- Ar hyn o bryd dangosir data Crefydd neu Gred a Chyfeiriadedd Rhywiol gan gyfansymiau corfforaethol yn unig. Mae data wedi gwella yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Mae Gallu Iaith ar gael fesul Maes Gwasanaeth ond darperir y data yma fel cyfansymiau Corfforaethol er gwybodaeth.
- Nid oes gwybodaeth arall wedi ei chyflwyno gan fod y categorïau ar hyn o bryd yn dangos dim cofnodion.

Rhywedd fesul Cyfadran	Gwrywaidd	Benywaidd	Heb Ddatgan
Cymunedau	867	616	0
Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	899	4169	0
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	476	1430	0
Cyfanswm yr Awdurdod	2190	6106	0

Ethnigrwydd fesul Cyfadran	Gwyn	BME	Heb Ddatgan	Anfodlon Datgan
Cymunedau	1374	12	93	4
Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	4214	36	814	4
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	1806	28	70	2
Cyfanswm yr Awdurdod	7241	70	975	10

Anabledd fesul Cyfadran	Anabl	Ddim yn anabl	Heb Ddatgan	Anfodlon Datgan
Cymunedau	56	1324	103	0
Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol	73	4145	850	0
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	58	1755	93	0
Cyfanswm yr Awdurdod	176	7078	1042	0

Cyfeiriadedd Rhywiol (cyfansymiau)	Nifer
Deurywiol	20
Hoyw	31
Heterorywiol	2914
Lesbiaidd	21
Arall	25
Heb Ddatgan	5183
Anfodlon Datgan	102
Cyfanswm yr Awdurdod	8296

Crefydd neu Gred (cyfansymiau)	Nifer
Bwdhaidd	5
Cristion (Pob Enwad)	1185
Hindw	4
Iddewig	1
Sikh	2
Dyneiddiwr	4
Dim Crefydd	1644
Heb Ddatgan	5349
Anfodlon Datgan	63
Arall	39
Cyfanswm yr Awdurdod	8296

Cenedligrwydd	Nifer
Prydeinig (Nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw)	1060
Seisnig	71
Gogledd Iwerddon	2
Gwyddelod	6
Cymreig	2167
Albanaidd	5
Cernywaidd	1
Arall	32
Heb Ddatgan	4944
Anfodlon Datgan	8
Cyfanswm yr Awdurdod	8296

Gallu Ieithyddol (Heblaw Saesneg)	Nifer
Braille	2
BSL (Iaith Arwyddion Prydain)	44
Iseldireg	2
Ffrangeg	33
Almaeneg	11
Groeg	2
Hebraeg	1
Hindi	2
Eidaleg	2
Iaith Arwyddion Makaton	1
Malayalam	2
Rwmaneg	1
Sbaeneg	11
Tamil	1
Twrceg	1
Cymraeg	1825

(Ni chofnodir cyfanswm staff gan fod rhai staff yn siarad mwy na dwy iaith)

Sgiliau Iaith Gymraeg**

Cyfanswm Staff*	8296
Siaradwyr Cymraeg*	1825
Canran y Gweithlu	21.99%

* Nid yw'r **Cyfanswm Staff** a **Siaradwyr Cymraeg** yn hafal i gyfanswm y gweithlu cyffredinol oherwydd bod gan rai aelodau o staff fwy nag un swydd o fewn y sefydliad a bod y swyddi hynny o fewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

** Mae'r cyfansymiau hyn yn cynnwys athrawon a gweithwyr yn yr ysgol.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn i ddangos yn bennaf ymrwymiad y Cyngor i fodloni Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'n amlygu cysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cefnogi 4 o 7 nod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru; sef Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd y cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer pob grŵp gwarchoddedig.

Roedd disgwyl i'n cynllun newydd gael ei gymeradwyo ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-2020; fodd bynnag, golygodd y pandemig a'r ymateb uniongyrchol angenrheidiol gan y Cyngor na chytunwyd arno'n ffurfiol tan fis Hydref 2020. Felly 2020-2021 oedd y flwyddyn gyntaf o gyflenwi yn erbyn ein hamcanion. Fe wnaethom ddewis 7 Amcan Cydraddoldeb Strategol, ac er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig, rydym wedi gallu dangos cynnydd da yn eu herbyn. Mae'r crynodeb a ganlyn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwn i fodloni gofynion adrodd ein cynllun 4 blynedd. Ein hamcanion dewisol yw:

Amcan Cydraddoldeb 1 – Cynllunio a Darparu Gwasanaethau – Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau

Amcan Cydraddoldeb 2 – Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan Cydraddoldeb 3 – Cydlyniant Cymunedol - Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol

Amcan Cydraddoldeb 4 – Ymgysylltu Cynhwysol a Chymryd Rhan – ymgysylltu â thrigolion i'w hannog i gymryd rhan a lleisio barn wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau

Amcan Cydraddoldeb 5 – Yr Iaith Gymraeg - sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol

Amcan Cydraddoldeb 6 – Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal – Creu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth y cymunedau yn y fwrdeistref sirol

Amcan Cydraddoldeb 7 – Lleihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cynnydd yn erbyn yr Amcanion a'r Camau Gweithredu:

Amcan Cydraddoldeb 1 – Cynllunio a Darparu Gwasanaethau – Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethau

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol i ddinasyddion y fwrdeistref sirol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy barhau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i nodi a dileu rhwystrau i wasanaethau.

Gall y rhwystrau a brofir gan grwpiau ac unigolion gynnwys mynediad at wybodaeth mewn fformatau priodol i weddu i'w hanghenion, anawsterau iechyd meddwl, trafnidiaeth, diweithdra neu hygyrchedd technoleg. Dylai meysydd gwasanaeth weithredu cynlluniau a strategaethau ar y cyd i fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhwystrau a nodwyd a chael gwared arnynt.

Mae addysg, iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth yn feysydd yr hoffem eu gwella.

Mae grymuso grwpiau â nodweddion gwarchoddedig i allu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn ffocws allweddol i'r Cyngor.

Cam Gweithredu 1

Cyflenwi'r egwyddorion yn y Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol - cysylltu technoleg a gwybodaeth i ddarparu profiad a chyfleoedd rhagorol i gwsmeriaid.

Cynnydd

Caiff yr holl wasanaethau a phrosesau eu datblygu a'u darparu gyda ffocws ar y cwsmer. Mae Covid-19 wedi golygu bod mwy o ffocws wedi bod ar ddatblygu ffurflenni ar-lein. Mae ffurflenni'n dilyn dull safonol fel bod cwsmeriaid yn gyfarwydd â'r dyluniad. Datblygir pob ffurflen ar gyfer y we (digidol yn ddiodyn), yna caiff ei haddasu i'w defnyddio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Mae awtomeiddio wedi gwella profiad cwsmeriaid ar gyfer atgyfeiriadau Cefnogi Pobl, Prydau Ysgol Am Ddim a Grantiau Mynediad Datblygu Disgyblion, gan alluogi prosesu miloedd o geisiadau gwasanaeth heb fod angen ymyrraeth ddynol. Mae hyn wedi galluogi staff i fod yn rhydd i ddelio ag ymateb i Covid-19 a chefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed.

Mae Safonau Gwasanaethau Cwsmer wedi'u gwreiddio, a defnyddir y rhain fel rhan o hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Mae'r Cyngor yn defnyddio gwahanol ddulliau o gyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol lluosog.

	Dilynwyr	Postiadau	
Twitter	20,345	5,442	(50% yn Gymraeg)
Instagram	3,560	208	(Dwyieithog a Chymraeg)
Facebook	25,984	4,761	(Dwyieithog a Chymraeg)
LinkedIn	5,908	366	(Dwyieithog a Chymraeg)

Dull arall y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i gyfleu negeseuon yw gwasanaeth tanysgrifio am ddim ar gyfer Bwletinau E-bost Gov Delivery. Trwy gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn mae trigolion yn derbyn gwybodaeth allweddol y Cyngor yn syth i'w cyfeiriad e-bost, gyda hyperddolenni wedi'u cynnwys i fynd â'r darllynydd at ragor o wybodaeth.

Data Gov Delivery ar gyfer 1 Tachwedd 2020 i 31 Hydref 2021

Cymraeg

- Anfonwyd 97 o fwletinau e-bost
- Tanysgrifwyr wedi cynyddu o 344 i 676 (+99.40%)
- Cyfradd ymgysylltu (y rhai agorodd a chlicio ar ddolen mewn bwletin) 47.4%
- Argraffiadau 3,299 (cliciau ar ddolenni)
- 1,277 o danysgrifiadau +512 +66.93%

Saesneg

- Anfonwyd 107 o fwletinau e-bost (roedd 10 yn fewnol, ar gyfer staff yn unig)
- Tanysgrifwyr wedi cynyddu o 36,180 i 39,734 (+10.70%)
- Cyfradd ymgysylltu (y rhai agorodd a chlicio ar ddolen mewn bwletin) 70.20%
- Argraffiadau 1,400,000 (cliciau ar ddolenni)
- 164,094 o danysgrifiadau +20,307 +14.12%

Cam Gweithredu 2

Sicrhau bod gan ein staff y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau digidol – yn gysylltiedig â *Thema Staffio, Sgiliau a Datblygu*.

Cynnydd

Cynhwyswyd y cam hwn yn un o'r Adolygiadau Corfforaethol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ond oherwydd y pandemig nid oes unrhyw gynnydd i'w adrodd.

Cam Gweithredu 3

Archwilio ac ystyried mabwysiadu'r Symbol Mynediad i Gyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan ddefnyddio gwahanol fformatau ac ieithoedd gan gynnwys BSL.

Cynnydd

Mae gennym aelod tîm sy'n gallu sgwrsio mewn BSL. Cyn Covid-19 bu'r aelod hwn o staff yn cefnogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn Nhŷ Penallta ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid a meysydd Gwasanaeth eraill lle'r oedd angen iaith arwyddion. Yn ystod Covid-19 lle y nodwyd yr angen, mae'r aelod o staff wedi cynnal cyfarfodydd angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid trwy Microsoft Teams i alluogi cyfathrebu trwy BSL.

Cam Gweithredu 4

Uwchsgilio dinasyddion i alluogi mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i fynd i'r afael ag allgáu digidol.

Cynnydd

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, roedd 65 o gofrestrïadau ar gyrsiau llythrennedd digidol/TGCh yn ein gwasanaeth addysg oedolion. Nid oeddem yn gallu cynnal ein sesiynau Dydd Gwener Digidol mewn llyfrgelloedd lleol gan eu bod yn parhau ar gau oherwydd y pandemig.

Sefydlwyd cynllun benthyca dyfeisiau lle gall dysgwyr a chyfranogwyr fenthyg gliniaduron, iPads, neu Chromebooks tra ar raglen Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerffili neu'n gysylltiedig â darpariaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Prynwyd dyfeisiau drwy gyllid Llywodraeth Cymru.

Cam Gweithredu 5

Nodi anghenion gwasanaeth grwpiau defnyddwyr penodol; pa rwystrau sy'n atal mynediad; a pha gamau sydd eu hangen i gael gwared ar y rhwystrau hynny – defnyddio cwynion a chanmoliaeth.

Cynnydd

Dyfarfwyd £50,000 i ACL Caerffili gan y Gronfa Trawsnewid Digidol i redeg darn o ymchwil rhanbarthol i fynd at wraidd y mater er mwyn deall Allgáu Digidol. Edrychodd yr ymchwil ar nifer y bobl gyda/heb ddyfeisiau digidol; nifer y bobl sydd â chysylltedd a hebdo; a pha mor hir y mae'n ei gymryd i ddod yn llythrennog yn ddigidol. Roedd y rhanbarth yn cynnwys Caerffili fel arweinydd, Blaenau Gwent (Hamdden Aneurin), Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Gellir cyrchu'r adroddiad yma: <https://www.caerffili.gov.uk/Dogfennau-Caerffili/Newyddion/Mynd-ir-Afael-ag-Allgau-Digidol> (Cymraeg) <https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/News/AddressingDigitalexclusion> (Saesneg)

Bydd Gwasanaethau Pobl yn parhau i adolygu cwynion a chanmoliaeth ac yn chwilio am gyfleoedd dysgu sy'n ymwneud â rhwystrau i'n gwasanaeth. Bydd AD a Chyfathrebu yn cefnogi meysydd gwasanaeth eraill fel y bo'n briodol.

Mae proses gwyno newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i'r awdurdod. Bydd hyn yn safoni'r dull o ymdrin â chwynion ar draws yr awdurdod, ac yn monitro bod cwynion yn cael eu trin o fewn terfynau amser. Bydd y system hefyd yn cynhyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddysgu o gwynion a gwella ein gwasanaethau fel awdurdod.

Mae swyddogion cwynion wedi cael eu hysbysu y bydd colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at ein cronfa ddata cwynion i nodi pa gwynion a chanmoliaeth sy'n cynnwys cydraddoldeb neu faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae data cwynion am Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r broses Cwynion Corfforaethol lle bo'n briodol, ac mae'r Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori) bellach yn aelod o'r Grŵp Dysgu o Gwynion corfforaethol sy'n cyfarfod yn chwarterol i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

Cwynion corfforaethol yw'r rhai sy'n deillio o fethiant proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion y gellid yn y pen draw eu hanfon ymlaen at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft. Ymdrinnir â materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff trwy brosesau AD mewnol.

Yn ystod 2020-2021 derbyniasom 5 cwyn yn ymwneud â chydaddoldeb a'r Gymraeg ac maent wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:


Categori	Manylion	Canlyniad
Anabledd	Gofod parcio anabl	Anfonwyd ymateb, nodwyd diffygion a rhoddwyd sylw iddynt ac ymddiheuriadau wedi'u cyfleu. Cynhaliwyd archwiliad o'r broses ac anfonwyd yr adroddiad at yr Ombwdsmon.
Anabledd	Cerbydau yn parcio ar balmentydd	Anfon ymateb a chwyn wedi'i chyfeirio at yr Heddlu i ystyried camau gorfodi
Hil	Camdriniaeth hiliol yn yr ysgol	Cysylltodd yr ysgol â rhieni'r unigolyn i drafod y digwyddiadau. Trefnodd yr ysgol ymweliad swyddog cyswllt yr heddlu â'r dosbarth i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil. Teulu'r dioddefwr yn cael ei gefnogi a'i arwain drwy'r weithdrefn digwyddiadau gwahaniaethol fel bod unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu hadrodd a'u cofnodi.
Cymraeg	Ni dderbyniwyd ymateb i ohebiaeth Gymraeg	Ymateb wedi ei anfon yn Gymraeg yn ymddiheuro am oedi
Cymraeg	Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd wedi'i anfon yn Saesneg yn unig	Esbonio Safonau'r Gymraeg i'r achwynydd. Cyhoeddwyd fersiwn Cymraeg o'r llythyr y diwrnod canlynol ar ôl ei gyfieithu.

Cofnodwyd hefyd un ar bymtheg o geisiadau am wasanaethau cydraddoldeb a Chymraeg, ac maent wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

Categori	Manylion	Canlyniad
Cydraddoldeb	Roedd angen diweddarau testun ar dudalen we Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb y cyngor	Diweddarwyd y testun ar y dudalen we a chynhwyswyd dolen i'r dudalen we mewn ymateb
Cymraeg	Anfonwyd llythyr at staff gan y Prif Weithredwr yn Saesneg yn unig	Bydd gohebiaeth i'r holl staff yn ddwyieithog
Cymraeg	Gwallau teipio mewn post wedi'i ail-drydaru	Roedd y neges Tweet yn perthyn i drydydd parti y cysylltwyd â nhw i gywiro a diweddarau'r post
Cymraeg	Cyfieithiad ar arwyddion dros dro yn anghywir	Arwyddion contractwr. Arwydd wedi'i gywiro. Cyngor yn llunio canllawiau, a rannwyd gyda staff a chontractwyr (Atodiad 4)
Cymraeg	Testun ar arwyddion dros dro bron yn gyfan gwbl uniaith Saesneg	Arwyddion contractwr. Arwydd wedi'i gywiro. Cyngor yn llunio canllawiau, a rannwyd gyda staff a chontractwyr (Atodiad 4)

Categori	Manylion	Canlyniad
Cymraeg	Mae angen eglurder ynghylch cyfieithu ar arwyddion ffyrdd	Copi o Ganllawiau Cyfieithu mewnol wedi'u hanfon at staff a'u hatgoffa i wirio'r arwyddion gyda'r Tîm Cyfieithu
Cymraeg	Post cyfryngau cymdeithasol uniaith Saesneg yn ystod y cyfnod cau dros y Nadolig	Mesurau yn eu lle i sicrhau bod adnodd cyfieithu ar gael yn y dyfodol
Cymraeg	Problem gwneud cais am drwydded barcio trwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r wefan	Hysbyswyd y Gwasanaethau TG a datryswyd y mater

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog i fod i ddod yn gyfraith ar gyfer Tai, Iechyd ac Addysg erbyn Rhagfyr 2021. Mae'r haen ychwanegol hon o ddeddfwriaeth yn golygu ei bod yn bwysig bod staff yn cael eu hyfforddi ar Gyfamod y Lluoedd Arfog. Hyd yn hyn mae 187 o staff o rolau amrywiol o fewn yr awdurdod lleol wedi mynychu'r hyfforddiant. Diwygiwyd pecyn cymorth yr Aseiad Effaith Integredig i adlewyrchu'r garfan hon.



Cam Gweithredu 6

Sicrhau bod gwefan a mewnwrwyd y Cyngor yn hygyrch fel bod pobl ag anableddau yn dal i allu ymgysylltu.

Cynnydd

Mae Rheoliadau Hygyrchedd a ddaeth i rym ar gyfer cyrff sector cyhoeddus ar 23 Medi 2018 yn golygu y bydd angen i holl wefannau'r sector cyhoeddus a dyfeisiau symudol fodloni 'safonau hygyrchedd' penodol a bod rhaid i bob dogfen sy'n mynd ar y wefan fod yn 'hygyrch'.

Gwnaethpwyd gwaith i wneud 97% o'r wefan bresennol yn hygyrch yn unol â'r safonau (dim ond 54% oeddem ni ar ddechrau'r ymarfer). Ni chyhoeddir pob deunydd newydd oni bai ei fod yn bodloni safonau hygyrchedd. Mae gwasanaethau pwyllgor yn dal i weithio trwy ddogfennau pwyllgor ôl-weithredol a gyhoeddir ar-lein i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Mae gwefan a man gwaith digidol newydd yn cael eu datblygu a phan fyddant yn eu lle, byddant yn cydymffurfio'n llawn â safonau hygyrchedd.

Yn fwy na deddfwriaeth er mwyn deddfwriaeth, rydym am i'n cyfathrebiadau fod yn 'hygyrch' a chynhwysol i'n holl ddinasyddion ac rydym am i'n cyfathrebiadau fod yn ddealladwy a chyrraedd pob cynulleidfa bosibl. Mae ffyrdd hawdd o wirio ein dogfennau a ffyrdd syml o'u gwneud yn hygyrch, ac i helpu swyddogion, rydym wedi gosod ystod eang o adnoddau ar Fewnrwyd y Cyngor i helpu ein staff wneud hyn.

Rydym wedi sefydlu Gweithgor Hygyrchedd gyda chynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth, felly os oes angen unrhyw help neu gefnogaeth arbennig ar swyddogion, gallant gysylltu â chynrychiolydd yr adran o'r grŵp hwnnw a all gynorthwyo.

Cam Gweithredu 7

Gwella'r broses o gasglu a chofnodi gwybodaeth monitro cydraddoldeb ein dinasyddion ar draws gwasanaethau'r cyngor.

Cynnydd

Mae'r adran monitro cydraddoldeb ar gyfer ymarferion ymgynghori cyhoeddus wedi'i diweddarau a'i safoni a'i rhannu gyda swyddogion.

Cam Gweithredu 8

Casglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer canmoliaeth a chwynion.

Cynnydd

Mae swyddogion cwynion wedi cael eu hysbysu y bydd colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at ein cronfa ddata cwynion i nodi pa gwynion/canmoliaeth sy'n cynnwys materion cydraddoldeb/Cymraeg.

Cam Gweithredu 9

Cynnal arolwg o stoc adeiladau (ac ysgolion) y cyngor mewn perthynas â hygyrchedd gan ddefnyddio'r Grŵp Mynediad Lleol.

Cynnydd

Dim ymweliadau oherwydd canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru ac ysgolion ar gau i ymwelwyr i reoli risgiau heintiau.

Cam Gweithredu 10

Cynnal arolwg o orsafoedd pleidleisio mewn perthynas â hygyrchedd gan ddefnyddio'r Grŵp Mynediad Lleol.

Cynnydd

Dim ymweliadau oherwydd dim etholiadau yn ystod 2020-2021.

Amcan Cydraddoldeb 2 – Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth – gwella cyfleoedd addysg i bawb

Prif nod yr amcan hwn yw sicrhau bod ein cymunedau mewn sefyllfa dda i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy sy'n talu'n dda fel modd o atal tlodi. Trwy sicrhau bod ein dinasyddion yn barod i fynd i mewn i'r amgylchedd gwaith, byddwn yn atal problemau hirdymor sy'n gysylltiedig â sgiliau isel a diffyg cyflogadwyedd.

Bydd 'Gwella Cyfleoedd Addysg i Bawb' fel y manylir ar hynny yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, yn cael ei gyflenwi drwy ddefnyddio canlyniadau a nodir yn y Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i weithio gydag ysgolion a'r Gwasanaethau Cyflawni Addysg (GCA) i wella cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol.

Bydd cynyddu nifer y dinasyddion sy'n cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu cymunedau cydlynol a gwydn a fydd yn ffynnu. Mae'r agenda sgiliau yn sylfaenol i ddatblygiad economaidd a ffyniant economaidd y genedl, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yn rhan hanfodol o hyn, byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, gan ddileu'r bwlch anweithgarwch economaidd; nodi'r bylchau a'r prinder sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth, cynyddu nifer ac ansawdd prentisiaethau a gwella canfyddiad pobl o brentisiaethau fel llwybr i gyflogaeth sy'n talu'n dda.

Cam Gweithredu 1

Gwella sgiliau dinasyddion trwy ddarparu cyfleoedd i ennill cymwysterau a chymorth i gael cyflogaeth.

Cynnydd

Mae prosiectau Cyflogadwyedd y Cyngor yn rhoi'r cyfle i bawb sy'n cymryd rhan ennill cymwysterau a chyrsgiau cysylltiedig â gwaith. Maent hefyd yn rhoi cyfle i gyfranogwyr wella eu sgiliau sylfaenol.

Gwreiddiwyd egwyddorion gwaith teg yn ein prosiectau cymorth cyflogadwyedd sy'n ceisio paru pobl â nodweddion gwarchodedig, gofalwyr ac oedolion â chyfrifoldeb am blant â chyfleoedd ac oriau gwaith sy'n addas ar eu cyfer.

Rhwng Ebrill 2020 a Medi 2021, yn cwmpasu cyfnod Covid-19, darparodd y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) y cyrsiau a ganlyn:

Masnachfrait Coleg Y Cymoedd:

- Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS – oedolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)) - (pecynnau cymorth ar-lein / llyfyrnau gwaith x 4) – 60 o gofrestriadau.

Masnachfrait Coleg Gwent (Sgiliau Hanfodol):

- Llythrennedd Digidol/TGCh (ar-lein) - 65 o gofrestriadau
- ESOL (ar-lein) – 18 o gofrestriadau

- Llythrennedd (pecynnau cymorth ar-lein) – 13 o gofrestriadau
- Ymgysylltu ag ACL (pecynnau cymorth ar-lein) – 84 o gofrestriadau
- Ysgol Haf (wyneb yn wyneb) – 52 o gofrestriadau.

Cyfanswm o 292 o gofrestriadau* (*daeth rhai unigolion i fwy nag un cwrs).

Cymwysterau Highfield

- Cyrsiau ystafell ddsbarth (nifer isel).
- 45 o gyrsiau gyda chyfanswm o 120 o ddysgwyr yn ennill cymwysterau.

Dysgwyr Porth Ar-lein (LMS)

- Cyfanswm o 258 – enillwyd 319 o gymwysterau, 40 ar y gweill, 98 heb ddechrau'r cwrs.

Trwy fuddsoddi yn ein stoc addysgol a thai, a darparu prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau gwaith o fewn ein sefydliad, byddwn yn cynyddu nifer y dinasyddion lleol sy'n weithwyr medrus a chymwys ac sy'n cyfrannu at Fuddiannau Cymunedol.

Ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod 2020-2021 oherwydd y pandemig Covid-19. Cafodd llawer o staff tai eu hadleoli i gynorthwyo gyda Chynllun Cyfeillio y Cyngor a dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim.

256 o gyfranogwyr wedi cael eu cefnogi i gyflogaeth (ar draws holl raglenni cyflogaeth CBSC)

Cefnogwyd 189 o gyfranogwyr i ennill cymwysterau.

Roedd cyrsiau hyfforddi a chyfleoedd i ennill cymwysterau yn cwmpasu ystod o feysydd pwnc. Gwnaed gwaith gyda chyflogwyr lleol i ddatblygu a darparu llwybrau hyfforddi llwyddiannus (gan gynnwys cyfweiliadau gwarantiedig) o fewn sectorau penodol (Canolfan Gyswilt a Lletygarwch), fel rhan o gynllunio ar gyfer adferiad o'r pandemig.

Er gwaethaf y canlyniadau hyn, roedd ffigyrau Hyfforddiant ar gyfer y cyfnod yn is na'r disgwyl. Ni wnaeth llawer o ddarparwyr hyfforddiant gynnal cyrsiau yn ystod y cyfnodau clo cynnar; ac roedd y ddarpariaeth gyfyngedig a oedd ar gael yn cael ei chyflwyno ar-lein, gan eithrio'r rhai oedd â diffyg sgiliau digidol ac/neu offer priodol. Yn ogystal, nid oedd yn bosibl caniatáu llawer o gyrsiau a thrwyddedau achrededig, sy'n ofynnol gan alwedigaethau penodol, heb gynnal asesiad wyneb yn wyneb, nad oedd yn opsiwn yn ystod y cyfnodau clo llymaf.

Cam Gweithredu 2

Datblygu cefnogaeth i Addysg Oedolion yn y Gymuned i gyflwyno cyrsiau llythrennedd digidol a fydd yn cefnogi rhaglenni cyflogadwyedd lleol.

Cynnydd

Masnachfaint Coleg Gwent (Sgiliau Hanfodol):

- Llythrennedd Digidol/TGCh (ar-lein) - 65 o gofrestriadau

Cam Gweithredu 3

Anelu at leihau effaith tlodi drwy gefnogi dinasyddion i gael gwell cyfleoedd ac amodau cyflogaeth.

Cynnydd

Mae prosiectau Cyflogadwyedd CBSC yn cefnogi cyfranogwyr i wella eu sgiliau cyflogadwyedd, hyder a chymhelliant ac i reoli eu disgwyliadau mewn perthynas â dod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy. Mae'r prosiectau hefyd yn cynorthwyo cyfranogwyr i symud ymlaen mewn cyflogaeth trwy gynyddu eu sgiliau cysylltiedig â gwaith a helpu'r rhai sy'n cael eu tangyflogi i ddod o hyd i waith sy'n fwy addas ar gyfer eu sgiliau a'u profiad.

Bydd cyfranogwyr ar Raglenni Cyflogadwyedd CBSC yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau gwybodaeth grŵp a gynhelir mewn partneriaeth â Gwasanaethau a Sefydliadau, i wneud cais am swyddi mewn rhai sectorau y mae Pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt. Bydd y cyfranogwyr yn cyfarfod â chyflogwyr ac yna'n cael eu cefnogi i ennill cymwysterau a'r sgiliau ynghyd â chyfweliadau i lenwi'r bylchau yn y sectorau penodol hyn.

Bydd y cyfranogwyr yn cael eu cefnogi gan dîm o Fentoriaid i gyrraedd eu nodau a lleihau rhwystrau i ennill cymwysterau sy'n eu gwneud yn fwy cyflogadwy, er mwyn gallu ymgeisio am swyddi yn eu llwybrau gyrfa dewisol.

Bydd cyfranogwyr yn parhau i gael eu cyfeirio at Raglenni Cyflogadwyedd CBSC a'u hasesu gan y Mentor penodedig fel y gellir lleihau rhwystrau i'r cyfranogwr i gael cyflogaeth gynaliadwy.

Bydd holl raglenni Cyflogaeth CBSC yn cael eu hysbysebu mewn gwahanol fformatau er mwyn i gyfranogwyr gael mynediad at wybodaeth fel y gallant hunangyfeirio neu gael eu cyfeirio gan drydydd parti am gefnogaeth i uwchsgilio neu i ennill cyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r gyfres o raglenni cymorth cyflogaeth sydd ar gael yn ceisio cefnogi a grymuso cyfranogwyr unigol i gyflawni gwaith teg; neu yn achos Sgiliau Gwaith i Oedolion (WSfA) a Meithrin, Cymhwyso, Ffynnu (NET), i uwchsgilio a gwella cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd eisoes mewn gwaith. Yn benodol, nod rhaglen NET yw cynyddu perchnogaeth sgiliau cyffredinol, trosglwyddadwy ar draws y gweithlu trwy ddarpariaeth yn y gymuned, gan helpu i wella'r cyfleoedd i weithwyr sgiliau isel gynnal cyflogaeth a chynyddu eu potensial i ennill cyflog.

Mae mwyafrif helaeth canlyniadau NET o fewn CBSC yn ymwneud â swyddi newydd i unigolion, gan naill ai cynyddu oriau neu gyflog, neu'r ddau; yn ogystal â gwelliannau cytundebol megis symud i contract mwy sefydlog.

O fis Mawrth 2020, mae'r dadansoddiad o'r mathau o gymorth a gynigir gan brosiect NET (tuag at gyflawni gwaith teg) fel a ganlyn:

- Llwyddodd 36 o gyfranogwyr i gael mwy o gyflog/oriau/cyfrifoldeb o ganlyniad i rôl newydd
- Roedd 10 cyfranogwr wedi gwella cytundebau gan gynnwys symud i oriau Parhaol neu Lawn amser

- Cefnogwyd 8 cyfranogwr i ennill cyflog/oriau/cyfrifoldeb uwch neu ddyrchafiad yn eu rôl bresennol
- Cyflawnodd 6 o gyfranogwyr well llesiant oherwydd newidiadau yn eu cyflogaeth, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd ac ati.
- Cefnogwyd 5 cyfranogwr i ennill rôl ychwanegol i ategu eu horiau cyflogaeth presennol

Yn ogystal â NET, mae'r prosiect Sgiliau Gwaith i Oedolion (WSfA) yn darparu cymorth o ran cyfleoedd uwchsgilio i gyfranogwyr ar draws y Fwrdeistref sydd mewn gwaith ac sydd naill ai heb unrhyw gymwysterau neu gymwysterau lefel isel, fel llwybr i symud ymlaen (gan gynnwys dilyniant tuag at waith teg).

Ochr yn ochr â NET a WSfA, sy'n cefnogi'r rhai sydd eisoes mewn gwaith i gyflawni amodau gwaith gwell (neu "deg") fel yr amlinellwyd uchod, mae rhaglenni Cymunedau am Waith (CfW), Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+), Pontydd i Waith (BiW) ac Ysbrydoli i Weithio (I2W) hefyd yn cefnogi unigolion *di-waith* i sicrhau gwaith, trwy ddarparu mentora dwys i fynd i'r afael â rhwystrau, dod o hyd i hyfforddiant perthnasol a gwella sgiliau cyflogadwyedd megis datblygu CV priodol a sgiliau cyfweld. Er bod y mathau o waith y gall unigolion eu sicrhau yn amrywiol ac eang, nod mentoriaid cyflogaeth bob amser fydd cefnogi cyfranogwyr i gael mynediad at gyflogaeth sy'n gynaliadwy a theg – a gwneir hyn wrth chwilio am swydd a gwneud cais (drwy gydweithio'n agos â'r tîm Cyswllt Busnes), ond hefyd drwy ddarparu cymorth parhaus yn y gwaith am gyfnod ar ôl dechrau'r gwaith, i gefnogi pan fo problemau yn digwydd yn yr wythnosau cyntaf, a all gynnwys materion sy'n ymwneud â gwaith teg (megis pryderon iechyd a diogelwch, trafodaethau cyflog neu oriau gwaith, hygyrchedd ac ati). Yn aml, gall y cymorth hwn fod ar ffurf grymuso'r unigolyn i fynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol gyda'i gyflogwr, ond gall hefyd olygu gweithio gyda'r tîm Cyswllt Busnes i gysylltu â'r cyflogwr.

O fewn y timau cyflogaeth, mae gennym hefyd fentrau neu weithgareddau penodol i hybu ymwybyddiaeth, cynyddu gwybodaeth a datblygu cymorth penodol yn ymwneud â rhwystrau penodol, fel y gall unigolion sy'n profi'r rhwystrau hyn gael eu cefnogi i gyflawni gwaith teg.

Cefnogaeth i gwsmeriaid ag anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith
Parhaodd rhaglenni cyflogaeth hefyd i ddarparu cymorth rhagorol i gwsmeriaid ag anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, er gwaethaf y ffaith bod y pandemig a'r risgiau cynyddol dilynol i iechyd wedi gwaethygu'r rhwystrau i lawer o'r unigolion hyn. Er enghraifft, llwyddodd y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r rhai ag anableddau, gydag 20% o'r holl gofnodion swydd yn ymwneud â chyfranogwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Trwy fuddsoddi yn ein stoc addysgol a thai, a darparu prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau gwaith o fewn ein sefydliad, byddwn yn cynyddu nifer y dinasyddion lleol sy'n weithwyr medrus a chymwys ac sy'n cyfrannu at Fuddiannau Cymunedol.

Ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod 2020-2021 oherwydd y pandemig Covid-19. Cafodd llawer o staff tai eu hadleoli i gynorthwyo gyda Chynllun Cyfeillion y Cyngor a dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim.

Cam Gweithredu 4

Cyrraedd y targedau a osodwyd yn y rhaglenni cyflogadwyedd lleol trwy uwchsgilio a chefnogi dinasyddion i mewn i waith sy'n talu'n dda.

Cynnydd

Mae pob prosiect yn gweithio tuag at eu targedau er bod Covid-19 wedi cael effaith fawr ar bob prosiect, gan gynnwys staff a adleolwyd i lawer o wahanol feysydd gwasanaeth. Mae menter llywodraeth y DU gyda Serco (cwmni allanol sy'n arbenigo mewn gwaith yn y sector cyhoeddus) hefyd wedi cael effaith ar nifer y cyfranogwyr sy'n ymgysylltu.

Mae Rheolwyr Cyflogaeth y Cyngor yn parhau i gynnal cyfarfodydd cadarnhaol i feithrin cysylltiadau cadarnhaol fel nad oes unrhyw ddyblygu yn digwydd ar draws yr holl raglenni yng Nghaerffili gyda Rhaglenni Cyflogadwyedd eraill a ariennir. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter i drafod llwythi achosion, targedau, unrhyw bryderon neu faterion all godi.

Er gwaethaf yr heriau mawr i gyflogaeth a gyflwynwyd gan y pandemig, parhaodd rhaglenni cyflogaeth y Cyngor i ddarparu gwasanaeth cymorth cyflogaeth o ansawdd uchel i gefnogi cwsmeriaid i gael cyflogaeth trwy gydol y flwyddyn. Er bod yr heriau hyn yn y pen draw wedi arwain at fethu'r targed ar draws y gwahanol raglenni cyflogaeth, teimlir y gellir egluro hyn yn rhesymol o ystyried amgylchiadau digynsail y cyfnod adrodd.

Yn benodol, canlyniadau sy'n ymwneud â chyfranogwyr Economaidd Anweithgar, y rhai 25+ oed a'r rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Er bod pob cwsmer wedi wynebu rhwystrau cynyddol o ganlyniad i'r pandemig, mae'r grwpiau hyn yn arbennig wedi'u heffeithio'n anghymesur oherwydd ffactorau gan gynnwys ystyriaethau gofal plant/addysg gartref a hefyd gan warchod oherwydd mwy o wendid meddygol.

Canlyniadau Positif i'r grŵp oedran 16-24

Roedd y darlun i bobl ifanc (16-24 oed) yn llawer mwy cadarnhaol, gyda chyflwyniad yn rhedeg yn unol â'r proffil yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried mai'r grŵp oedran hwn oedd yn wynebu'r perygl mwyaf o safbwynt rhagolygon cyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig.

Er gwaethaf disgyn yn is na'r proffil mewn rhai meysydd fel yr amlinellwyd uchod, roedd rhaglenni cyflogaeth yn dal i gyflawni'r prif ganlyniadau canlynol yn 2020/21, gan gynrychioli llwyddiannau gwirioneddol i'r cwsmeriaid hynny a oedd yn teimlo y gallent ymgysylltu trwy gydol y pandemig. Mae effaith cael cyflogaeth yn sylweddol ac yn cyflwyno llwybr clir iawn allan o dlodi ac allgáu cymdeithasol i lawer o gwsmeriaid mewn cymunedau difreintiedig. I'r cwsmeriaid hynny a allai fod wedi dod yn ddi-waith o ganlyniad i'r pandemig ac a gafodd eu cefnogi wedyn yn ôl i gyflogaeth, gallai'r canlyniadau hyn fod wedi osgoi dibyniaeth hirdymor ar fudd-daliadau a phroblemau posibl eraill gan gynnwys dyledion a phryderon tai a allai godi o ddiweithdra tymor hwy.

Mae'r ffigurau canlynol yn cynrychioli ystadegau o holl raglenni cyflogaeth y Cyngor (a ariennir gan LIC ac ESF):

• Cyfanswm y Cyfranogwyr a Gefnogwyd	718
• Cymwysterau a Enillwyd	78
• Hyfforddiant Galwedigaethol	56
• Lleoliadau Gwirfoddol	6
• Dechrau Swyddi	256

(Sylwer: gall y ffigurau hyn gynnwys rhywfaint o gyfrif dwbl o gyfranogwyr oherwydd bod cwsmeriaid yn dod yn gymwys ar gyfer gwahanol raglenni ar wahanol gamau; fodd bynnag mae pob canlyniad a hawllir yn cynrychioli digwyddiad ar wahân).

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rheolwyr a'r Rheolwr Partneriaeth o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gefnogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddilyn y rhaglen gywir, fel eu bod yn gymwys i gael y cymorth cywir ac yn cael eu cefnogi i waith cyflogedig.

Bydd Rheolwyr Cyflogaeth yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill i fynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd cyflog ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cam Gweithredu 5

Trwy fuddsoddi yn ein stoc addysgol a thai, a darparu prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau gwaith o fewn ein sefydliad, byddwn yn cynyddu nifer y dinasyddion lleol sy'n weithwyr medrus a chymwys ac sy'n cyfrannu at Fuddiannau Cymunedol.

Cynnydd

Ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod 2020-2021 oherwydd y pandemig Covid-19. Cafodd llawer o staff tai eu hadleoli i gynorthwyo gyda Chynllun Cyfeillio y Cyngor a dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim.

Cam Gweithredu 6

Datblygu ymhellach y dull cynhwysol o ymdrin â phrentisiaethau.

Cynnydd

Mae gwella'r ddarpariaeth o brentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd profiad gwaith yn un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021 – 24, gydag amserlen gyflawni erbyn diwedd 2021-2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyrraedd y targed hwn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo £500k i benodi Prentisiaid yn 2021 ac mae gwaith yn cael ei wneud i nodi faint o achosion busnes y gellir eu cefnogi ag arian cyfatebol, i gefnogi mwy o gyfleoedd prentisiaeth.

Ychydig iawn o gynnydd a wnaed o ran gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod 2020-2021 oherwydd y pandemig Covid-19. Cafodd llawer o staff tai eu hadleoli i gynorthwyo gyda Chynllun Cyfeillio y Cyngor a dosbarthu Prydau Ysgol am Ddim.

Amcan Cydraddoldeb 3 – Cydlyniant Cymunedol - Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol

Disgrifir cydlyniant cymunedol fel y'i diffinnir yng **Nghynllun Cyflenwi Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2016-17** Llywodraeth Cymru (dogfen ddiweddaraf) fel gallu pob cymuned i weithredu a thyfu mewn cytgor gyda'i gilydd yn hytrach nag mewn gwrthdaro. Ei nod yw adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus, eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus yn cymysgu ac yn rhyngweithio ag eraill, yn enwedig gyda gwahanol bobl a phobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mae Caerffili yn mabwysiadu'r egwyddorion bod cymuned gydlynol yn un lle mae:

- gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berthyn i bob cymuned;
- amrywiaeth yng nghefnidiroedd ac amgylchiadau pobl yn cael ei gwerthfawrogi'n gadarnhaol;
- y rhai o gefnidoedd gwahanol yn cael cyfleoedd bywyd tebyg;
- perthynas gref a chadarnhaol yn cael ei datblygu rhwng pobl o wahanol gefnidoedd ac amgylchiadau yn y gweithle, mewn ysgolion ac o fewn cymdogaethau.

Pan fyddwn yn cyfeirio at 'gymunedau' rydym yn aml yn disgrifio cymdogaeth ddaearyddol, ond gellir defnyddio'r term cymuned hefyd i ddiffinio unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig (er enghraifft ethnigrwydd neu ddiwylliant, grŵp oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, rhywedd) neu ddiddordebau.

Cam Gweithredu 1

Codi'r proffil ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethol mewn ysgolion trwy hyfforddiant pellach i staff.

Cynnydd

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi pellach i'r fforwm arweinwyr bugeiliol a'u harchebu ar gyfer fforymau Penaethiaid Cynradd (gohiriwyd yr olaf o ganlyniad i gau ysgolion oherwydd Covid-19 a bydd yn cael ei ailarchebu yng ngwanwyn 2022). Rhoddwyd cyngor i 5 ysgol gynradd mewn perthynas ag ymholiadau am drothwyon adrodd.

Cam Gweithredu 2

Datblygu'r dull integredig rhanbarthol, i wella iechyd a llesiant unigolion a theuluoedd sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cynnydd

Mae gennym hyfforddiant VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ar waith, y mae'n rhaid i bob cyflogai ymgymryd â Grŵp 1 fel gofyniad statudol. Mae hwn ar gael ar-lein i staff ar hyn o bryd, ac mae hyfforddiant pellach Grŵp 2 ar gael i'r rheini mewn swyddi lle gallai VAWDASV fod yn broblem i'w grŵp cleientiaid, sydd mewn sefyllfa i 'Ofyn a Gweithredu'. Mae argaeledd ar gyfer grwpiau pellach bryd hynny, fel Grŵp 6 sydd ar gyfer uwch arweinwyr ac aelodau etholedig.

Cam Gweithredu 3

Cynghori gwaith amrywiaeth gymunedol gyda gwasanaethau a phartneriaid i ddathlu cydraddoldeb gwahaniaeth trwy hyrwyddo digwyddiadau coffaol a dathlu (h.y. Wythnos Ymwybyddiaeth Ffoaduriaid, Diwrnod Cofio'r Holocost, Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb).

Cynnydd

Er bod heriau'r cyfnod clo wedi atal y dulliau arferol o gyflawni gweithgareddau cydlyniant, mae hefyd wedi rhoi cyfleoedd i Dîm Cydlyniant Cymunedol Gwent ystyried ymgysylltu drwy dulliau digidol. Er enghraifft, mae ein hymgyrchoedd sy'n ymwneud â dyddiadau coffa cydraddoldeb - Mis Hanes Pobl Dduon, Wythnos Ymwybyddiaeth Ffoaduriaid, Mis Hanes LHDTTC+ - wedi canolbwyntio'n fwy nag erioed ar lwyfan digidol, ac mae hyn wedi caniatáu i ni gael presenoldeb cyfryngau cymdeithasol mwy rhyngweithiol.

Yn ogystal, mae gwaith amrywiaeth cymunedol drwy gydol y cyfnod hwn yn cynnwys; Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfryngau cymdeithasol a lansio cystadlaethau ledled Ysgolion Gorllewin Gwent ynghylch Mis Hanes Pobl Dduon ac Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.

Trosolwg o weithgareddau Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb – cydweithio â Dreigiau Gwent i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn eu gêm gartref yn ystod yr wythnos. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am raglen diwrnod gêm, cyhoeddiadau uchelseinydd, llun baner Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb gyda chwaraewyr cyn y gic gyntaf. Roedd hyn hefyd yn cynnwys noddi peli gemau, gwerthu crysau-t Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb o gystadleuaeth a gynhaliwyd yn lleol, a chyflwyno nwyddau Dreigiau Gwent i enillwyr y gystadleuaeth hon.

Mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gwent hefyd wedi prynu ac yn dosbarthu matiau cwrw i bob clwb rygbi cysylltiedig ar draws rhanbarth gorllewin Gwent. Mae'r matiau cwrw yn cynnwys logo cydraddoldeb Dreigiau Gwent a'r hashnodau #RugbyForAll #RugbyAgainstRugby #HateHurtsWales

Rydym hefyd wedi dyrannu cyllid i fudiadau trydydd sector a'u cefnogi i gyflwyno eu gweithgareddau drwy gydol yr wythnos, a oedd yn cynnwys cefnogi Menter Iaith Caerffili gyda'u cynnig.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym hefyd wedi archwilio ffyrdd eraill o gyfathrebu ac adrodd straeon ac rydym bellach yn datblygu podlediad lleol sy'n archwilio themâu amrywiaeth ethnig a diwylliannol - gan ganiatáu ffordd newydd o ymgysylltu a hyrwyddo lleisiau llai clywadwy.

Cam Gweithredu 4

Ymgysylltu – datblygu panel dinasyddion cymunedau lleiafrifol fel modd o wella ymgysylltu â lleisiau llai clywadwy.

Cynnydd

Oherwydd Covid, bu'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml drwy rwydweithiau presennol lle mae perthynas dda eisoes wedi'u sefydlu. Rydym wedi sefydlu perthynas dda gyda sawl grŵp o Pobl yn Gyntaf Caerffili, Rhwydwaith Rhieni

Caerffili, Menter Iaith Caerffili ac ati, a byddwn yn parhau i ehangu'r cysylltiadau rhwydwaith hyn ar draws ystod ehangach o grwpiau i sicrhau bod yr holl grwpiau nodweddion gwarchoddedig hynny yn cael eu cynnwys yn fwy effeithiol. Bydd y cam hwn yn cael ei weithredu ar ôl i'r pandemig ganiatáu i'r grŵp gyfarfod yn ddiogel wyneb yn wyneb.

Cam Gweithredu 5

Bydd y tîm cydlyniant cymunedol yn gweithio gyda'r AALI a phartneriaid i ddatblygu gwell arferion tegwch a gwaith gwrth-wahaniaethu mewn ysgolion. (Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff, codi proffil cofnodi digwyddiadau gwahaniaethol, cymorth i ysgolion ddatblygu cynnwys gwaith cydraddoldeb yn y cwricwlwm trwy weithdai ysgolion a phrosiect cyfnewid ysgolion sy'n cysylltu ysgol leol ag un mewn ardal wahanol a chyferbyniol).

Cynnydd

Cyflwynodd y fforwm cydlyniant cymunedol sesiynau i 4 ysgol gynradd cyn iddynt gau oherwydd Covid-19. Nid oedd rhaglen cyfnewid ysgolion yn bosibl oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Cafodd 1 ysgol gynradd ei henwi mewn adroddiad arfer dda ESTYN mewn perthynas â'u gwaith cydraddoldeb. Mae 7 o ysgolion Caerffili yn cymryd rhan ym mhrosiect Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys hyfforddiant i athrawon a gweithdai i ddisgyblion. Darparwyd hyfforddiant amrywiaeth rhywedd ac mae pecyn cymorth drafft yn barod ar gyfer ymgynghoriad.

Clustnodwyd cyfran o'r Grant Cydlyniant Cymunedol i weithio ar ddulliau ataliol, gan gynnwys cefnogi gwaith elusennau gwrth-hiliaeth megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (10k wedi'i glustnodi ar gyfer y prosiect hwn) yn ogystal â chynnal mentrau gwrth-wahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth ein hunain.

Cyn y cyfnod clo, bu Tîm Cydlyniant Cymunedol Gwent yn cysylltu â llu o ysgolion ar draws rhanbarth Gorllewin Gwent, gan gyflwyno gweithdai gwrth-wahaniaethu i dros 500 o ddisgyblion. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ac yn canolbwyntio ar negeseuon cadarnhaol am amrywiaeth. Bu'r sesiynau hefyd yn help i hysbysu athrawon o'r hyn yw 'bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb'.

Yn yr amser yn arwain at y cyfnod clo ac os oedd cyfnod hir o weithio gartref yn deillio ohono – roeddem yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno heriau newydd, yn enwedig o ran sut rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc - ond roedd hyn hefyd yn gyfle i ddatblygu adnoddau/ pecynnau gwersi a chynnyrch oddi ar y silff, a allai gefnogi gweithdai gwrth-wahaniaethu/cynulladau ysgol ar-lein. Ac er bod dyletswyddau wedi newid yn y tymor byr/canolig – h.y. llai o ffocws ar ysgolion a llai o ymdrin â'r cyhoedd – rhoddwyd cyfle i'r Tîm gynllunio (a chyflenwi mewn ffordd wahanol) sut rydym yn y dyfodol yn nodi dyddiadau coffaol sy'n cefnogi negeseuon cynhwysiant. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cyfres o weithgareddau (dulliau ymgyrch/pop-ups/deunyddiau, dolenni i'w rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol yr awdurdodau lleol) ac mae'r gweithgareddau hyn wedi rhoi'r cyfle i Dîm Cydlyniant Cymunedol Gwent gyflwyno ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth ar lwyfan digidol.

Cam Gweithredu 6

Ymgysylltu â gwladolion yr UE mewn perthynas â Chynllun Setliad yr UE.

Cynnydd

Fe wnaethom gyfuno cyllid Cynllun Setliad yr UE (EUSS) gyda Chynghorau Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd a Blaenau Gwent i ddarparu hysbyseb radio ar gyfer yr EUSS, a oedd yn rhedeg tan y dyddiad cau (30 Mehefin 2021). Helpodd y cofrestrwydd arolygol unigolion i wneud cais am y cynllun o fewn bwrdeistref sirol Caerffili.

Mae capasiti ychwanegol dau Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi caniatáu mwy o gymorth gweithredol i ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol yn rhagweithiol. Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gwent wedi cynnal ymgysylltiad rheolaidd â grwpiau sy'n agored i aflonyddu (mewn perthynas â Brexit) er enghraifft; Dinasyddion yr UE, cymunedau BAME, a grwpiau nodweddion gwarchoddedig eraill - gan helpu i gasglu gwybodaeth a lledaenu gwybodaeth am hawliau dinasyddion a chyfeirio dinasyddion at wasanaethau eiriolaeth.

Drwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Setliad yr UE (EUSS) ac wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid (EYST), ochr yn ochr â'r Heddlu a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – trwy ddefnyddio rhwydweithiau lleol, cylchlythyrau preswylwyr a chyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Rydym hefyd wedi cefnogi (drwy'r gyllideb Cydlyniant Cymunedol) y gwaith o ddosbarthu llenyddiaeth EUSS ac wedi sicrhau ei fod ar gael mewn nifer o ieithoedd yr UE – gwybodaeth a gafodd ei dosbarthu ar draws y rhanbarth i bob adran, ysgol ac adeilad cymunedol.

Rydym hefyd wedi cynnal sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd i hyrwyddo'r cynllun, ac rydym wedi defnyddio cyllid EUSS (sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru) i brynu gofod hysbysebu ar-lein, i gomisiynu hysbyseb radio (rhedodd yr hysbyseb Capital tan ddiwedd y cynllun). Hefyd rydym wedi cydlynu seminarau ar-lein ar gyfer arweinwyr cymunedau ac arweinwyr gwasanaethau i ddysgu mwy am sut i wneud cais am yr EUSS ac am hawliau dinasyddion yr UE ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Fe wnaethom hefyd sefydlu'r gwasanaethau 'Rydym yn ddigidol' ym mhob bwrdeistref yng Ngorllewin Gwent, sy'n golygu bod gan lyfrgelloedd lleol y gallu i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais.

Cam Gweithredu 7

Monitro tensiynau cymunedol – cysylltu â Phartneriaid a chymryd camau rhagweithiol i liniaru tensiynau rhag iddynt waethygu yn y gymuned.

Cynnydd

Mae'r tîm wedi bod yn nodi ac yn lliniaru tensiynau cymunedol (troseddau casineb, eithafiaeth, gorbryder, ymddygiad gwrthgymdeithasol) yn ymwneud â Brexit a Covid, ac mae capasiti ychwanegol dau Swyddog Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol wedi caniatáu mwy o gymorth gweithredol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau lleiafrifol. Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn mae'r Tîm Cydlyniant wedi cynnal ymgysylltiad rheolaidd â grwpiau sy'n agored i aflonyddu er enghraifft dinasyddion yr UE, cymunedau BAME, a grwpiau nodweddion gwarchoddedig eraill.

Cynrychiolir y Swyddogion Cydlyniant mewn fforymau lleol priodol – lle mae monitro cydlyniant/tensiwn yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd partneriaeth diogelwch cymunedol, a hyd yma mae ein cyfranogiad yn y fforymau hyn wedi cwmpasu patrymau mudo, troseddau casineb a monitro cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi helpu i gyfeirio ymdrechion y tîm i dargedu a lliniaru tensiynau, er enghraifft gweithdai gwrth-wahaniaethu mewn ysgolion, cyfryngu cymunedol - mewn perthynas ag anghydfodau rhwng cymdogion, lle rydym wedi gweithio gyda'r Heddlu i ymdrin ag anghydfodau cymunedol parhaus - a sefydlu gwrth-naratif ar gyfryngau cymdeithasol (yn gysylltiedig â themâu/ymgyrchoedd coffaol sy'n ymwneud â chydraddoldeb).

Bob wythnos, mae manylion yr holl droseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt i Heddlu Gwent yn cael eu hanfon ymlaen at y Tîm Cydlyniant, caiff hyn ei fonitro a chaiff unrhyw beth o bwys ei drafod yn y fforymau priodol. Cyfarfodydd partneriaeth yw'r prif lwyfan ar gyfer monitro/dal tensiynau cymunedol ac mae perthynas bartneriaethol yn gryfder arbennig. Rydym hefyd yn monitro llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (ffynhonnell agored) ac yn gweithio gyda thimau cyfathrebu a diogelwch cymunedol i liniaru a, lle y bo'n briodol, i dargedu gwrth-naratif. Bu'r tensiynau yn ymwneud â Covid yn bennaf; gyda rhethreg gwrth-Frechlyn yn parhau i achosi drwgdybiaeth yn y rhaglen frechu a naratif asgell dde eithafol yn canolbwyntio ar fudo ac ailsefydlu byd-eang.

Cam Gweithredu 8

Parhau i gefnogi ymgysylltiad yr ALI â Chynllun Adsefydlu'r DU.

Cynnydd

Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gwent wedi parhau i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda'u cyfranogiad yn y rhaglenni Pobl Agored i Niwed/Adsefydlu Plant (a elwir bellach yn Gynllun Adsefydlu'r DU). Mae hyn wedi sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol y gallu i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac yn fwy diweddar mae hyn wedi cynnwys mater ailsefydlu Afghanistan sy'n dod i'r amlwg. Yn gynharach eleni (2021) roedd Polisi Adleoli a Chymorth Afghanistan, a ddatblygwyd o ganlyniad i luoedd NATO yn tynnu'n ôl o Afghanistan, yn rhagweld y byddai Awdurdodau Lleol yn chwarae eu rhan wrth gefnogi newydd-ddyfodiaid. Newidiwyd y polisi i gynnwys yr holl Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches gan ein bod bellach yn rhedeg Cynllun Adleoli yn y DU (UKRS). Mewn ymateb, bu modd i ni symud yn gyflym, ac fel rhanbarth rydym eisoes wedi ailsefydlu 4 teulu (Gorllewin Gwent). Mae Caerffili yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau arweiniol o ran cefnogi ymdrechion Cymru, ac ar draws Awdurdodau Lleol Gorllewin Gwent rydym wedi addo ailsefydlu hyd at 20 o deuluoedd.

Fel rhan o'r cymorth dyddiol a estynnwyd i'r cynlluniau hyn, bu Tîm Cydlyniant Cymunedol Gwent hefyd yn rheoli'r contractau ar gyfer cymorth ESOL – sydd wedi'i gaffael i sicrhau bod pob teulu'n cael darpariaeth gyson, a'r contract gweithiwr achos a ddarperir gan Displaced People In Action (DPIA).

Amcan Cydraddoldeb 4 – Ymgysylltu Cynhwysol a Chymryd Rhan – ymgysylltu â thrigolion i'w hannog i gymryd rhan a lleisio barn wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau

Mae argaeledd gwybodaeth mewn fformatau amrywiol yn hanfodol i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ymarferion ymgysylltu neu ymhob un ohonynt. Er bod datblygiadau mewn technoleg yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau digidol, mae rhwystrau'n parhau i atal dinasyddion rhag ymgysylltu. Mae trafndiaeth, iechyd meddwl, statws economaidd-gymdeithasol, sgiliau llythrennedd a rhifedd isel ac anawsterau penodol a brofir gan grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, yn rhai o'r rhwystrau sy'n parhau i atal dinasyddion rhag ymgysylltu â'r cyngor a gwasanaethau sy'n darparu cymorth ehangach.

Adlewyrchir yr Amcan hwn yn un o'n Hamcanion Corfforaethol sy'n edrych ar sut y gallwn 'Gynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant'. Mae'n cynnwys cefnogi pobl i helpu eu hunain trwy ddarparu cyngor ac arweiniad cynhwysfawr gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill. Mae'n ymwneud â chael sgysiau ystyrion â phobl i'w helpu i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt, a fydd yn llywio gwasanaethau i weddu i'w hanghenion.

Cam Gweithredu 1

Cefnogi dinasyddion i 'helpu eu hunain' drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth gynhwysfawr, gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill.

Cynnydd

Gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol:

Mae **prosiectau cyflogadwyedd** yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at lawer o wasanaethau eraill gan gynnwys partneriaid mewnol e.e. Cefnogi Pobl, Caerffili yn Gofalu, Addysg Gymunedol yn ogystal â phartneriaid allanol Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, MIND, Remploy a llawer mwy.

O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r **Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yn darparu arweiniad cynhwysfawr ac yn cyfeirio at wasanaethau amgen a mwy priodol a nod gwefan **Dewis Cymru** yw helpu pobl gyda'u llesiant a darparu gwybodaeth a chyngor i oedolion a'u gofalwyr.

Mae gwefan y **Blynyddoedd Cynnar** yn cael ei datblygu o safbwynt y teulu er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth a'i bod yn gysylltiedig â gwefannau partner ehangach er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, fwyaf perthnasol. Mae Dewis bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwiliadau **Gofal Plant y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)** i sicrhau cronfa ddata genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer chwilio y tu hwnt i ffiniau bwrdeistref Caerffili.

Mae model y **Blynyddoedd Cynnar** wedi'i ymestyn ar draws y fwrdeistref i sicrhau bod teuluoedd sydd angen cymorth ar gyfer datblygiad eu plentyn ac amgylchiadau teuluol yn gallu gwneud hynny. Dileoedd hyn y rhwystrau i lawer o deuluoedd bregus a oedd yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Er nad yw gofal plant a ariennir ar gael i bob teulu, mae mynediad i raglenni cyn geni, cymorth i deuluoedd, datblygiad iaith gynnar, datblygiad plant a chymorth cynnar mewn achosion o oedi datblygiadol.

Yn Ne Cymru ar hyn o bryd, mae dros 120 o sefydliadau yn cefnogi aelodau **Cymuned y Lluoedd Arfog (AFC)**. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn grwpiau trydydd sector neu wirfoddol sy'n dibynnu nid yn unig ar aelodau'r AFC ond ar y cyhoedd yn gyffredinol i wirfoddoli eu hamser i helpu. Er bod llawer o sefydliadau'n cynnig pecynnau datblygu rhagorol i sicrhau bod eu staff/gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai mewn angen, nid oes gan lawer o grwpiau'r adnoddau (cronfeydd ariannol), y capasiti na'r mynediad at hyfforddiant i wneud hyn. Yn 2020 buom yn llwyddiannus wrth dderbyn £19,440 gan **Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog** i gynnig mynediad i'r rhai sy'n gweithio gydag aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog neu'r rhai sy'n gweithio gyda nhw, i Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a Chyrsiau Iechyd Meddwl eraill gan gynnwys Eich Pecyn Cymorth Llesiant Meddyliol a Chefnoaeth Teuluol ar gyfer trawma.

Gall unigolion a hyfforddwyd mewn **Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl** helpu i asesu, gwrando, rhoi cymorth, annog cefnogaeth gan eraill, a chyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill, pan fydd rhywun mewn argyfwng ac angen cymorth. Hyd yma, mae dros 130 o bobl wedi cael eu hyfforddi ar y cyrsiau hyn.

Cam Gweithredu 2

Cael 'sgyrsiau ystyrlon' i helpu dinasyddion i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt er mwyn llywio gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Cynnydd

Un enghraifft o ble mae cynnydd wedi'i wneud yw mewn perthynas â **Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar**. Mae hyn wedi bod yn symud ymlaen yn y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu model blynyddoedd cynnar ar draws y fwrdeistref o 0-7 oed. Mae Hwb y Blynyddoedd Cynnar bellach yn cynnwys tîm y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ynghyd â gweithwyr proffesiynol ehangach i gefnogi teuluoedd i gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn i ddiwallu eu hanghenion. Mae staff rheng flaen wedi hyfforddi ac maent yn gweithredu sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig" gyda theuluoedd i gefnogi dull seiliedig ar gryfder gydag ymyriadau i ddiwallu anghenion y teulu yn hytrach na dim ond rhoi dewislen o wasanaethau i fodloni dymuniadau. Nod y dull "Beth sy'n Bwysig" yw meithrin perthynas â'r teulu er mwyn deall achosion sylfaenol ac nid symptomau arwynebol yn unig, er mwyn helpu i feithrin gwydnwch teuluol a symud i ffwrdd oddi wrth ddibyniaeth ar wasanaethau.

Cam Gweithredu 3

Nodi a chefnogi gofalwyr.

Cynnydd

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu Gwasanaeth Cymorth i Ofalwyr penodol sy'n cynnwys gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc. Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth, cyngor, grwpiau cymorth, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol drwy gylchlythyrau electronig a thafleddi drwy'r post.

Cam Gweithredu 4

Gwreiddio'r *Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu* ym mhob ymarfer ymgynghori a gynhelir gan wasanaethau'r cyngor i sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol ac y rhoddir amser iddynt ymateb.

Cynnydd

Mabwysiadwyd y fframwaith ym mis Chwefror 2020. Cyflwynwyd Hyfforddiant ar Ymgynghori ac Ymgysylltu Effeithiol ym mis Ebrill 2021 i'r Rhwydwaith Rheoli a swyddogion eraill sy'n ymwneud â gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y sefydliad.

Cam Gweithredu 5

Nodi anghenion gwasanaeth grwpiau defnyddwyr penodol; pa rwystrau sy'n atal mynediad; a pha gamau y mae angen eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hynny.

Cynnydd

Mae datblygu model y Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn rhan o ddull meddwl system yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae teuluoedd a rhanddeiliaid wedi ein helpu i ddylunio gwerthoedd ac egwyddorion system y blynyddoedd cynnar, trwy rannu eu profiadau bywyd eu hunain, egluro'r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi o'r cymorth a gawsant, a thynnu sylw at yr agweddau a ddangosodd lai o werth, dyblygu neu fiwrocratiaeth. Roedd cynnwys y teulu a rhanddeiliaid yn hollbwysig wrth ddatblygu system yn seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion ac osgoi rhagdybiaethau a oedd yn achosi biwrocratiaeth/gwaith papur diangen.

Mae hyn oll yn rhan o'r broses asesu yn y prosiectau cyflogadwyedd. Bydd cyfathrebiadau yn parhau i gefnogi gwaith a yrrir gan feysydd gwasanaeth.

Cam Gweithredu 6

Adolygu a diweddarau ein grwpiau rhanddeiliaid allweddol o fewn y fwrdeistref sirol sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Cynnydd

Rydym wedi cynnal dadansoddiad rhanddeiliaid trylwyr ac yn cynnal cronfa ddata rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Caiff hwn ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Rhennir y gronfa ddata hon gyda swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori ar draws y meysydd gwasanaeth. Mae'r gronfa ddata hon wedi bod yn hanfodol bwysig yn ystod 2020-2021 pan rydym wedi bod angen gwneud ymdrechion ychwanegol oherwydd cyfyngiadau Covid i sicrhau bod pobl yn cael cyfle i rannu eu barn ar gynigion a bod yr ymatebion a dderbyniwyd yn gynrychioliadol o'r gymuned.

Cam Gweithredu 7

Adolygu a chryfhau prosesau mewnol ar gyfer cynnal Aseidiadau Effaith Integredig ac ymgynghori cysylltiedig.

Cynnydd

Datblygodd y Cyngor Aseiad Effaith Integredig yn ystod 2020 i gynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Gweler uchod. Gwnaethom hefyd ddiweddarau'r cwestiynau a ofynnwyd ynghylch yr effaith ar y Gymraeg yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Lluo Polisi.

Cam Gweithredu 8

Sicrhau bod gweithgareddau sy'n ymwneud â newid a thrawsnewid gwasanaethau yn ymgorffori egwyddorion ymgynghori da â chymunedau fel rhan o 'Sgwrs Caerffili'.

Cynnydd

Arolwg Sgwrs Caerffili oedd y man cychwyn ar gyfer deialog newydd gyda chymunedau. Mae llawer o bobl yn cynnig eu hunain i gynorthwyo mewn 'perthynas' newydd gyda'r cyngor. Fodd bynnag, bu oedi gyda'r grwpiau ffocws wyneb yn wyneb arfaethedig oherwydd COVID.

Amcan Cydraddoldeb 5 – Yr Iaith Gymraeg - sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol

Nid yw materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn dod o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** ond mae ganddynt set o safonau o dan **Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**. Manylir ar y rhain yn y rheoliadau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**.

Mae arferion gwaith mewnol yn parhau i esblygu er mwyn sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb iaith yn cael ei pharchu ym mhob agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth. Er mwyn cynorthwyo'r cyngor i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg ac i ddiwallu anghenion poblogaeth Gymraeg y fwrdeistref sirol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis; Menter Iaith Caerffili, Fforwm Iaith, ysgolion cyfrwng Cymraeg ayb. Manylir ar y gwaith hwn yn **Strategaeth Pum Mlynedd Iaith Gymraeg 2017-2022** y fwrdeistref sirol.

Mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'r holl Safonau Iaith Gymraeg y cytunwyd arnynt fel y manylir arnynt yn **Hysbysiad Cydymffurfiaeth y Cyngor** er mwyn sicrhau bod y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, boed yn staff, yn ddinasyddion, yn fyfyrwyr neu'n ymwelwyr, yn gallu cael mynediad i wasanaethau'r cyngor yn Gymraeg.

Mae ein cynnydd yn cael ei gofnodi bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir isod ar gyfer 2020-2021. Cymeradwyodd Cabinet y cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar 9 Mehefin 2021. I weld adroddiad 2020-2021 cliciwch [yma](#).

Cam Gweithredu 1

Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol at y Gymraeg.

Cynnydd

Rhoddyd cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg, archwiliad blynyddol y Comisiynydd a'r Gymraeg yn gyffredinol i Rwydwaith Rheoli'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y sesiwn yn atgoffa uwch swyddogion o'r gofyniad i gydymffurfio â'r Safonau, dolenni i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a chanllawiau ymarferol ar sut i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog.

Ar gyfer Gwasanaethau Plant, mae'r holl blant rydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant, ac mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal, mae eu gofalcwyr yn glir ynghylch yr angen i hybu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.

Cam Gweithredu 2

Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymhlith pobl ifanc i'w helpu i ddod yn hyrwyddwyr cymunedol yr iaith o fewn eu cymunedau.

Cynnydd

Dim cynnydd hyd yma, oedi oherwydd pandemig Covid-19.

Cam Gweithredu 3

Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn meysydd gwasanaeth yn gwisgo cortynnau gwddf / bathodynnau priodol.

Cynnydd

Rydym yn cadw stoc o gortynnau gwddf a bathodynnau 'laith Gwaith' i staff ofyn amdanynt. Gofynnir amdanynt yn rheolaidd ac mae swyddogion yn ymwybodol o bwy i gysylltu â nhw i'w derbyn. Mae ein holl swyddogion gwasanaeth rheng flaen wedi cael yr adnoddau hyn i'w defnyddio.

Buom yn dathlu Diwrnod Shwmae ar 15 Hydref 2020 gydag ymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth o arwyddocâd y digwyddiad. Anogwyd meysydd gwasanaeth gyda chyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddefnyddio #shwmaesumae a #shwmaecaerffili.

Ar 18 Tachwedd buom yn dathlu 15 mlynedd o logo laith Gwaith. Postiwyd nifer o negeseuon trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o'r logo ac yn fewnol gyda staff hefyd, gyda phwyslais ar bwysigrwydd gwisgo'r bathodyn neu'r cortyn gwddf gyda'r logo arno neu drwy arddangos poster yn ein prif dderbynfeydd.

Am yr ail flwyddyn, buom yn dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 7 Rhagfyr 2020. Eto roedd presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad a hawliau siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.



Cam Gweithredu 4

Cefnogi datblygu a hyrwyddo cyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol.

Cynnydd

Cyhoeddwyd cyfeiriadur o wasanaethau Cymraeg yn 2012. Mae angen ei ddiweddarau a'i ddatblygu'n fersiwn electronig i'w wneud yn fwy hygyrch. Bydd y cyfeiriadur yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau drwy weithio gyda Fforwm Iaith Caerffili a Menter Iaith Caerffili.

Mapiwyd darpariaeth y blynyddoedd cynnar a rhoddir blaenoriaeth i gamau gweithredu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae Hwb y Blynyddoedd Cynnar yn cynnig gwasanaeth dwyieithog i deuluoedd ac mae'r holl ofal plant cofrestredig sydd ar gael, gan gynnwys cyfrwng Cymraeg, ar gael i'r cyhoedd ar beiriant chwilio cronfa ddata Dewis. Mae Blynyddoedd Cynnar yn comisiynu Menter Iaith i gefnogi ein lleoliadau cyfrwng Saesneg i wella'r Gymraeg a gynigir yn y lleoliad, yn ogystal â chefnogi dysgwyr Cymraeg i wella'r iaith mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Cam Gweithredu 5

Sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn rhan o raglen digwyddiadau cymunedol y Cyngor.

Cynnydd

Cafodd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau cymunedol y Cyngor eu canslo yn ystod 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau Covid. Fodd bynnag, mae digwyddiadau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu rhedeg gan Fenter Iaith Caerffili a phartneriaid Fforwm yr Iaith Gymraeg eraill wedi cael eu hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor.

Mae nifer o ddigwyddiadau a ddarperir gan Fenter Iaith Caerffili yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â gwasanaethau'r cyngor, er enghraifft mae'r Grŵp Cerdded cyfrwng Cymraeg yn cael ei gefnogi gan Geidwad o'r Gwasanaethau Cefn Gwlad, ac mae grant Haf o Hwyl yn cefnogi'r Urdd a Menter Iaith yn frwd i gynig gweithgareddau haf drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc.

Cam Gweithredu 6

Hyrwyddo'r Gymraeg fel amcan cydnabyddedig i reolwyr, i'w galluogi i fapio darpariaeth Gymraeg ar draws eu maes gwasanaeth a chynyddu capasiti lle bo angen.

Cynnydd

Rhodddwyd cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg, archwiliad blynyddol y Comisiynydd a'r Gymraeg yn gyffredinol i Rwydwaith Rheoli'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y sesiwn yn atgoffa uwch swyddogion o'r gofyniad i gydymffurfio â'r Safonau, dolenni i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a chanllawiau ymarferol ar sut i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog.

Yn dilyn hyn, cyflwynwyd sesiwn bwrpasol i'r Gwasanaethau Caffael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am oblygiadau'r Safonau yn benodol mewn perthynas â chaffael a darparu gwasanaethau caffael.

Mae'r rhaglen gyflogadwyedd yn darparu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg pe bai'r cyfranogwyr yn gofyn amdanynt, ac yn fewnol, bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei hyrwyddo gyda staff lle bynnag y bo modd a byddwn yn parhau i annog mwy o gapasiti.

Cam Gweithredu 7

Ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth gynllunio datblygiadau tai, yn enwedig lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg, enwau strydoedd ayb.

Cynnydd

Mae mwyafrif yr enwau strydoedd hanesyddol yn uniaith. Dyrennir enwau strydoedd newydd ar sail 50/50; fodd bynnag ar hyn o bryd mae'r gogwydd at enwau strydoedd Cymraeg i unioni'r anghydbwysedd hanesyddol. Gall y mynegair ddal cyfeiriadau Cymraeg a Saesneg a lle mae enw stryd yn ddwyieithog h.y. mae ganddi blât stryd dwyieithog, fe'i cedwir yn y ddwy iaith.

Cam Gweithredu 8

Sicrhau bod gwefan y cyngor yn gwbl ddwyieithog a bod tudalennau'n cael eu monitro a'u diweddarau yn y ddwy iaith ar sail rhaglen dreigl.

Cynnydd

Mae gweithgor yn cyfarfod yn chwarterol i drafod unrhyw faterion neu bryderon ynghylch cynnwys gwefan ddwyieithog y Cyngor. Mae'r Wefan yn gwbl ddwyieithog ac ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth heb ei chyfieithu. Dylid nodi bod achosion anaml iawn pryd y cyhoeddir y Saesneg yn gyntaf tra'n aros am gyfieithiad oherwydd natur frys y cyfathrebiad, ond anaml y mae'r sefyllfaoedd hyn yn digwydd.

Cam Gweithredu 9

Sicrhau bod gan fewnwyd y cyngor ryngwyd Cymraeg a dewislenni yn unol â Safon 126.

Cynnydd

Bydd y Gweithle Digidol newydd (mewnwyd newydd) yn gwbl ddwyieithog – mae'r fanyleb wedi'i chymeradwyo ac ar fin mynd i dendr.

Cam Gweithredu 10

Creu ymgyrch i ddenu dinasyddion ifanc Cymraeg eu hiaith i waith ieuenctid, chwaraeon a gweithgareddau celf fel arweinwyr.

Cynnydd

Mae hwn yn gam gweithredu yn y Strategaeth Iaith Gymraeg bum Mlynedd. Mae angen gweithio mewn partneriaeth. Dim cynnydd hyd yma, oedi oherwydd Covid-19.

Cam Gweithredu 11

Gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.

Cynnydd

Gan weithio gyda Gyrfa Cymru, roedd cynlluniau i roi cyflwyniadau i fyfyrwyr mewn ysgolion cyfun yn y fwrdeistref sirol yn ystod 2020-2021, ond cawsant eu canslo oherwydd Covid-19. Yn hytrach, cynhyrchwyd fideo ar yrfaedd gyda'r Cyngor a'r sgiliau sydd eu hangen.

Cam Gweithredu 12

Cynnal ffair swyddi Gymraeg flynyddol i godi ymwybyddiaeth o werth yr iaith i gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r gallu i gysylltu â'r cyngor yn Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig.

Cynnydd

Cynlluniau i roi cyflwyniadau i fyfyrwyr Blwyddyn 11 yn Y G Cwm Rhymini yn ystod 2021-2022. Gohirio cynlluniau i gynnal ffair swyddi oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Amcan Cydraddoldeb 6 – Gweithlu Cynhwysol, Amrywiol a Chyfartal – Creu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn parchu amrywiaeth y cymunedau yn y fwrdeistref sirol

Mae creu gweithle sy'n ddiogel a chynhwysol yn hyrwyddo amgylchedd gwaith cadarnhaol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n dinasyddion.

Mae arnom angen gwell dealltwriaeth o amrywiaeth ein gweithlu. Er mwyn cyflawni hyn, mae casglu data monitro cydraddoldeb yn hollbwysig. Rhaid casglu data ar ddechrau'r broses gyflogi a'i lanhau a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Mae tegwch yn y gwaith a pherfformiad swydd da yn mynd law yn llaw. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn helpu i ddenu, ysgogi a chadw staff a gwella enw da'r sefydliad fel cyflogwr cynhwysol.

Mae hyfforddiant cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar staff i ymgysylltu â dinasyddion yn sensitif. Mae uwchsgilio staff i fod yn ymwybodol o nodweddion gwarchoddedig yn sicrhau bod dinasyddion ag anghenion penodol yn derbyn gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn cydymffurfio.

Cam Gweithredu 1

Datblygu hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein a fydd yn orfodol i bob aelod o staff ac aelod etholedig.

Cynnydd

Ym mis Hydref 2020, Cyngor Caerffili oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu'r Siarter Undod dros Ymranriad, gan ymuno â'n partneriaid yn yr Undebau Llafur i adeiladu gweithle mwy cynhwysol a chytûn. Cynhaliwyd sesiwn frifio ar gyfer Aelodau ac mae hefyd yn cael ei chyflwyno'n raddol i weithwyr. Er enghraifft, mae holl staff y Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant sy'n ofynnol.

Yn ystod 2020-2021, fe wnaethom gyflwyno Hyfforddiant Tuedd Anymwybodol, a gafwyd trwy Academi Wales. Wedi'i ariannu drwy'r gyllideb Cydlyniant Cymunedol, rhannwyd 500 o leoedd gyda Chynghorau Torfaen a Blaenau Gwent. O'r 167 o leoedd a ddyrannwyd, mae 156 o swyddogion wedi dilyn y cwrs.

Mae'r ddarpariaeth well o gyrsiau hyfforddi cydraddoldeb i staff a rheolwyr yn un o'r camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021–2024, gydag amserlen o Ch3 2021-2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyrraedd y targed hwn. Bydd y Tîm Datblygu Gweithlu a grëwyd yn ddiweddar yn cydlynu'r gwaith hwn.

Cam Gweithredu 2

Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- % y gweithlu sydd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol (Grŵp 1) / Nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol (Grŵp 1)
- % y staff a nodwyd sydd wedi cwblhau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (Grŵp 2)
- % y staff a nodwyd sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Uwch (Grŵp 3)
- Gweithredu hyfforddiant gloywi pan fydd ar gael ac yn briodol.

Cynnydd

Gwnaed cynnydd da dros y 12 mis diwethaf er gwaethaf cymhlethdodau cyfyngiadau Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cyrsiau Grŵp 2 i bob ysgol a darpariaeth rithwir leol. Mae staff hefyd wedi gallu cael mynediad i gyrsiau rhanbarthol Grŵp 2 a ddarperir yn rithwir. Ataliwyd cyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb Grŵp 1 oherwydd pandemig Covid-19.

Bydd y tîm Datblygu'r Gweithlu a benodwyd yn ddiweddar yn awr yn gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith o weithredu'r hyfforddiant hwn a chyflwyno adroddiadau arno.

- 60% o'r gweithlu sydd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol (Grŵp 1) / Nifer y staff wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol (Grŵp 1)
- Nodwyd 7.75% o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (Grŵp 2)
- Nodwyd 15 aelod o staff sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Uwch (Grŵp 3)

Cam Gweithredu 3

Hyderus o ran Anabledd – gwella ar ein safon bresennol.

Cynnydd

Mae uwchraddio ein haelodaeth o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd o Gyflogwr i Arweinydd yn un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Llesiant Gweithwyr 2021 – 24, gydag amserlen o 2022.

Cam Gweithredu 4

Sicrhau cydymffurfiaeth â *Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011* ac annog datgelu:

- cyhoeddi gwahaniaethau cyflog yn ôl grwpiau nodweddion gwarchoddedig,
- cyhoeddi ein data cyflogaeth yn flynyddol, a
- gwaith sy'n gysylltiedig â gwella cyfraddau datgelu data cyflogaeth staff, naill ai trwy recriwtio neu drwy iTrent Self-Service.

Cynnydd

Rydym wrthi'n drafftio Strategaeth Llesiant Gweithwyr 2021-2024, ac mae cynwysoldeb a chydaddoldeb wrth wraidd y Strategaeth hon. Mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu allweddol yn y strategaeth wedi'u cynllunio i gael effaith gadarnhaol ar bob un o'r nodweddion gwarchoddedig, gan gefnogi cydymffurfiaeth â rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Yr adroddiad blynyddol ar Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'r Datganiad cysylltiedig a gadarnhawyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y cyfnod yn ymwneud â mis Mawrth 2020.

Bydd rhywfaint o ddata nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cyhoeddi yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021–2024 a Strategaeth Llesiant Gweithwyr 2021–2024, sy'n mynd drwy'r broses gymeradwyo ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith o goladu'r data i gyhoeddi a bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn mynd rhagddo.

Gweler 'Data Monitro Cyflogaeth' ar dudalen 25.

Cam Gweithredu 5

Ailsefydlu ein haelodaeth i gefnogi Mynegai Hyrwyddwyr Amrywiaeth Gweithle Stonewall.

Cynnydd

Cafodd ei ohirio oherwydd Covid-19; fodd bynnag, mae ailsefydlu ein haelodaeth o Stonewall Cymru yn un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Llesiant Gweithwyr 2021–2024, gydag amserlen o 2022.

Cam Gweithredu 6

Cydweithio i adeiladu'r brand 'Cynghorau Balch' i gefnogi digwyddiadau Pride.

Cynnydd

Mae Caerffili yn aelod gweithgar o bartneriaeth Cynghorau Balch, sy'n dod â sawl cyngor yn Ne Cymru at ei gilydd mewn ffordd weladwy ac unedig, i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb i gymunedau LGBTQ+.

Pwrpas Cynghorau Balch yw gwella'r gefnogaeth a gynigir i staff LGBTQ+ mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a sicrhau bod llywodraeth leol ledled Cymru yn arweinydd gweladwy ym maes hawliau LGBTQ+ ac yn hyrwyddo cynhwysiant LGBTQ+ yn ein cymunedau.

Am y tro cyntaf, gwelodd 2021 y Cynghorau Balch yn uno i hyrwyddo Mis Hanes LGBTQ+ trwy gynhyrchu calendr rhyngweithiol o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror. Yn ogystal â ffilmiau byr addysgiadol a diddorol o straeon ysbrydoledig a rhaglenni yn tynnu sylw at adegau allweddol yn hanes LGBTQ+, cafwyd hefyd gweminar fyw gyda'r awdur Norena Shopland a darlith 'LGBTQ+ Global history' gyda Choleg y Cymoedd.

Cam Gweithredu 7

Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg priodol ar gael i staff, o lefelau sylfaenol i uwch.

Cynnydd

Mae CBS Caerffili wedi darparu cyrsiau sgwrsio yn y Gymraeg i staff ac aelodau etholedig ers 2001. Mae'r cyrsiau'n amrywio o gyrsiau blasu sylfaenol i ddechreuwyr i gyrsiau sy'n darparu ar gyfer y rhai sydd bellach yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Symudodd yr holl gyrsiau i gael eu cynnal ar-lein yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, ac o fis Medi 2020 ymlaen, mae pob cwrs bellach yn cael ei redeg ar-lein.

CWRS A GYNIGIWYD	NIFER Y CYRSIAU A GYNIGIWYD	NIFER O STAFF YN MYNYCHU
30 Wythnos	40	23
Cwrs 10 awr ar-lein	24	219
Dweud Rhywbeth yn Gymraeg	3	4
Tynnu'n ôl	Amherthnasol	2

Yn ystod y pandemig, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn cwblhau'r cyrsiau 10 awr ar-lein, yn enwedig o'r sector addysg a gofal cymdeithasol, gyda staff yn defnyddio'u hamser yn effeithiol i wella eu datblygiad proffesiynol parhaus. Cwblhaodd 219 o bobl y cyrsiau hyn, gyda rhai yn cwblhau rhan 1 a rhan 2 o'r cwrs, sy'n golygu bod cyfanswm o 517 o'r cyrsiau ar-lein hyn wedi'u cwblhau.

Cam Gweithredu 8

Darparu cyfleoedd i staff wella eu sgiliau Cymraeg presennol at ddefnydd busnes.

Cynnydd

Mae nifer o gyrsiau ar gael i staff wella eu sgiliau Cymraeg ynghyd â hyrwyddo gweithgareddau a gynhelir gan Fenter Iaith Caerffili a phartneriaid Fforwm yr Iaith Gymraeg o ddigwyddiadau a gweithgareddau y gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob lefel eu mynychu a defnyddio eu sgiliau, waeth beth fo lefel eu safon.

Ar draws y sefydliad, hyrwyddir sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y gweithlu a bydd staff yn parhau i gael eu cefnogi a'u hannog yn frwd i ddysgu Cymraeg lle bynnag y bo cyfle neu angen yn cael ei nodi. Er enghraifft, anogir yr holl staff yn y blynyddoedd cynnar i ddilyn cyrsiau sgysiol Cymraeg yn ogystal â'r cyfle i wneud Mynediad neu Sylfaen. Anogir staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle yn enwedig mewn gofal plant ac yng Nghanolfan Blant Integredig Parc-y-Felin.

O fewn y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, bu methiant i lenwi swydd wag ar gyfer cynghorydd gwasanaethau cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Mae swyddi'n cael eu hysbysebu sy'n nodi bod yn rhaid dysgu'r Gymraeg fel rhan o ofynion y rôl.

Cam Gweithredu 9

Darparu cyfleoedd i staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Cynnydd

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae staff yn cael cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Gallai hyn olygu ateb y ffôn yn ddwyieithog, cynhyrchu negeseuon cyfryngau cymdeithasol dwyieithog neu ddrafftio gohebiaeth ddwyieithog. Mae staff yn ymwybodol bod rhaid i holl wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu'n ddwyieithog. Cefnogir staff gan y Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori sy'n darparu cyngor, cefnogaeth ac adnoddau.

CYFANSWM Y GYNGOR AR GYFER 2020-2021

Cyfanswm y staff	Siaradwyr Cymraeg	%
8296	1825	21.99

Amcan Cydraddoldeb 7 – Lleihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Mae'n ofynnol i ni edrych ar wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau o fewn y cyngor a nodi amcan a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth a nodir.

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol Cymru) 2011 mae'n ofynnol i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi data cyflogaeth blynyddol ar draws nifer o nodweddion gwarchoddedig. Dim ond mewn perthynas â menywod a dynion y dylid dadansoddi gwybodaeth am nifer y bobl a gyflogir gan y cyngor, wedi'u trefnu yn ôl swydd, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith. Yn ogystal, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi data ar wahaniaethau cyflog a'u hachosion, rhwng gweithwyr â nodweddion gwarchoddedig a hebddynt.

Fel cyngor rydym yn hyderus nad yw ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i rolau y mae dynion a merched yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol. Er enghraifft, mae ymchwil wedi nodi, er bod rhieni'n gynyddol hyblyg, bod y cyfrifoldeb am ofal plant yn dal i fod yn anghymesur ar fenywod. Mae'n ffaith o fewn y data hwn bod mwyafrif helaeth y swyddi rhan amser yn cael eu dal gan ferched, ac mai dyma'r swyddi sy'n denu cyflogau yn y chwartelau isaf. I weld Datganiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2020 y Cyngor cliciwch [yma](#).

Cam Gweithredu 1

Adolygu'r data sy'n ymwneud â'r gweithlu a phennu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol fel y'i nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011).

Cynnydd

Yr Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau blynyddol a'r Datganiad cysylltiedig a gadarnhawyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y cyfnod yn ymwneud â mis Mawrth 2020.

Rhoddodd y data sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach i'r rhesymau pam fod y bwlch yn bodoli, a bydd hwn yn parhau i gael ei adolygu. Nid yw'r Cyngor yn talu dynion a menywod yn wahanol am waith yr ystyrir sydd o werth cyfartal. Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar lefel gymdeithasol. Mae mwyafrif helaeth y swyddi yn y chwartel isaf o ddata yn swyddi rhan amser. Dyma'r swyddi sy'n parhau i ddenu ymgeiswyr benywaidd yn bennaf. Bydd AD yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth i adolygu'r sefyllfa hon a mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau lle bynnag y bo modd yn unol ag anghenion y gwasanaeth.

Cam Gweithredu 2

Cyhoeddi gwybodaeth cyflogaeth fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Cynnydd

Mae rhywfaint o ddata nodweddion gwarchoddedig wedi'u cyhoeddi yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-2024 y cytunwyd arni'n ddiweddar a Strategaeth Llesiant Gweithwyr 2021-2024.

Mae'r gwaith o goladu'r data i gyhoeddi a bodloni'n llawn ofynion y Ddyletswydd yn eu cyfanrwydd yn mynd rhagddo.

Gweler 'Data Monitro Cyflogaeth' ar dudalen 25

Cam Gweithredu 3

Defnyddio proses arfarnu *Fy Amser I* i ddatblygu staff benywaidd.

Cynnydd

Menywod yw mwyafrif gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i weithredu prosesau Goruchwyllo ac Arfarnu yn hytrach na *Fy Amser I* er mwyn bodloni gofynion Rheoleiddio a Chofrestru.

Mae gwreiddio rhaglen *Fy Amser I*/*Fy Amser I* Ychwanegol a hyfforddi rheolwyr i ddarparu sgysiau effeithiol yn un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-2024, gydag amserlen o Ch3 2021-2022. Mae'r broses wedi'i gwreiddio ac mae angen i'r hyfforddi ddigwydd yn awr.

O fewn y Gwasanaethau Cwsmeriaid, mae gan bob aelod o staff 121's rheolaidd ac mae bob *Fy Amser I* hyd at ddiwedd y flwyddyn wedi'u harchebu gydag aelodau'r tîm.

Cam Gweithredu 4

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith a busnes i grwpiau anhraddodiadol (h.y. peidio â stereoteipio swyddi yn ôl rhyw).

Cynnydd

Bydd AD a Chyfathrebu yn parhau i gefnogi meysydd gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Cam Gweithredu 5

Adolygu a diweddarau polisïau AD yn rheolaidd i gynnwys materion fel gweithio hyblyg, opsiynau rhan-amser neu rannu swydd, absenoldeb rhiant a rennir ac ati.

Cynnydd

Mae diweddarau polisïau a gweithdrefnau AD yn un o'r camau gweithredu yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-24, gydag amserlen o Ch3 2021-2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyrraedd y targed hwn.

Atodiadau

Atodiad 1 – Pecyn Cymorth Asesu Effaith Integredig

Atodiad 2 – Ymatebion Arolwg Cynllun Cyfeillio

Atodiad 3 – Ymatebion i'r Arolwg o Bobl Fregus

Atodiad 4 – Canllawiau - Llawlyfr Safonau'r Gymraeg ar gyfer Arwyddion Gwaith CBSC

MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â:

Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Ymgynghori
Ffôn: 01443 864404 / e-bost: cullima@caerffili.gov.uk

FFORMATAU HYGIRCHOL

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais drwy'r manylion cyswllt uchod.

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Aseiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r aseiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

NODER: Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*.

Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, **Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**.

1. Manylion y Cynnig

Swyddog Arweiniol:-

Pennaeth Gwasanaeth:-

Maes Gwasanaeth ac Adran:-

Dyddiad:-

Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu? *Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.*

2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchodedig

2a Oedran *(pobl o bob oedran)*

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2b Anabledd *(pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor)*

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2c Ailbennu Rhywedd (*unrhyw un y mae ei hunaniaeth neu ei r(h)ywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddo/iddi ar adeg ei (g)eni*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2ch Priodas neu Bartneriaeth Sifil (*pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2d Beichiogrwydd a Mamolaeth (*menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2dd Hil (*pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2e Crefydd neu Gred (*pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2f Rhyw (*menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

2ff Cyfeiriadedd Rhywiol (*lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?

 - (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

 - (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
-

3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:

- Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
- Pobl â lefel isel o lythrennedd/rhifedd
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalyddion
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd ag un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
- Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC)
- Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

3a Incwm Isel / Tlodi Incwm *(ni allwch fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafndiaeth ac ati)*

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

3b Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth (*digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

3c Amddifadedd Materol (*ni allwch gael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobiau ac ati*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

3ch Amddifadedd Ardal (*Ile rydych yn byw (ardaloedd gwledig), lle rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

3d Cefndir Economaidd-gymdeithasol (*dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?

3dd Anfantais Economaidd-gymdeithasol (*Pa effaith gronnol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchoddedig/ nodweddion gwarchoddedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais*)

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchoddedig a sut?
 - (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?
 - (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?
-

4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?)
Amcanion Llesiant

Amcan 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan 2 – Galluogi cyflogaeth

Amcan 3 – Mynd i'r afael â chyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl

Amcan 4 – Hyrwyddo system trafndiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl

Amcan 5 – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Amcan 6 – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor *(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)*

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

(A elwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?

Hirdymor

Atal

Integreiddio

Cydweithio

Cynnwys

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?

Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas

Cymru gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)

Cymru iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)
Safonau Lluo Polisi – Dogfen Gynqor Arferion Da

7a. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 a Phroffil Iaith CBSC

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

7b. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Safonau 88–93 yn benodol

- (i) A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

- (ii) Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

- (iii) Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

7c. Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg *e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned*

- (i)** A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

- (ii)** Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

- (iii)** Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

7ch. Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg *e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr*

- (i)** A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

- (ii)** Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

- (iii)** Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

7d. Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 1.** A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?

- 2.** Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?

- 3.** Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e. WESP, TAN20, CDLI, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion*

7dd. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8. Data a Gwybodaeth

(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall dystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)

Data/tystiolaeth *(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)*

Canfyddiadau perthnasol allweddol

Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?

A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi? *Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9.*

9. Ymgynghori

(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymqysylltu. Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddarau hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.

Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.

Â phwy yr ymgynghorwyd?

Pan ymgynghorwyd â nhw, a gynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cam ffurfiannol ac a roddwyd digon o amser i ymgynghoreion ystyried ac ymateb?

A roddwyd digon o wybodaeth i'r ymgynghoreion er mwyn iddynt wneud penderfyniad hyddysg ynghylch y cynnig?

Beth oedd y canlyniadau allweddol?

A ystyriwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad?

10. Monitro ac Adolygu

Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith, a'i effaith, eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?

Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?

Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?

11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau (dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau
- Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd
- Gwrthod y cynnig oherwydd ei effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol

A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?
(dilëwch fel y bo'n berthnasol)

- Ydw
 - Nac ydw
-

12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

(Isod, rhowch grynodedb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).

13. Rheoli Fersiynau

(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser) (Ychwanegwch neu ddilëwch fersiynau fel y bo'n berthnasol)

➤ **Fersiwn 1**

Awdur:-

Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-

Dyddiad Diwygio:-

➤ **Fersiwn 2**

Awdur:-

Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad:-

Dyddiad Diwygio:-

Awdur yr Asesiad Effaith Integredig

Enw:-

Teitl Swydd:-

Dyddiad:-

Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth

Enw:-

Teitl Swydd:-

Llofnod:-

Dyddiad:-

Atodiad 2 – Crynodeb o'r Arolwg Cyfeillio

150 o ymatebion allan o tua 590 cyfaill. Mae 385 o wirfoddolwyr gwreiddiol wedi cael eu hategu gan staff, naill ai wedi'u 'cynnig' gan eu rheolwyr, neu wedi'u hadleoli'n ffurfiol i rôl y Cyfaill.

74% o ymatebwyr wedi cofrestru fel gwirfoddolwr

61% yn cefnogi gyda siopa wythnosol

58% yn cefnogi gyda chasglu presgripsiwn

92% yn cefnogi gyda galwad ffôn gyfeillgar

68% gyda mwy o ymdeimlad o falchder yn y sefydliad a bod yn aelod o Dîm Caerffili

50% yn bendant yn hoffi gwirfoddoli mewn swyddogaeth debyg

45% efallai'n hoffi gwirfoddoli mewn swyddogaeth debyg

Ymatebion cefnogi erall (enghreifftiau):

- casglu batris cymorth clyw
- talu biliau yn Swyddfa'r Post
- help gyda tecstio, ychwanegu at ffôn symudol
- chwynnu'r ardd
- helpu i gael mynediad i adnoddau e-Lyfrgell
- helpu gyda bancio ar-lein
- mynd â'r ci am dro - rhoi biniau allan
- wedi gallu helpu pan na ellir cael slot siopa ar-lein.

Sut ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth?(enghreifftiau):

- yn bendant dim gallu i siopa ar-lein
- gallu prynu am brisiau archfarchnadoedd yn hytrach na siop gornel
- mae'r gŵr rwyf i yn ymweld ag ef yn ddall ac ni fyddai wedi gallu cadw pelltercymdeithasol yn hawdd pe bai allan
- mae ei ferch hefyd yn oedrannus ac yn fregus, ddim yn siŵr a fydden nhw wedi ymdopi
- wedi gallu helpu gyda phryder am eu sefyllfa
- helpu gydag ymholiadau am barsel bwyd llywodraeth Cymru
- cael sgwrs dda yn yr ardd
- mae gan y fenyw ganser, heb siop archfarchnad byddai ei diet wedi bod yngyfngedig
- dim ond bod ar ben arall y ffôn
- helpu gyda'r unigrwydd - mae gweld fy mhlant unwaith yr wythnos wedi rhoi gwêniddo
- ffurfio cyfeillgarwch newydd - nid oes gan y wraig rwy'n ymweld â hi unrhyw deuluna ffrindiau o dan 70 oed a fyddai wedi gallu ei helpu.
- mae hi'n 87 ac ni allaf ddychmygu sut y byddai wedi ciwio am 50 munud y tu allan ifferyllfa
- cymryd pwysau oddi ar eu hysgwyddau
- ei helpu i barhau â'i garddio trwy gasglu'r eitemau roedd hi eu heisiau
- yn cael cymorth teulu gyda siopa ond roedd yn teimlo embaras i ofyn i'w hŵyr brynu eitemau personol
- wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'i mab sy'n byw i ffwrdd
- symudodd i Gymru yn ystod COVID oherwydd adleoliad brys ac nid oes ganddo deulu gerllaw, wedi gallu helpu gydag eitemau cartref a nwyddau glanhau ar gyfer eifflat
- mae hi'n hapus i ofyn i'w chymdogion am siopa bach ond byddai'n teimlo embaras iofyn am siop wythnosol fawr
- mae'n byw mewn ardal wledig iawn a byddai'n ei chael hi'n anodd iawn cael cyflenwadau hanfodol, rwy'n hapus i helpu.

Un profiad cadarnhaol (enghreiffiau):

- mae gwên yn dweud y cyfan a dweud y gwir
- nid oes gennyf unrhyw deulu agos ac rwy'n gwybod y byddai angen y math hwn o gefnogaeth arnaf pe bawn yn hŷn
- clust i wrando pan fyddant yn isel iawn
- mae'n rhoi ymdeimlad o bwrpas i mi yn y cyfnod clo
- mae helpu pobl a fyddai wedi cael trafferth heb fy help yn rhoi ymdeimlad ofodddhad mawr i mi
- mae wedi bod yn bleser ac yn fraint
- mae cydlyniant cymunedol yn fwy
- bob tro dwi'n mynd yno, mae hi'n disgwyl wrth y ffenestr yn gwenu
- teimlo fy mod yn helpu mewn argyfwng ofnadwy
- darganfod ffeithiau am yr ardal na fyddwn i byth wedi eu hadnabod a fy mhlant yn gweld pa mor gadarnhaol y gall gwirfoddoli fod
- cyfarfod â phobl yn fy nghymuned nafyddwn byth wedi cwrdd â nhw fel arall
- rydyn ni bob amser yn cael hwyl ac mae'n braf eu gweld yn gwenu
- rwy'n gweithio'n llawn amser ac mae gennyf un bach ond mae'r ychydig oriau hynyr wythnos yn helpu rhywun arall wedi bod mor gadarnhaol i mi
- mae'n fy helpu i ymdopi â'r sefyllfa rydyn ni i gyd ynddi
- mae wedi fy nysgu bod helpu pobl yn rhoi bodddhad mawr i chi
- mae eu hwynebâu'n goleuo pan fyddaf yn cyrraedd gyda'u siopa
- gwybod y gall dim ond postio cerdyn pen-blwydd olygu cymaint i rywun
- dewis cardiau pen-blwydd ar gyfer ei merched sy'n byw i ffwrdd
- gweld eu llawenydd pan droais i fyny gyda brawd
- rwy'n dioddef o ddiffyg hyder a phryder, mae bod yn gyfaill wedi helpu fy nghyfathrebu'n fawr ac rwyf wedi elwa cymaint yn feddyliol o helpu pobl eraill, cymaint fel fy mod eisiau edrych ar yrfa mewn gofal cymdeithasol.

A allwch chi ddweud wrthym pam y gwnaethoch ateb fel y gwnaethoch pan ofynnwyd a hoffech chi gymryd rhan yn y dyfodol (enghreiffiau):

- mae wedi bod yn anodd cydbwysu ymrwymadau gwaith ac ymrwymadau teulu a chyfeillio
- byddwn ond yn rhy falch i barhau
- dydw i ddim yn meddwl y byddaf yn gallu parhau pan fyddaf yn ôl mewn gwaith llawn amser
- cyn belled â bod gennyf yr amser, rwy'n hapus i helpu
- wedi bod â diddordeb mewn gwirfoddoli erioed ond erioed wedi gwneud hynny yn y gorffennol
- ar y dechrau roeddwn ychydig yn nerfus ond rydw i nawr yn falch o'r hyn rydw i wedi'i wneud
- mae'n dibynnu ar fy newid mewn llwyth gwaith a dychwelyd i ymrwymadau teuluol, clybiau plant ac ati
- mae'n dibynnu ar fy amser
- rwy'n hapus i helpu pryd bynnag y gallaf
- ni allwn ymrwymo oherwydd amserlen brysur y plant ar ôl ysgol
- cyn belled ag y gallwn ei wneud o amgylch fy ngwaith
- hoffwn gadw mewn cysylltiad â nhw
- rwyf wedi mwynhau cyfarfod â phobl newydd - wrth inni ddod yn ôl i normalrwydd, bydd yn dibynnu ar faint o amser sbâr sydd gennyf
- mae'n bwysig rhoi yn ôl i'r gymuned leol, yr unig beth sy'n fy rhwystro yw diffyg amser
- rwy'n gobeithio y bydd mwy o les o fewn CBSC yn dod o'r pandemig hwn ac yn aros am y blynyddoedd i ddod hyd yn oed pan fydd hyn i gyd drosodd. Roedd cymuned yn arfer golygu llawer i bobl yn y blynyddoedd blaenorol, gadewch i ni wneud hwn yn dîm a chymuned newydd
- yn syml, os oes ei angen ar y gymuned yna mae'n beth gwerthfawr i fod yn rhan ohono.

Atodiad 3 – Asesiad Data Pobl Fregus

Galwadau i bob person bregus (1500+). 971 o ymatebion. Wedi'u categoraiddio fel:

Coch: yn bendant angen cymorth parhaus (llawer ar restr gwarchod y GIG**)

Gwyrdd: dim angen cymorth mwyach

Oren: rhywle rhwng cefnogaeth a dim cefnogaeth.

Cyfanswm ffigyrau:

Coch: 342 (35%)

Oren: 349 (36%)

Gwyrdd: 280 (29%)

Nid oedd modd cysylltu â 500 o bobl ond byddai'n rhesymol tybio y byddai 150 arall y gellid eu categoraiddio yn Wyrdd.

Grŵp Gwyrdd

Galwadau dilynol i'r Cyfeillion i wirio eu barn ynghylch a ellir tynnu cefnogaeth yn ôl. Ar yr un pryd, gofyn i'r Cyfeillion a oes ganddynt y gallu i gymryd person bregus arall ymlaen, i helpu gyda hyblygrwydd yn y system wrth i rai timau fynd yn ôl i'w rolau arferol. Roedd llawer o'r bobl a'n ffoniodd yn wreiddiol am gymorth ar ddechrau'r cyfnod clo angen cymorth oherwydd nad oedd eu dulliau arferol o gael cyflenwadau bwyd ar gael - dim slotiau dosbarthu ar-lein, neu roedd ffrindiau a theulu eu hunain yn hunan-ynysu ar ôl arddangos symptomau Covid-19. Mae llawer o'r Gwyrddion bellach wedi gallu cael slotiau dosbarthu ar-lein, neu mae rhywun maen nhw'n ei adnabod yn eu helpu gyda'u siopa. Mae hyn yn golygu bod ein hymateb cymunedol wedi gwneud yn union yr hyn yr oeddem yn gobeithio y byddai'n ei wneud - sef, nodi pobl a oedd mewn perygl, ar eu pennau eu hunain, ac o fewn ein cyrraedd, a'u cefnogi i'w cynnal drwy gydol y cyfnod clo nes eu bod naill ai'n hunangynhaliol neu'n gallu cael eu cefnogi gan ffrindiau/teulu.

Grŵp Coch

Bydd llawer o bobl eraill sydd wedi cofrestru angen cymorth am beth amser. Mae tua hanner y bobl a nodwyd yn y Grŵp Coch hefyd ar y rhestr "gwarchod", gyda chyflyrau meddygol sy'n eu gwneud yn 'hynod fregus yn glinigol**' i Covid-19. Mae'r rhain yn bobl â thrawsblaniadau organau, cyflyrau difrifol ar y galon a'r ysgyfaint, rhai mathau o ganser, ac anhwylderau tebyg sy'n golygu y dylent aros gartref i osgoi'r feirws. Mae'n annhebygol y bydd yn ddiogel i'r bobl hyn ddychwelyd i normalrwydd unrhyw bryd yn fuan, efallai nes bod brechlyn gweithredol ar gael yn eang, ac maent yn debygol o fod angen cymorth o ryw fath am fisoedd. Mae pobl eraill yn y Grŵp Coch yn perthyn i ddau is-gategori eang: y rhai ag anhwylderau difrifol lluosog nad ydynt ar y rhestr warchod, ond sydd ar y rhestr is nesaf o anhwylderau 'bregus yn glinigol*' (cyflyrau ysgafnach ar y galon a'r ysgyfaint, diabetes, clefyd Parkinson, a llawer o rai eraill); neu bobl ag anabledau corfforol sy'n eu rhwystro rhag gwneud eu siopa eu hunain.

Grŵp Oren

Mae'r categori Oren yn cynnwys ystod eang o bobl, yn bennaf y rheini â salwch yn y categori 'bregus yn glinigol', pobl dros 70 oed ond sydd fel arall yn gorfforol iach, pobl sy'n dangos symptomau Covid-19 ac sydd angen cymorth tymor byr tra'n hunan-ynysu, a'r rheini gyda phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol sy'n gwneud siopa drostynt eu hunain yn anodd. Mae nifer sylweddol o bobl yn y categori hwn wedi llwyddo i drefnu i'r siopa gael ei ddanfôn, ond wedi gofyn am barhau gyda'u Cyfaill naill ai ar gyfer casglu presgripsiwn yn unig, neu rhag ofn na fydd slotiau danfôn ar-lein ar gael – efallai y bydd modd rheoli'r bobl hyn tu allan i'r system gyda'rgefnogaeth gywir.

Y camau nesaf

Mae llawer o bobl fregus bellach yn gallu cael gafael ar fwyd trwy siopa ar-lein neu ddsbarthiad lleol neu ofyn i'w Cyfeillion gael eitemau bwyd ffres yn unig iddynt. Maenifer gymharol uchel bellach angen help i gasglu presgripsiynau naill ai'n wythnosol neu'n fisol. Dylai trosglwyddo i fodel lle mae gwirfoddolwyr cymunedol neu rwydweithiau cymorth cymunedol ymgysylltiedig helpu i feithrin gwydnwch personol. Amlygodd llawer o'r bobl y siaradodd ein trinwyr galwadau â nhw y gwerth yr oeddent yn ei roi ar y rhyngweithio cymdeithasol gyda'u Cyfaill – mae hyn yn golygu y gallent fod yn amharod i gymorth gael ei dynnu'n ôl hyd yn oed os nad oes ei angen mwyach, a gallai trosglwyddo i gymorth cyfeillio dros y ffôn efallai chwarae rhan bwysig wrth gamu i lawr. Mae Age Cymru yn darparu gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn.

Adborth

Roedd y trinwyr galwadau yn sôn yn rheolaidd am y ganmoliaeth i Ymateb y Gymuned - i'r Cyfeillion unigol, ac i'r ffordd yr oedd y system wedi'i threfnu:

- “Canmolodd a diolchodd Mr S yn gynnes iawn i Rhian, gan ddweud ei bod yn berl go iawn.”
- “Dywedodd Gwyneth ei bod wedi synnu sut mae CBSC wedi ymdopi yn ystod y pandemig gyda'r system cyfeillio a chinio ysgol am ddim.”
- “Stacy yn gwneud gwaith gwyb yn casglu siopa Gail ac mae hi wedi gofyn a allwn ni roi pum seren iddi.”
- “Mor ddiolchgar i Ann y Cyfaill, a dywedodd fod CBSC wedi serennu yn ystod ycyfnod anodd hwn.”
- “Dywedodd Mr a Mrs M wrthyf na allant ddweud pa mor ddiolchgar ydyn nhw am ygefnogaeth y mae Tara wedi'i rhoi i'r ddau ohonyn nhw. Dywedodd Mrs M wrthyf ei bod wrth ei bodd â Tara gan ei bod yn fenyw ifanc garedig ac ystyriol”
- “Soniodd Karla fod ei chyfaill Colin wedi bod yn broffesiynol, yn ddiffwdan, yn gyfeillgar ac yn briodol. Gyda chymaint o negyddiaeth yn y cyfryngau, mae wedi bod yn galonogol cael rhywbeth cadarnhaol yn digwydd ac mae'r gwasanaeth hwn wedi tawelu ei meddwl. Diolch yn fawr am y gwasanaeth a ddarparwyd.”
- “Gwasanaeth o'r radd flaenaf (aelod o grŵp cymorth myeloma a ni yw'r unig gyngorsy'n darparu'r gwasanaeth hwn – dywedodd Marlene fod aelodau ei grŵp cymorth ynggenfigennus iawn). Mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych. Nid oes gan Gaerdydd, RhCT, ayb hyn.”



**LLAWLYFR SAFONAU'R
GYMRAEG AR GYFER
ARWYDDION GWAITH CBSC**

Mae'r llawlyfr hwn at ddibenion cyfeithu a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn unig.

**WELSH LANGUAGE
STANDARDS MANUAL FOR
CCBC WORKS SIGNAGE**

This manual is for the purposes of translation and Welsh Language Standards compliance only.



Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr yma wedi cael ei lunio i greu a chefnogi staff y Cyngor a Chontractwyr i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol.

Bydd y fersiwn diweddaraf ar gael ar-lein yma: www.caerffili.gov.uk/arwyddion-gwaith

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, a'n hisgontractwyr, sicrhau bod pob arwydd sy'n cael ei godi gan, ac ar ran, Cyngor Caerffili yn ddwyieithog. Rhaid i'r Gymraeg gael ei rhoi i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae Cyngor Caerffili yn cynhyrchu pob arwydd yn ddwyieithog, ac mae'n ofynnol i'n contactwyr ddilyn yr un egwyddor.

Os na fydd arwydd yn cydymffurfio â'r weithdrefn/safonau isod, mi fydd hi'n ofynnol gan Gyngor Caerffili, yn unol â'r deddfwriaeth berthnasol, i'r rhai sy'n gweithio ar ein rhan ailgyhoeddi arwyddion er mwyn sicrhau cydymffurfiaid y Cyngor.

Wrth osod arwydd ar ran y Cyngor, neu wrth wneud hyn yn rhan o wasanaeth rydych chi'n ei ddarparu ar ran Cyngor Caerffili, rhaid dilyn y camau canlynol.

Mae'r lluniau sydd wedi'u cynnwys yma'n enghreifftiau'n unig, ac efallai fyddan nhw ddim yn adlewyrchu gofynion yr offer statudol perthnasol a/neu ddeddfwriaeth sy'n gofyn am ffontiau, meintiau neu liw penodol. Adolygwch y ddeddfwriaeth berthnasol i gael gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r meysydd cydymffurfio yma.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau o ran y ddogfen yma, neu os ydych chi eisiau ychwanegu rhagor o enghreifftiau at y ddogfen, cysylltwch â'ch rheolwr contractau neu'r Tîm Cyfieithu trwy e-bostio cymraeg@caerffili.gov.uk

Introduction

This manual has been created to help and support council staff and contractors to comply with the relevant Welsh Language Standards requiring bilingual signage.

The most up-to-date version is available via: www.caerphilly.gov.uk/works-signage

The council, and our subcontractors, are required to ensure all signage erected by, and on behalf of Caerphilly Council, is done so bilingually, with the Welsh version of the text appearing above or to the left of the English version. Caerphilly Council produce all their signage bilingually and require our contractors to follow the same principle.

Where signage does not comply with the below procedure/standards, Caerphilly Council, in line with the relevant legislation, will require those who work on our behalf to re-issue signage to ensure the Council's compliance.

When asked to erect a sign on behalf of the Council, or when this forms part of a service that you provide on behalf of Caerphilly Council, please follow the following steps.

The images herein are for illustration purposes only and may not necessarily reflect the requirements of the relevant statutory instruments and/or legislation requiring certain fonts, sizes and colour. Please review the respective legislation for additional information with regards to these areas of compliance.

If you should have any queries regarding this document, or wish to add further examples to the document, please do not hesitate to contact your contract manager or the Translation Team via e-mail on cymraeg@caerphilly.gov.uk

Ydy'r arwydd sydd angen wedi'i gynnwys yn y llawlyfr hwn?

YDY



Defnyddiwch y testun sydd yn y llawlyfr i greu fersiwn newydd, neu ddefnyddio hen fersiwn yr arwydd cymeradwy.



Cofiwch fod rhaid i'r Gymraeg gael ei darllen yn gyntaf. Os yw'r Saesneg i'w gweld yn gyntaf ar hen arwydd, does dim modd ei ddefnyddio ar ran Cyngor Caerffili.



Gosodwch yr arwydd.

NAC YDY



Anfonwch fersiwn Saesneg at y Rheolwr Contractau/Tîm Cyfieithu i gael cyfieithiad swyddogol (rhaid i'r Cyngor ddarparu cyfieithiad).



Ar ôl derbyn cyfieithiad a'i roi ar broflen yr arwydd, sicrhewch fod y Gymraeg i'w darllen yn gyntaf.



Anfonwch y broflen/llun o'r arwydd yn ôl i'r Tîm Cyfieithu i'w wirio.



Gosodwch yr arwydd ar ôl derbyn cadarnhad bod yr arwydd wedi'i wirio.

Does this signage manual include the required sign?

YES



Use the text provided from the manual to create a new version, or use old version of the approved sign from storage.



Remember the Welsh must be positioned to be read first. If an existing sign in stock has the English first, this is not to be used on behalf of Caerphilly Council.



Erect Signage.

NO



Send English version to Contract Manager/ Translation Team for official translation (Council must provide translation).



Receive Translation and set into sign/ design proof, ensuring the Welsh Language is positioned to be read first.



Send design proof/ image of sign for sign-off to the Translation Team.



Erect Signage after sign-off.

3

Safonau'r Gymraeg Llawlyfr ar gyfer Arwyddion Gwaith CBSC
Welsh Language Standards Manual for CCBC Works Signage

Tudalen / Page 6

Diverted Traffic
Diversion
Follow diversion
No access to HGV's - Follow diversion
One way
Essential work being undertaken - Expect long delays

Tudalen / Page 7

Priority over oncoming vehicles
Single file traffic
No parking beyond this point
No queuing beyond this point
No parking
Temporary road surface

Tudalen / Page 8

Street Name - Closed - Follow diversion
Road closed XX/XX/XX - XX/XX/XX
This road is closed on XX/XX/XX for 2 days
High street closed
Road ahead closed
Road closed

Tudalen / Page 9

Road closed except cyclists
Footpath closed
Road ahead closed - residents access only
Ramp ahead
Caution grass cutting
Slow - wet tar

Tudalen / Page 10

Adverse camber
3-way control - wait here until green light shows
When red light shows - wait here
When stop sign shows - wait here
Traffic under signal control
Joining traffic not signal controlled

Tudalen / Page 11

Sign under test
Signal under test
Sign not in use
Signals not in use
Traffic sign maintenance
Traffic signal maintenance

Tudalen / Page 12

Traffic control ahead
Works traffic
Works traffic merging 200 yards
Works traffic only
No works traffic
works exit

Tudalen / Page 13

Setting out road works ahead
New road layout ahead
Caution site entrance
Caution site traffic
Work in centre of road
Workforce in road - slow

Tudalen / Page 14

Pedestrians - directional arrow
Pedestrians
No pedestrians
Pedestrians look both ways
Pedestrians look left
Pedestrians look right

Tudalen / Page 15

Pedestrians please use other footway
Pedestrians crossing - when red light shows wait here
Crossing not in use
Temporary footway closure
Cyclists dismount and use footway
Footway closed

Tudalen / Page 16

No give way markings
No road markings at junction
No road markings at level crossing
No road markings for 400 yards
No road markings
No road studs

Tudalen / Page 17

CCTV in constant operation
Danger construction site
Caution site entrance
Caution lorries turning
Caution sudden drop
Danger high voltage

Tudalen / Page 18

No stop markings
No road markings for 2 miles

Welsh language mutation

**Platiau atodol i'w defnyddio ag arwyddion eraill
Supplementary plates for use with other signs**

Tudalen / Page 19

Grass cutting
Tree cutting
Hedge cutting
End
Lighting maintenance
Mobile road works
On hard shoulder
Road sweeping

Tudalen / Page 20

On slip road
Overhead works
Sign maintenance
Sign erection
Gritting
Ice
Salting
Snow ploughing

Tudalen / Page 21

Flood
Surveying
Ditching
Blasting
At level crossing
Weed spraying
Ramp
Reduce speed now

**Arwyddion Iechyd a Diogelwch
Health and Safety Signage**

Tudalen / Page 22

Ear protection must be worn
Eye protection must be worn
Gloves must be worn
High visibility jackets must be worn

Tudalen / Page 23

Safety helmets must be worn
Keep out
Protective footwear must be worn
All visitors to report to site office

TRAFFIG Y
GWYRIAD
DIVERTED
TRAFFIC

GWYRIAD
DIVERSION

DILYNWCH
Y GWYRIAD
FOLLOW
DIVERSION

DIM MYNEDIAD I HGV'S
DILYNWCH Y GWYRIAD
NO ACCESS TO HGV'S
FOLLOW DIVERSION

UNFFORDD
ONE WAY

GWAITH HANFODOL YN
MYND RHAGDDO -
OEDI HIR I'W DDISGWYL
ESSENTIAL WORK BEING
UNDERTAKEN -
EXPECT LONG DELAYS

BLAENORIAETH DROS
GERBYDAU SY'N
DOD ATOCH

PRIORITY OVER
ONCOMING VEHICLES

UN RHES
O DRAFFIG
SINGLE FILE
TRAFFIC

DIM PARCIO TU
HWNT I'R MAN HWN

NO PARKING
BEYOND THIS POINT

DIM CIWIO TU HWNT
I'R MAN HWN

NO QUEUING
BEYOND THIS POINT

DIM PARCIO
NO PARKING

WYNEB
DROS DRO
TEMPORARY
ROAD SURFACE



Manylion treiglo ar dudalen 17 / See page 17 for mutation



FFORDD AR GAU
AC EITHRIO
BEICWYR

ROAD CLOSED
EXCEPT CYCLISTS

LLWYBR
TROED AR GAU

FOOTPATH
CLOSED

FFORDD O'CH BLAEN
AR GAU - MYNEDIAD I
BRESWYLWYR YN UNIG

ROAD AHEAD CLOSED
- RESIDENTS ACCESS
ONLY

RAMP
O'CH BLAEN
RAMP AHEAD

GOFAL
TORRI GWAIR

CAUTION
GRASS CUTTING

ARAF
TAR GWLYB

SLOW
WET TAR

CAMBR
CROES
ADVERSE
CAMBER

RHEOLAETH 3-FFORDD
- ARHOSWCH YMA NES
BOD Y GOLAU'N WYRDD
3-WAY CONTROL -
WAIT HERE UNTIL
GREEN LIGHT SHOWS

PAN FO'R
GOLAU'N GOCH
ARHOSWCH YMA
WHEN RED LIGHT
SHOWS
WAIT HERE

PAN WELWCH
ARWYDD STOP
ARHOSWCH YMA
WHEN STOP SIGN
SHOWS
WAIT HERE

TRAFFIG DAN
REOLAETH
GOLEUADAU
TRAFFIC UNDER
SIGNAL CONTROL

TRAFFIG YN YMUNO
NAD YW DAN
REOLAETH GOLEUADAU
JOINING TRAFFIC
NOT SIGNAL
CONTROLLED

ARWYDD YN
CAEL EI BROFI

SIGN
UNDER TEST

GOLAU YN
CAEL EI BROFI

SIGNAL
UNDER TEST

ARWYDD
SEGUR

SIGN
NOT IN USE

GOLAU
SEGUR

SIGNALS
NOT IN USE

CYNNAL
ARWYDDION
TRAFFIG

TRAFFIC SIGN
MAINTENANCE

CYNNAL
GOLEUADAU
TRAFFIG

TRAFFIC SIGNAL
MAINTENANCE

RHEOLAETH
TRAFFIG O'CH
BLAEN
TRAFFIC CONTROL
AHEAD

TRAFFIG Y
GWAITH
WORKS
TRAFFIC

TRAFFIG Y GWAITH
YN YMUNO
200 LLATH
WORKS TRAFFIC
MERGING
200 YARDS

TRAFFIG Y
GWAITH
YN UNIG
WORKS TRAFFIC
ONLY

DIM TRAFFIG
Y GWAITH
NO WORKS
TRAFFIC

ALLANFA
WAITH
WORKS EXIT

GOSOD GWAITH
FFORDD O'CH
BLAEN

SETTING OUT ROAD
WORKS AHEAD

TREFN FFYRDD
NEWYDD O'CH
BLAEN

NEW ROAD
LAYOUT AHEAD

GOFAL
MYNEDFA SAFLE

CAUTION
SITE ENTRANCE

GOFAL
TRAFFIG Y SAFLE





CAUTION
SITE TRAFFIC

GWAITH AR
GANOL Y Ffordd

WORK IN CENTRE
OF ROAD

GWEITHLU AR Y
FFORDD
ARAF

WORKFORCE IN ROAD
SLOW



CERDDWYR
DEFNYDDIWCH Y
DROEDFFORDD ARALL

PEDESTRIANS
PLEASE USE OTHER
FOOTWAY

CROESFAN I GERDDWYR -
PAN FO'R GOLAU'N GOCH
ARHOSWCH YMA

PEDESTRIAN CROSSING -
WHEN RED LIGHT SHOWS
WAIT HERE

CROESFAN
SEGUR

CROSSING
NOT IN USE

TROEDFFORDD
AR GAU DROS DRO

TEMPORARY
FOOTWAY CLOSURE

BEICWYR DEWCH
ODDI AR EICH BEIC A
DEFNYDDIO'R
DROEDFFORDD

CYCLISTS DISMOUNT
AND USE FOOTWAY

TROEDFFORDD
AR GAU

FOOTWAY
CLOSED

DIM MARCIAU
ILDIO

NO GIVE WAY
MARKINGS

DIM MARCIAU
FFORDD WRTH Y
GYFFORDD

NO ROAD MARKINGS
AT JUNCTION

DIM MARCIAU Ffordd
WRTH Y GROESFAN
REILFFORDD

NO ROAD MARKINGS
AT LEVEL CROSSING

DIM MARCIAU
FFORDD
AM 400 LLATH

NO ROAD MARKINGS
FOR 400 YARDS

DIM MARCIAU
FFORDD

NO ROAD
MARKINGS

DIM STYDIAU
FFORDD

NO ROAD
STUDS

TELEDU CYLCH
CYFYNG AR WAITH
CCTV IN CONSTANT
OPERATION



PERYGL
SAFLE ADEILADU
DANGER
CONSTRUCTION SITE

GOFAL
MYNEDFA SAFLE
CAUTION
SITE ENTRANCE

GOFAL
LORïAU YN TROI
CAUTION
LORRIES TURNING

GOFAL
DIBYN SERTH
CAUTION
SUDDEN DROP

PERYGL
FOLTEDD UCHEL
DANGER
HIGH VOLTAGE



Mutation

Mutation only applies for the number 2.
For all other numbers use DIWRNOD

Mutation

MILLTIR CHANGES TO FILLTIR -
WHEN THE MILAGE CONTAINS A '1' OR A '2'

1 MILE = 1 FILLTIR
1½ MILES = 1½ FILLTIR

FOR DISTANCES 3 MILES AND OVER OR
UNDER 1 MILE THERE IS NO MUTATION

½ MILE = ½ MILLTIR
3 MILES = 3 MILLTIR



**TORRI GWAIR
GRASS CUTTING**

**TORRI COED
TREE CUTTING**

**TORRI PERTHI
HEDGE CUTTING**

**DIWEDD
END**

**CYNNAL GOLEUADAU
LIGHTING
MAINTENANCE**

**GWAITH FFORDD
SYMUDOL
MOBILE ROAD WORKS**

**AR Y LLAIN GALED
ON HARD SHOULDER**

**YSGUBO'R FFORDD
ROAD SWEEPING**



**AR Y SLIPFFORDD
ON SLIP ROAD**

**GWAITH UWCH
EICH PEN
OVERHEAD WORKS**

**CYNNAL ARWYDDION
SIGN MAINTENANCE**

**CODI ARWYDDION
SIGN ERECTION**

**GRAEANU
GRITTING**

**IÂ
ICE**

**TAENU HALEN
SALTING**

**SWCH EIRA
SNOW PLOUGHING**



**LLIF
FLOOD**

**MESUR TIR
SURVEYING**

**GWAITH FFOSYDD
DITCHING**

**FFRWYDRO
BLASTING**

**AR Y GROESFAN
REILFFORDD
AT LEVEL CROSSING**

**CHWISTRELLU
CHWYN
WEED SPRAYING**

RAMP

**ARAFWCH NAWR
REDUCE SPEED NOW**




**RHAID GWISGO OFFER
DIOGELU CLUSTIAU
EAR PROTECTION
MUST BE WORN**



**RHAID GWISGO OFFER
DIOGELU'R LLYGAID
EYE PROTECTION
MUST BE WORN**



**RHAID GWISGO
MENIG
GLOVES
MUST BE WORN**



**RHAID GWISGO
SIACEDI LLACHAR
HIGH VISIBILITY JACKETS
MUST BE WORN**



**RHAID GWISGO
HELMED DDIOGELWCH
SAFETY HELMETS
MUST BE WORN**



**CADWCH ALLAN
KEEP OUT**



**RHAID GWISGO
ESGIDIAU DIOGELU
PROTECTIVE FOOTWEAR
MUST BE WORN**



**POB YMWELYDD I FYND
I'R SWYDDFA
ALL VISITORS TO
REPORT TO SITE OFFICE**

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



CABINET - 9 MAWRTH 2022

PWNC: STRATEGAETH Y GYMRAEG PUM MLYNEDD 2022-2027

ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 I ofyn am gymderadwyaeth y Cabinet ar Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027, fel sy'n ofynnol gan Safonau 145 a 146 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.
- 2.2 Rhaid i'r strategaeth gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg a datganiad sy'n nodi sut y bwriedir cyrraedd y targed.
- 2.3 Rhaid adolygu a diwygio'r strategaeth ar gylch 5 mlynedd. Penderfynodd y Cabinet yr hoffent gael diweddariad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y strategaeth ac mae hyn wedi bod yn rhan o bob Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'r Cabinet ers 2017. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl rhoi diweddariad yn ystod y pandemig oherwydd rydym ni a'n sefydliadau partner wedi canolbwyntio ar ymdrin â'r pandemig ac addasu'r modd y darperir gwasanaethau sydd wedi'i gwneud yn anodd iawn casglu'r wybodaeth hon a chyflawni'r camau gweithredu. Bydd cynnydd yn erbyn y strategaeth bresennol yn rhan o Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-2022 yn ddiweddarach eleni.

3. ARGYMHELLION

- 3.1 I'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 i'w chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 4.1 Mae'n ofynnol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i'r cyngor lunio a chyhoeddi Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd ar gyfer y fwrdeistref sirol yn unol â Safonau 145 a 146.

5. YR ADRODDIAD

- 5.1 Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddatblygu Strategaeth y Gymraeg pum mlynedd sy'n nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal. Rhaid i'r strategaeth gynnwys targed (o ran canran) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd. Yn ogystal, rhaid i'r strategaeth gynnwys datganiad sy'n nodi sut y caiff y targed ei gyrraedd. Rhaid adolygu ac adnewyddu'r strategaeth ar ddiwedd pob cyfnod o 5 mlynedd (Safon 145).
- 5.2 Ar ddiwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, rhaid i'r awdurdod asesu i ba raddau y dilynwyd y strategaeth ac y cyrhaeddwyd y targed. Rhaid i'r asesiad, y mae'n rhaid ei gyhoeddi, gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'r rhestr o weithgareddau sydd wedi'u cynnal i fodloni nodau'r strategaeth (Safon 146). Bydd yr adolygiad o'r strategaeth bresennol yn cael ei atodi i Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-2022 yn ddiweddarach eleni.
- 5.3 Datblygwyd y strategaeth ddrafft atodedig (Atodiad 1) a'r camau gweithredu cysylltiedig ar y cyd ag aelodau Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili, rhanddeiliaid allweddol a meysydd gwasanaeth ac ysgolion y cyngor. Dim ond mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr ardal sydd hefyd â chylch gwaith, naill ai drwy ddeddfwriaeth neu bolisi sefydliadol, y gellir cyflawni'r strategaeth yn effeithiol i gynyddu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.
- 5.4 Mae'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 ddiwygiedig yn cynnwys:
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
 - Cefnogi Pobl
 - Clwb Busnes Caerffili
 - Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 - Coleg Gwent
 - Coleg y Cymoedd
 - Cyngorau Tref a Chymuned
 - Cyngorwyr
 - Cymraeg i Blant
 - Cymraeg i Oedolion Gwent
 - Gwasanaeth Cyflawni Addysg
 - Gyrfa Cymru
 - Heddlu Gwent

- Helo Blod
 - Holl Feysydd Gwasanaeth CBSC
 - Holl Ysgolion CBSC
 - Menter Iaith Caerffili
 - Mudiad Meithrin
 - Prifysgol De Cymru
 - Rhwydwaith Rhieni
 - Sector Gwirfoddol – GAVO
 - Yr Urdd
- 5.5 Mae'r strategaeth yn cynnig targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 4% dros y cyfnod o 5 mlynedd. Fodd bynnag, caiff y targed ei adolygu pan fydd gennym ddata Cyfrifiad 2021 ar gael i ni. Cydnabyddir bod y targed hwn yn uchelgeisiol ac mae'r camau gweithredu yn y ddogfen yn gyfeiriad teithio i'r awdurdod lleol a'i randdeiliaid allweddol. Fe'i gosodir yng nghyd-destun strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i 1 miliwn erbyn 2050.
- 5.6 Cefnogir y strategaeth gan Broffil Iaith Gymraeg ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili 2021 a ddatblygwyd gan Fenter Iaith Caerffili. Mae'r proffil hwn yn archwilio sefyllfa'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg gan amrywiaeth o sefydliadau a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Mae'r proffil wedi'i atodi i'r Strategaeth yn Atodiad B.
- 5.7 Mae strwythur y ddogfen yn dilyn 6 maes strategol; Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Cymunedau, Gwasanaethau Cymraeg, Y Gweithle a Seilwaith (Polisiâu ac Arferion).
- 5.8 Mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu cyn ymgynghori i ddatblygu set ddiwygiedig o gamau gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd ddrafft 2022-2027. Bydd y camau hyn yn ein galluogi i gynllunio sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn lleol i gynyddu poblogaeth y siaradwyr Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Adolygiad o ofynion deddfwriaethol
 - Adolygiad o adroddiadau a chanllawiau allanol, gan gynnwys '**Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026**' gan Lywodraeth Cymru, a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg '**Safonau'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg**'
 - Adolygiad o Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd bresennol y Cyngor 2017-2022
 - Dadansoddiad o setiau data lleol a chenedlaethol
 - Ymgysylltu â rheolwyr darparu gwasanaethau o fewn y Cyngor
 - Ymgysylltu â Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg
- 5.9 Bydd y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y strategaeth yn cael ei fonitro gan Fforwm y Gymraeg, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol. Cyfrifiad 2021 fydd y mesur swyddogol nesaf o nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.
- 5.10 **Casgliad**
Mae gweithredu Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol o dan Safonau 145 a 146 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Bydd y camau gweithredu a geir yn y strategaeth yn galluogi'r Cyngor, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn y fwrdeistref sirol am y pum mlynedd nesaf.

6. RHAGDYBIAETHAU

- 6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau wrth baratoi'r adroddiad hwn.

7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

- 7.1 Cyflwynwyd Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2016 o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg y Cyngor, yn benodol Safon 145, rhaid i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd sy'n nodi sut y bydd y cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Yna rhaid adolygu'r Strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o fewn 5 mlynedd o gyhoeddi'r strategaeth.

Mae'r strategaeth yn ddogfen lefel uchel ac mae'r cynllun gweithredu sydd yn y ddogfen yn dangos yn glir ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg, hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol drwy weithio mewn partneriaeth. Cyhoeddwyd y Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd gyntaf yn 2017, ac mae'r strategaeth hon yn fersiwn ddiwygiedig o'r strategaeth honno, sy'n adeiladu ar y blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Datblygwyd y strategaeth drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol (gweler y rhestr yn Atodiad 1) ac mae cyflawni'r camau gweithredu yn dibynnu'n fawr ar waith partneriaeth allweddol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn heriol a bydd yn effeithio ar gyflawni'r strategaeth hon, ac ni all un sefydliad yn unig gyflawni'r strategaeth. Felly mae gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid presennol a chreu cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau newydd o bob sector yn hanfodol. Mae'r holl bartneriaid presennol yn cydnabod bod llwyddiant y strategaeth yn dibynnu'n fawr ar gydweithio â phob sector o'r gymuned.

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol yn ymwneud â'r strategaeth hon. Mae'r holl effeithiau cadarnhaol wedi'u cofnodi yn yr adran uchod. Mae'n bwysig nawr bod holl feysydd gwasanaeth y Cyngor yn ystyried y camau gweithredu yn y strategaeth ac yn cydweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu defnyddio ac ymgysylltu â'r Gymraeg yn naturiol bob dydd, ac y mae'n rhaid ei chefnogi a'i meithrin am genedlaethau i ddod i ddefnyddio a mwynhau hefyd.

<https://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/IIA/aei-strategaeth-pum-mlynedd-2022-2027>

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn yr adroddiad hwn. Bwriedir i'r camau gweithredu o fewn y strategaeth gael eu cyflawni mewn partneriaeth. Pan fydd yr awdurdod lleol yn gwbl gyfrifol, neu'n rhannol gyfrifol, am gamau gweithredu, y bwriad yw y byddant yn cael eu bodloni o fewn y cyllidebau presennol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae rhai camau gweithredu yn y strategaeth yn ymwneud â'r Gwasanaethau Pobl a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cyflawni.

10. YMGYNGHORIADAU

- 10.1 Mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu cyn ymgynghori i ddatblygu set ddiwygiedig o gamau gweithredu Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd ddrafft 2022-2027.
- 10.2 Cynhaliwyd grwpiau ffocws rhithwir o randdeiliaid yn ystod mis Medi ac yna ymarfer ymgynghori cyhoeddus pum wythnos.
- 10.3 Mae ymatebion o'r holl ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori wedi'u hymgorffori i gamau gweithredu o fewn y Strategaeth. Atodiad C yw'r Adroddiad Ymgysylltu sy'n cynnwys rhestr o'r holl gamau a ddiwygiwyd neu a ddatblygwyd o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd.
- 10.2 Anfonwyd yr adroddiad hwn at yr Ymgynghoreion a restrir isod ac adlewyrchir yr holl sylwadau a gafwyd yn yr adroddiad hwn.

11. PŴER STATUDOL

- 11.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Awdur: Anwen Cullinane
Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori
cullima@caerffili.gov.uk

Ymgynghoreion: Christina Harry – Prif Weithredwr
Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Y Cynghorydd James Pritchard – Dirprwy Arweinydd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb
Y Cynghorydd Eluned Stenner – Aelod Cabinet dros Berfformiad, yr Economi a Menter
Sue Richards – Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Robert Tranter – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Lynne Donovan – Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Kathryn Peters – Rheolwr Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau
Jeff Reynolds – Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden
Jared Lougher – Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden
Mike Headington – Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Trafnidiaeth
Antony Bolter – Rheolwr yr Economi Ymwelwyr a Chyrchfannau
Robert Keep – Arweinydd Tîm Anturiaethau Caerffili
Michael Owen – Rheolwr Cyffredinol Ffordd Goedwig Cwmcarn
Paul Hudson – Arweinydd Tîm Adnewyddu Menter Busnes
Martin Cook – Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr
Lesley Edwards – Rheolwr Cyffredinol Llancaiach Fawr
Marina Newth – Rheolwr Gwasanaeth Theatr a Chelfyddydau
Paul O'Neill – Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid

Carol A Davies – Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant
Viv Daye – Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Oedolion
Rebecca Boulton – Rheolwr Tîm Teuluoedd yn Gyntaf
Sarah Mutch – Rheolwr Blynyddoedd Cynnar
Neil Cooksley – Prif Swyddog Adnoddau Dynol – Datblygu'r Gweithlu

Papurau Cefndir:

- Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg – [Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg](#)

Atodiadau:

Atodiad A - Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027

Atodiad B - Proffil Iaith Gymraeg Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021 - Menter Iaith Caerffili

Atodiad C - Adroddiad Ymgysylltu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Pum Mlynedd
2022-2027

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYNNWYS

ADRAN	TEITL	TUDALEN
1.	Cyflwyniad	1
2.	Strategaeth y Gymraeg	1
3.	Y Cyd-destun Deddfwriaethol	2
4.	Y Gymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili	5
5.	Sefydliadau Partner	7
6.	Sut y datblygwyd y Cynllun Gweithredu	14
7.	Monitro'r Strategaeth	15
7.	Cynllun Gweithredu:	16
	Maes Strategol 1 – Y Teulu	16
	Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc	18
	Maes Strategol 3 – Cymunedau	20
	Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Cymraeg	22
	Maes Strategol 5 – Y Gweithle	24
	Maes Strategol 6 – Seilwaith (Polisiau ac Arferion)	26
Atodiad B	Proffil Iaith Gymraeg Bwrdeistref Sirol	28
Atodiad C	Adroddiad Ymgynghori Caerffili	79
Atodiad 1-4	Manylion gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori	89

CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod mwy am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg, cysylltwch ag:

Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori
Ffôn: 01443 864404 / e-bost: cullima@caerffili.gov.uk

FFORMATAU HYGIRCH

Mae'r strategaeth hon hefyd ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais drwy'r manylion cyswllt uchod.

Paratowyd yn unol â gofynion Safon y Gymraeg 145 o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

**Mae'r strategaeth hon ar gael yn Saesneg
This strategy is available in English**

DRAFT

1. Cyflwyniad

Dyma ail Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n nodi camau gweithredu ar sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol drwy weithio mewn partneriaeth. Gweler Adran 6 am y camau gweithredu manwl ar sut y byddwn yn cyflawni hyn.

Mae cyflawni'r strategaeth hon yn dibynnu'n drwm ar waith partneriaeth allweddol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn heriol a bydd yn effeithio ar gyflawni'r strategaeth hon, ac ni all un sefydliad yn unig gyflawni'r strategaeth. Felly, mae gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid presennol a chreu cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau newydd o bob sector yn hanfodol. Cydnabyddir gan yr holl bartneriaid presennol fod llwyddiant y strategaeth yn dibynnu'n fawr ar gydweithio â phob sector o'r gymuned. Er mwyn cyfeirio, rhestrir yr holl bartneriaid presennol yn y Cynllun Gweithredu yn Adran 6.

Nid tasg hawdd mo datblygu strategaeth iaith hirdymor, gan y gall llawer o ffactorau fel amgylchiadau cymdeithasol a symud poblogaeth wneud yr wybodaeth berthnasol yn hen ffasiwn yn gyflym iawn.

Mae Menter Iaith Caerffili wedi paratoi Proffil Iaith 2021 y fwrdeistref sirol (gweler Adran 2 ac Atodiad B) a thrwy weithio mewn partneriaeth â nhw a defnyddio hwn fel man cychwyn, rydym yn hyderus mai'r data am y Gymraeg yw'r gorau sydd ar gael er mwyn i ni ddatblygu'r strategaeth bum mlynedd hon.

2. Strategaeth y Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg, yn benodol Safon 145 o dan y set gyntaf o Reoliadau'r Gymraeg, yn gosod y gofyniad canlynol ar y cyngor:

Safon 145:

Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill) –

- a) targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw, a
- b) datganiad sy'n nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu i gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

Y dasg felly yw datblygu strategaeth sy'n adeiladu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol, yn diwallu anghenion y siaradwyr a'r dysgwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol, yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ac yn bwysicaf oll, yn ystyrlon, yn briodol ac yn gyraeddadwy i bawb sy'n gysylltiedig.

3. Cyd-destun Deddfwriaethol

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ei nod yw:

Darparu mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.

Yr hyn a oedd yn allweddol i'r mesur hwn oedd creu rôl Comisiynydd annibynnol. Prif nodau'r Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, sy'n seiliedig ar ddwy egwyddor:

- Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol o gwbl na'r Saesneg
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny

Safonau'r Gymraeg

Yn rhan o'r mesur, rôl y Comisiynydd yw datblygu, gweithredu a monitro cyfres o Safonau'r Gymraeg a fydd yn ei thro yn:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau yn Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau Cymraeg
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- Sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrrff yn yr un sectorau
- Mynnu bod angen strategaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, sef Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg

Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon yn galw am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, mae Cymraeg 2050 yn seiliedig ar dair thema strategol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun


Bydd cyflawni ein Strategaeth y Gymraeg bum mlynedd yn cyfrannu at gyflawni'r targed hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. O ganlyniad i'r Ddeddf, mae'n rhaid i gyfanswm o 44 o gyrrff cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, feddwl mwy am y tymor hir yn y dyfodol, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau lleol a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Un o'r saith nod Llesiant a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg ffynnu".

Mae pob un o'r saith nod llesiant yn rhan allweddol o sut y dylai Cymru edrych, ac er bod y saith nod yn bwysig ynddynt eu hunain, ni ddylid edrych arnynt yn unigol oherwydd eu bod i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd. Os edrychwn ar y saith nod o safbwynt y Gymraeg gallwn weld sut mae'r Gymraeg yn rhan o, ac yn chwarae rhan ym mhob agwedd o addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, yr economi a mwy.

Roedd canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2018 o'r enw **Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg**, yn cynnwys yr enghraifft ganlynol sy'n dangos sut mae'r saith nod llesiant yn berthnasol i'r Gymraeg.



Mwy na Geiriau

'Mwy na Geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal pobl a bod cynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl mor bwysig.

Mae sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol i unigolion yn rhywbeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdanynt fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Gweithredol'.

Rhanbarthol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn dod â chyrrff cyhoeddus at ei gilydd i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Mae'n gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Llesiant Lleol newydd.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfarfod cyntaf BGC Gwent ar 1 Hydref 2021 a bydd yn darparu'r rôl gydgysylltu am y ddwy flynedd gyntaf nes i bartner arall o BGC Gwent gymryd yr awenau.

Rydym wedi datblygu gwefan BGC Gwent newydd a gallwch gael ati [yma Lleol](#)

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2018 - 2023

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein chwe Amcan Llesiant. Dyma nhw:

- **Amcan 1** - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- **Amcan 2** - Galluogi cyflogaeth
- **Amcan 3** - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella lles pobl
- **Amcan 4** - Hyrwyddo system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd
- **Amcan 5** - Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
- **Amcan 6** - Cefnogi dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

Mae gennym ddyletswydd statudol i bennu Amcanion Llesiant gan ddefnyddio'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid peth newydd mo pennu amcanion, a ninnau wedi gosod blaenoriaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd ers amser maith; fodd bynnag **nawr rydym yn gosod amcanion dros fwy o** gyfnod cynllunio pum mlynedd.

Strategaeth Trawsnewid #TîmCaerffili, Gwell Gyda'n Gilydd

Mae bwrdeistref sirol Caerffili ar daith o drawsnewid. Mae angen i ni drawsnewid y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau newidiol ein cymuned ac ymateb i'r heriau ariannol sylweddol sy'n ein hwynebu.

Cymeradwywyd strategaeth newydd bwysig o'r enw '**#TîmCaerffili – Gwell Gyda'n Gilydd**' gan gabinet y cyngor ac mae'n nodi'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r newidiadau hyn dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Ei nod yw trawsnewid y ffordd yr ydym wedi darparu gwasanaethau o'r blaen. Bydd yn archwilio sut y caiff gwasanaethau eu blaenoriaethu. Sut y gellir eu gwneud yn fwy effeithlon. Archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer mwy o ffocws ar gwsmeriaid a darparu digidol, ystyried modelau darparu amgen a chwilio am gyfleoedd masnachol.

Y canlyniadau rydym yn anelu at eu cyflawni:

- Cael perthynas waith gref â'n cymunedau a'n partneriaid i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfunol i sicrhau bwrdeistref sirol gydnerth ar gyfer y dyfodol.
- Ymgorffori model gweithredu newydd a fydd yn annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau ac yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.
- Helpu i gau'r bwlch rhwng tlodi a ffyniant drwy wella cyrhaeddiad addysgol ac ysgogi'r economi leol i greu swyddi o ansawdd uchel

Cynllun 10 Mlynedd Medi 2022 – Medi 2032 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Gweledigaeth ein cynllun yw parhau i 'Godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel.'

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Er mwyn cryfhau'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg ac i ddiwallu anghenion poblogaeth Gymraeg y fwrdeistref sirol, mae'r Gymraeg hefyd wedi'i chynnwys gan y cyngor o fewn ei drydydd **Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Amcan Cydraddoldeb Strategol 5 - Y Gymraeg**.

4. Y Gymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili

- Yng nghyfrifiad 2011, 19,251 neu 11.2% oedd nifer y siaradwyr Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili, ac mae'r data hwn yn destun newid yn dilyn cyfrifiad 2021
- Ar 31 Rhagfyr 2020, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, nifer y bobl a allai siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 42,700 neu 24.3%¹
- Ar 31 Rhagfyr 2020, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, gallai 19.9% o'r boblogaeth ddarllen Cymraeg, gallai 18.4% ysgrifennu Cymraeg, a gallai 27.2% ddeall Cymraeg llafar.²
- Ar 31 Rhagfyr 2020, amllder nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili yn ddyddiol oedd 10.2%³
- Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi amrywio o 72.29% i 99.43%⁴
- O'r boblogaeth ysgol gynradd gyfan mae 17.22% yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a thua 97.75% o'r rhain yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg⁵
- Roedd 1,602 o bobl ym mwrdeistref sirol Caerffili a gofrestrodd ar gyrsiau Cymraeg yn ystod 2017–2021 drwy Dysgu Cymraeg Gwent⁶

Rhaid i'r llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth fod yn broffil iaith gyfredol, er mwyn gallu pennu cynnydd targed cyraeddadwy mewn siaradwyr Cymraeg sy'n ofynnol o dan Safon y Gymraeg 145. Proffil iaith Menter iaith Caerffili o fis Ionawr 2021 yw'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r sir ac mae'n cynnwys y cyd-destun deddfwriaethol cenedlaethol yn ogystal â chysylltiadau â chynlluniau a strategaethau presennol.

¹ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

² Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

³ Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Amllder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

⁴ Ffynhonnell: Mewnol (CSCA)

⁵ Ffynhonnell: Mewnol (CSCA)

⁶ Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Gwent

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan fwrdeistref sirol Caerffili 19,251 o siaradwyr Cymraeg (11.2% o'r boblogaeth) ac yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2016, roedd 17.1% o boblogaeth yr ysgolion cynradd a 15.9% o boblogaeth yr ysgolion uwchradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg o fewn CBSC ers ei sefydlu ym 1996.

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022, nifer y disgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg oedd 2,781, sy'n cynnwys meithrinfa. Yn ystod y cyfnod hwn o 20 mlynedd, sefydlwyd tair ysgol ychwanegol, gyda 7 o'r 8 ysgol wreiddiol naill ai'n cael eu disodli neu'n cael eu haddasu / estyn i gynyddu capasiti.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cynyddu tua 75% o 900 i 1600 o ddisgyblion. Symudodd yr ysgol i safle newydd yn 2002 a datblygodd ymhellach i ail safle (Y Gwyndy) yn 2013. Capasiti posibl y ddau safle ar y cyd yw 2,348 y disgwylir iddo gael ei gyrraedd tua 2025.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) CBSC 2017-2020 yn cynnig y saith canlyniad allweddol canlynol:

- Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith
- Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg
- Canlyniad 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg - o ddatblygu'r cwricwlwm a chyrsgiau i adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu.

Sefydlwyd y Ganolfan mewn ymateb i'r adroddiad, *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*. Mae'r Ganolfan yn gweithredu hyd fraich oddi wrth Lywodraeth Cymru, sy'n ei hariannu, ac mae'n rhan o grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Rhoi dysgwyr yn gyntaf yw prif flaenoriaeth y Ganolfan ac mae'r gwerthoedd brand canlynol wrth wraidd ei holl weithgareddau.

Y canlyniadau craidd a bennwyd ar gyfer y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru yw:

- Bod yn sefydliad gweladwy sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg.
- Darparu arweinyddiaeth i ddarparwyr cyrsiau'r Ganolfan.
- Codi safonau mewn addysgu a dysgu yn y sector Dysgu Cymraeg.
- Datblygu cwricwlwm cenedlaethol priodol, diddorol o ansawdd uchel, a chynhyrchu adnoddau sy'n addas ar gyfer ystod o ddysgwyr.

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn cynnwys pum amcan allweddol:

1. Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau deniadol ac addas i ddysgwyr, gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.
2. Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau lle gall dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.
3. Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau i gynnig gwasanaeth rhagoriaeth.
4. Codi proffil y sector a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu Cymraeg.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau cymorth gwasanaeth.

Roedd Strategaeth y Gymraeg presennol y cyngor yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 3%. Pan ddaw'r strategaeth bresennol i ben, caiff ei hadolygu, ac o ddefnyddio data sydd ar gael i ni fyddwn yn gallu penderfynu a yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd ai peidio.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddull cadarnhaol o helpu i gyflawni'r nod; fodd bynnag, rydym wedi dewis targed realistig yr ydym yn anelu at ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn disgwyl y bydd galluoedd Cymraeg ein poblogaeth a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r strategaeth hon felly'n cynnig cynnydd targed o 4% o leiaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2022 a 2027.

Adolygir y targed hwn pan fydd data Cyfrifiad 2021 wedi'i gyhoeddi.

5. Sefydliadau Partner

Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y strategaeth hon, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid presennol a phartneriaid newydd ledled y sir. Drwy gydweithio, byddwn mewn sefyllfa well i sicrhau bod ein gweledigaeth o fewn y strategaeth hon yn cael ei chyflawni.

Mae'r partneriaid allweddol canlynol yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y sir.

Menter Iaith Sir Caerffili

Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn fudiad cymunedol, gwirfoddol a blaenllaw sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili.

Prif nôd Menter Iaith Sir Caerffili yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili. Er mwyn gwireddu hwn byddwn yn datblygu ac yn darparu trawstoriad o wasanaethau a chyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg lleol er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ymgynghori'n gyson â thrigolion lleol er mwyn datblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n hygyrch, perthnasol ac o'r safon uchaf. Rydym am weld twf yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau'r Sir a hynny o fewn amrywiaeth o feysydd. Wrth wraidd ein prif nod mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Prif amcanion ein gwaith:

- Arwain cyd-gynllunio ar gyfer y Gymraeg ar lefel Sirol
- Datblygu a darparu gwasanaethau a chyfleoedd o safon ac ansawdd uchel
- Dylanwadu er lles y Gymraeg ar lefel Sirol a chynrychioli llais siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yn Sir Caerffili
- Ymchwilio i gyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau sy'n hunangynhaliol
- Cynnal a datblygu sefydliad sy'n gweithredu'n effeithiol, gyda llywodraethant cryf ac yn ystyried a diogelu lles ei staff a'i gwirfoddolwyr

Erbyn hyn, mae'r Fenter wedi bod yn gweithredu am dros 21 o flynyddoedd ac yn cyflogi tua 70 aelod o staff ar draws ei gwasanaethau.

Rheolir Menter Iaith Sir Caerffili gan Fwrdd Rheoli profiadol ac uchelgeisiol o wirfoddolwyr. Daw'r aelodau o gymunedau ar draws Sir Caerffili ac mae eu harweiniad a'u mewnbwn i ddatblygiad a rheolaeth effeithiol ein gwaith yn allweddol.

Mae'r cyfraniad sylweddol hwn gan wirfoddolwyr yn sicrhau taw gofynion pobl leol sy'n llywio ein gwaith. Yn ogystal, rydym yn recriwtio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr ar draws ein gwasanaethau a'n gweithgareddau fel bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n sylweddol ym mhob elfen o'n gwaith. Rydym yn recriwtio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr yn barhaol yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu mewnbwn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ond hefyd er mwyn cynnig cyfleoedd ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl leol.

Urdd Gobaith Cymru

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, drwy gyfrwng y Gymraeg, i bobl ifanc Cymru ddatblygu fel unigolion crwn; i'w cefnogi hefyd i chwarae rhan adeiladol mewn cymdeithas drwy ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol. Mae'r Urdd yn cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili mae'r Urdd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion Ail Iaith, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Urdd yn trefnu cystadlaethau chwaraeon, gweithgareddau preswyl yn eu canolfannau, Jamboriau a'r Eisteddfod flynyddol.

Yn ogystal â hyn, mae'r Urdd yn cyflogi Swyddog Ieuencid yng Nghaerffili ar y cyd â Menter Iaith Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r swyddog yn datblygu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc y sir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r swyddog yn datblygu'r cyfleoedd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys clybiau ieuencid, grwpiau cymunedol, gwibdeithiau, tripiâu dramor, cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd achredu i bobl ifanc.

Mae'r Urdd hefyd yn cyflogi swyddog chwaraeon sy'n helpu i greu cyfleoedd i bobl ifanc a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys clybiau ar ôl ysgol, clybiau cymunedol a digwyddiadau untro. Er mwyn helpu i ddatblygu hyfforddwyr, darperir cyrsiau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r Urdd yn darparu blwyddyn o brentisiaeth bob mis Medi i un person rhwng 18 a 24 oed. Mae'r prentis yn gweithio gyda'r swyddog wrth hefyd gwblhau NVQ mewn Arwain Gweithgareddau.

Mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghaerffili ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i addysg ac o fewn eu cymunedau.

Cymraeg i Blant

Prif nod y cynllun Cymraeg i Blant/Cymraeg for Kids a reolir gan Fudiad Meithrin yw cynyddu'r nifer o blant oedran meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae hi'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni newydd ar fuddion bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno Cymraeg yn y cartref mor gynnar â phosib a rhannu gwybodaeth leol am ofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae swyddog lleol Cymraeg i Blant yn rhedeg sesiynau tylino babi, ioga i fabis a sesiynau arwyddo stori a chân trwy gyfrwng y Gymraeg yn wythnosol i rieni a babanod ar draws Caerffili. Rhedir hefyd cyrsiau ar-lein fel Fi a fy mabi i dargedu'r fam feichiog a'i phartner a sesiynau Ymarfer dy Gymraeg i godi hyder siaradwyr newydd neu rieni nad sydd wedi defnyddio'r Gymraeg ers dyddiau ysgol.

Mae'r swyddog yn gweithio'n agos gyda thimoedd Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd Lleol er mwyn sicrhau ei bod nhw yn ymwybodol o'r daith ddwyieithog sydd ar gael i rieni fel ei bod yn medru cyfeirio rhieni draw i grwpiau Cymraeg i Blant, Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin.

Fforwm Iaith Gymraeg

Mae Menter Iaith Caerffili yn cydlynu ac yn arwain Fforwm o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nod y Fforwm yw rhoi cyfle i weithio mewn partneriaeth, rhannu arfer da a datblygu llais lleol cryf ar ran y Gymraeg. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter a thrafodir amrywiaeth o bynciau a materion yn ystod cyfarfodydd gan gynnwys pwysigrwydd gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Y gobaith yw bydd y Fforwm yn parhau i ddatblygu a rhoi cyfle i gyfleu llais cryf a dylanwadol i gefnogi'r Gymraeg yn lleol yn ogystal â gweithio ar lefel strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon.

Coleg y Cymoedd

Mae Coleg y Cymoedd yn goleg addysg bellach gyda phedwar campws. Lleolir un o'r campwsau hyn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (yn Ystrad Mynach). Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau llawn amser a rhan amser o Lefel Mynediad i Radd mewn dros 15 o feysydd cwricwlwm. Fel coleg sydd wedi'i leoli yng Nghymru, mae Coleg y Cymoedd yn credu ei bod hi'n bwysig dathlu ein treftadaeth falch a bod yn rhagweithiol wrth helpu ei ddysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg - p'un a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddim ond yn gwybod tipyn bach.

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Goleg y Cymoedd rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Coleg hyrwyddo'r ffaith fod gan fyfyrwyr yr hawl gael gwasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn eu hannog i fanteisio ar yr hawliau hyn yn ystod eu hamser yn y Coleg.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg 2018-2021 Coleg y Cymoedd yn llywio ei weithgarwch o ran y Gymraeg. Yn unol â'r Cynllun Strategol hwn cynigir dosbarth ailsefyll TGAU Mathemateg cyfrwng-Cymraeg; grwpiau Bagloriaeth Cymru ddwyieithog ar lefel Uwch Gyfrannol a Safon Uwch drwy'r Ganolfan Safon Uwch; Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg (Ail iaith); unedau gofal cwsmeriaid Cymraeg o'r enw 'Cymraeg Gwaith' ar draws pob maes galwedigaethol. Mae'r rhain ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg fel ei gilydd. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg

Cenedlaethol i gynyddu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Nod y Coleg yw datblygu'r arlwy dros y blynyddoedd i ddod.

Hefyd, cynigir y cyfle i staff y Coleg ddatblygu a chynnal eu sgiliau Cymraeg yn unol â Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Coleg. Mae'r Coleg yn cydweithio a Cholegau Cymru; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ac mae rhwydweithiau mewnol i annog staff i sgwrsio ac ymarfer eu Cymraeg a defnyddio'u sgiliau yn eu gwaith.

O ran y Cynllun Strategol hwn, mae'r Coleg wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr y tu allan i'r dosbarth i gadw a datblygu ei sgiliau Cymraeg. Mae cyfleoedd i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith mewn ffordd anffurfiol drwy fynychu clwb gweithgareddau cyfrwng-Cymraeg, sef 'Clwb Dreigiau'r Cymoedd' ac mae cyfleoedd i ddysgwyr sy'n dymuno dysgu sut i siarad ychydig o Gymraeg sylfaenol fynychu sesiynau ar-lein o'r enw 'Dragon Bites'. Hefyd, mae cyfle i siaradwyr Cymraeg gael eu cyflogi fel Llysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg yn cynnig calendr llawn o ddigwyddiadau sy'n dathlu Cymru a'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Mae Coleg y Cymoedd yn awyddus i barhau i gydweithio gyda phartneriaid megis Fforwm Iaith Sir Gaerffili, Menter Iaith Caerffili, ysgolion Cymraeg y sir; yr Urdd; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg i barhau i gynnal a datblygu ei ddarpariaeth a'i wasanaethau Cymraeg yn y dyfodol.

Coleg Gwent

Mae'r pum awdurdod lleol yn ardal dalgylch y Coleg ymhlith y rheini â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yng Nghyfrifiad 2011, roedd 11% o boblogaeth Caerffili'n gallu siarad Cymraeg, tra bod y canrannau yn 10% yn Nhorfaen, 9% yng Nghasnewydd, 8% ym Mlaenau Gwent a 10% yn Sir Fynwy. Yn erbyn y cefndir hwn o lefelau isel o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg y mae'r Coleg yn ceisio datblygu ei ddarpariaeth iaith Gymraeg.

Ym mis Medi 2020, teimlai 79 (6.8%) o staff Coleg Gwent fod ganddynt sgiliau Cymraeg uwch neu rugl (mae'r ffigurau'n cynnwys staff Cymraeg i Oedolion). Gofynnir i bob aelod newydd o'r staff asesu ei sgiliau Cymraeg a chynigir cyrsiau Cymraeg i Oedolion am ddim yn ystod oriau gwaith i bob aelod o'r staff. Yn gynyddol, mae'r coleg yn penodi staff newydd ar y sail y gallant ymrwymo i ddilyn y rhaglen Cymraeg Gwaith o fewn 6 wythnos o ddechrau eu cyflogaeth.

Mae data o'r ffurflenni cofrestru ar gyfer 2020/21 yn dangos bod 312 o ddysgwyr yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg a/neu eu bod wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Dim ond 0.4% o ddysgwyr a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth. Caiff nifer y dysgwyr sy'n dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ei fesur a chaiff y nifer sy'n mynd ymlaen i astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg ei nodi fel rhan o arolwg i wella ein dealltwriaeth o lefel y sgiliau iaith Gymraeg ymysg dysgwyr.

Mae Strategaeth Dwyieithrwydd Coleg Gwent (2019-2024) yn ymateb ystyrlon ac integredig sy'n nodi sut y bydd Coleg Gwent yn ymateb i'w gyfrifoldebau a nodwyd yn Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, strategaeth Colegau Cymru, Normaleiddio Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021 a strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Bydd Fframwaith Arolygu Estyn yn parhau i ganolbwyntio ar ddwyieithrwydd. Mae Estyn yn ymrwymedig i'r farn y dylai dysgwyr gael yr hawl i gael cyfleoedd galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn 16 oed a bydd yn rhoi sylw manwl i gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a chyfraddau cynnydd o ran y Gymraeg. Mae disgwyliad hefyd y bydd pob dysgwr, ni waeth faint o allu sydd ganddo i siarad Cymraeg, yn cael profiad sy'n cynnwys elfennau o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg yn ei raglenni astudio.

Mae Coleg Gwent wedi bod yn gweithredu dan Safonau'r Gymraeg ers 1 Ebrill 2018. Dyma ddibenion Safonau'r Gymraeg:

- sicrhau eglurder i sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg
- sicrhau eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella'r ansawdd i ddefnyddwyr

Mae Safonau'r Gymraeg yn set gynhwysfawr o reoliadau sy'n cwmpasu popeth rydym yn ei wneud a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'r cyhoedd, gyda'r nod o sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg a sicrhau bod dwyieithrwydd yn un o'r blaenoriaethau pennaf.

Gweledigaeth:

Bydd Coleg Gwent yn parhau i fod yn bartner llawn a rhagweithiol yn y gwaith o gynllunio a darparu system addysg a hyfforddiant ôl-14 sy'n darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr astudio a dysgu drwy gyfrwng eu dewis iaith, a thrwy hynny eu paratoi ar gyfer gwaith a bywyd mewn gwlad ddwyieithog.

Nodau Strategol:

Dylanwadir ar Nodau Strategol y strategaeth hon gan y rhai a nodir yn Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, strategaeth Colegau Cymru, sef Normaleiddio Dwyieithrwydd: Strategaeth ar gyfer Addysg Bellach 2016-2021, Safonau'r Gymraeg a strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Mae'r amcanion strategol fel a ganlyn:

1. Canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu darpariaeth ddwyieithog a chyfrannu at Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol y mae'r Coleg yn ei wasanaethu.
2. Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050: gan weithio gydag ysgolion, darparwyr eraill a chyflogwyr.
3. Cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r Llwybrau Dysgu 14-19.
4. Parhau i ymateb a chefnogi gofynion dysgu ein dysgwyr dwyieithog a chynyddu cyfleoedd i bob dysgwr wella neu ddatblygu ei sgiliau Cymraeg.
5. Sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i gyrsiau ôl-16 ac ôl-18/opsiynau ar gyfer cyrsiau sy'n cynnal ac yn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg; galluogi dysgwyr i gael gafael ar y ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion.
6. Recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth galwedigaethol a meysydd lle ceir nifer sylweddol o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith.
7. Darparu rhaglen datblygu staff; ymgorffori'r dimensiwn Cymreig a sgiliau Cymraeg.

8. Parhau i ymgorffori'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn seilwaith a pholisïau'r Coleg.

Caiff y broses o gyflawni'r nodau strategol hyn ei chynnyddu a'i monitro gan Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg.

Mudiad Meithrin

Mudiad Methrin Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin a'r prif ddarparwr o ofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol yng Nghymru. Ein hamcan yw rhoi'r cyfle i bob plentyn yng Nghymru i elwa o brofiadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cyflogi 200 o staff yn genedlaethol ac mae 1500 o staff yn gweithio mewn Cylchoedd Meithrin ar draws Cymru. Yng Nghaerffili, mae gan Mudiad Meithrin 10 o Gylchoedd Meithrin a 2 o Gylchoedd Ti a Fi (grwpiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer rhieni a phlant ifanc). Mae Cylch Meithrin newydd o dan gynllun Sefydlu a Symud yn agor yn Ionawr 2022. Maent yn credu bod y gallu i siarad Cymraeg yn fantais i bob plentyn a bod trosglwyddo o'n grwpiau i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn allweddol. Mae'r cylchoedd yng Nghaerffili yn derbyn arweiniad a chynghor ymarferol i'w staff, gwirfoddolwyr a'u rhieni o'n Swyddogion Cefnogi penodol. Mae Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Menter Iaith Caerffili.

Defnyddir y dull trochi iaith Croesi'r Bont i gyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc sy'n mynychu ein Cylchoedd Meithrin. Cynhelir yr holl weithgareddau chwarae drwy'r Gymraeg er mwyn annog plant i gyfathrebu gydag oedolion a'u ffrindiau drwy gyfrwng yr iaith. Yn yr awyrgylch hwn, gall plant ddatblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gwricwlwm cyflawn sy'n cynnwys cyfleoedd chwarae strwythuredig a rhydd, ynghyd â chynllun trochi iaith.

Trwy gynllun Clwb Cwtsh mae Mudiad Meithrin yn cynnig cwrs blasu Cymraeg rhad ac am ddim sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith plant yn y cartref. clwbcwtsh@meithrin.cymru.

Mae Mudiad Meithrin yn cyflwyno drwy gynllun Cam wrth Gam, cyrsiau Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cynnig Prentisiaethau, ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru sy'n galluogi unigolion i ennill cymhwyster Lefel 3 Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Dysgu Cymraeg Gwent

Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn gweithio ar draws bwrdeistref sirol Caerffili i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Themâu Strategol

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg trwy waith *Dysgu Cymraeg Gwent*:

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy waith *Dysgu Cymraeg Gwent*:

- Y gweithlu
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Sut mae gwaith *Dysgu Cymraeg Gwent* yn cefnogi'r themâu strategol hyn?

Denu – agor drysau i ddysgu'r Gymraeg:

- Marchnata a hyrwyddo
- Partneriaethau strategol
- Diwallu anghenion dysgwyr

Dysgu - darparu gwasanaethau *Dysgu Cymraeg* rhagorol:

- Datblygu'r adnoddau a'r ddarpariaeth
- Datblygu'r gweithlu
- Cyfleoedd dysgu i bawb

Defnyddio - helpu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith:

- Yn y cartref
- Yn y gymuned
- Yn y gweithle

Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn arbenigo mewn cyrsiau dwys – 4 awr (3 awr o fewn y dosbarth ac 1 awr yn cwblhau gweithgareddau drwy'r rhyngwyd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn y dosbarth). Cynigir cwrs dwys pellach – 9 awr yr wythnos i'r rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn gyflym.

Yn ogystal â'r dosbarthiadau rheolaidd a ddarperir gan *Dysgu Cymraeg Gwent*, darperir nifer o weithgareddau dysgu anffurfiol sy'n gyfle i ddysgwyr o bob lefel ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa gymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hwn yn ddatblygiad cynyddol sy'n hanfodol i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith Caerffili i sicrhau bod dysgwyr ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ymarfer y Gymraeg y maent wedi'i dysgu o fewn y dosbarth a defnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr eraill.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Sefydlwyd y Bwrdd Iechyd ar 1 Hydref 2009 ac mae'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi dros 14,000 o staff, ac y mae dwy ran o dair ohonynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol i gleifion. Mae mwy na 250 o ymgynghorwyr mewn cyfanswm o dros 1000 o feddygon ysbyty a meddyg teulu, 6,000 o nyrsys, bydwagedd, gweithwyr proffesiynol perthynol a gweithwyr cymunedol.

O dan Ddeddf Cymraeg 1993, mae gan y GIG yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r gofynion a osodir ar y Bwrdd Iechyd o dan Safonau Cymraeg, Adran 26 o'r Iaith Gymraeg (Cymru) Mesur 2011.

Mae'r Uned Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys staff sy'n gweithio ar lefel strategol, rheolaethol ac ymarferol ym meysydd polisi, hyfforddiant a datblygiad iaith.

Rydym yn gweithio tuag at gynnig gwasanaethau lle bynnag y bo modd yn yr iaith o ddewis, heb yr angen i'r claf wneud cais penodol amdano. Gelwir hyn yn gwneud 'cynnig gweithredol' o Gymraeg ac mae'n rhan allweddol o Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau yn unig.

Heddlu Gwent

Mae Heddlu Gwent yn gwasanaethu ardal o 600 milltir sgwâr, gan gynnwys tua 182,000 o bobl yn ardal awdurdod lleol Caerffili.

Mae gan y Prif Gwnstabl dri amcan strategol ar gyfer y Gymraeg rhwng 2021 a 2024:

- gwella'r ystod o wasanaethau Cymraeg a gynigiwn ar hyn o bryd i'w gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd gael gwasanaeth yn Gymraeg
- cynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyflogir gennym i adlewyrchu canran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau a wasanaethwn yn ardal Gwent
- defnyddio'r wybodaeth a gawn o fonitro a ffynonellau eraill i'n helpu i nodi meysydd lle gallwn wella ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg a sgiliau Cymraeg ein swyddogion a'n staff.

Mae Heddlu Gwent yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn gwella argaeledd a defnydd gwasanaethau Cymraeg yn yr ardal, e.e. drwy ymgysylltu ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal yn Gymraeg a hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc am werth sgiliau Cymraeg mewn gwaith plismona.

6. Sut y datblygwyd y Cynllun Gweithredu

Datblygwyd y cynllun gweithredu mewn dau wahanol gyfnod:

Cyfnod 1 – ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid i adolygu'r camau gweithredu drafft ac awgrymu gwelliannau

Cyfnod 2 – ymgynghoriad ffurfiol i geisio barn trigolion, aelodau etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r camau gweithredu drafft.

I weld yr Adroddiad Ymgysylltu llawn, yr atodiadau cysylltiedig â Phroffil y Gymraeg ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili, trowch at:

ATODIAD A – Adroddiad Ymgysylltu Strategaeth y Gymraeg 2022-2027

ATODIAD B – Proffil Iaith Gymraeg Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021 - Menter Iaith Caerffili

7. Monitro'r Strategaeth

Caiff y Strategaeth ei monitro yn unol â Safon 146.

Safon 146

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid i chi –

- (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddo, a*
- (b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol –*
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal chi, ac oedran y siaradwyr hynny;*
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau yr ydych wedi'u trefnu neu eu hariannu yn ystod y pum mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.*

Bydd y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth yn cael ei fonitro gan Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili ym mhob cyfarfod. Lle bo'n berthnasol, bydd partneriaid yn cydweithio i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni. Cyhoeddir adroddiad ar ddiwedd y Strategaeth yn unol â Safon 146 uchod.

8. Monitro'r Strategaeth

Maes Strategol 1 – Y Teulu

Gweledigaeth

Mwy o Gymareg yn cael ei defnyddio o fewn y cartref.

Canlyniad

Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith a siaredir gyda phlant ac ymhlith plant.

Dangosyddion

- % y plant mewn dosbarthiadau derbyn ysgol gynradd sy'n dysgu Cymraeg.
- Nifer y digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a sefydliadau partner ar gyfer y teulu, lle gellir defnyddio Cymraeg fel rhan o weithgaredd teuluol.

Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili

Blaenoriaethau Strategol

- Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd er mwyn i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn helpu eu plant i feithrin ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael yr iaith Gymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac argaeledd darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.

Sefydliadau Partner

1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

Gweithred		Partneriaid	Statws
1.1 (2.2 a 2.7)	Datblygu tudalen we ar wefan y cyngor gyda dolenni i'r holl sefydliadau partner, DEWIS a'r holl adnoddau sydd ar gael.	1-28	1-2 flwyddyn
1.2	Sicrhau fod pob cyfle yn cael ei gymryd i sicrhau bod dewis iaith wrth gyfathrebu.	1-28	1-2 flwyddyn
1.3	Adolygu, diweddarau a hyrwyddo'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' a'i wneud ar gael mewn fformatau amgen gan gynnwys clipiau fideo, podlediadau, hyrwyddo yn Newline ac ati. Datblygu yn unol â thargedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.	1-28	2-3 blwyddyn
1.4	Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel y Fforwm Addysg Gymraeg, BIPAB a'r gwasanaeth gofrestru i hyrwyddo'r llyfryn Bod yn Ddwyieithog i rieni newydd mewn pecyn gwybodaeth (digidol).	1, 2, 9, 13, 14, 21, 22, 23, 26, 28	2-3 blwyddyn
1.5	Newline i gynnwys erthygl gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob rhifyn sy'n hyrwyddo'r gweithgareddau a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol.	1-28	1-2 flwyddyn
1.6	Y cyngorau a'r Fforymau Addysg Gymraeg i weithio mewn partneriaeth ranbarthol i gynllunio gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.	1-28	3-5 blwyddyn
1.7 (2.8, 2.9, 2.12, 13, 3.8)	Cysylltu â Hyrwyddwyr a Llysgenhadon yr iaith ar draws y sefydliadau partner i sicrhau neges gyson ynghylch addysg gyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.	1-28	2-3 blwyddyn
1.8 (2.10)	Helpu a chefnogi ysgolion i fodloni gofynion cynlluniau 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' yn enwedig wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cysylltu gyda chyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac arweinwyr ysgolion y 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.	1-28	3-5 blwyddyn
1.9	Gwella cyfathrebiad rhwng y cyngor a sefydliadau partner am y gwaith a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn lleol a'u rhannu'n eang.	1-28	1-2 blwyddyn
1.10 (3.7)	Hyrwyddo addysg Gymraeg a gweithgareddau iaith Gymraeg gyda phobl o grwpiau gwarchoddedig, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac anabled. Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid.	1-28	1-2 blwyddyn

Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc

Gweledigaeth

Mae Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ac yn deall ei werth fel sgil ym mywyd y dyfodol. Mae gan Blant a Phobl Ifanc fynediad gwell at ddigwyddiadau a gwasanaethau cymdeithasol yn Gymraeg.

Canlyniad

Mae plant a phobl ifanc fwyfwy yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, gwella eu rhagolygon gyrfya posibl a sylweddoli gwerth yr iaith.

Dangosyddion

- % y disgyblion blwyddyn 6 yn dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.
- % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio ar gyfer pum cymhwyster neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.
- % y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau dwry gyfrwng y Gymraeg.
- Nifer y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg ar Safon Uwch
- Niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg, megis digwyddiadau a drefnwyd gan sefydliadau partner.

Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

Blaenoriaethau Strategol

- Cefnogi addysgwyr er mwyn iddynt allu hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio gyda phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg.
- Cynyddu'r nifer o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n astudio Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.
- Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddatblygu i fod yn bencampwyr dros y Gymraeg yn eu cymunedau.

Sefydliadau Partner

1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cynghorau Tref a Chymuned
12. Cynghorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfya Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

Gweithred		Partneriaid	Statws
2.1	Archwilio cyfleoedd a gwasanaethau cyfredol Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc i adnabod bylchau a meysydd galw ar draws sefydliadau partner.	1-28	1-2 flwyddyn
2.2 (1.1, 2.7)	Hyrwyddo sefydliadau Cymraeg yn arbennig eu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.	1-28	1-2 flwyddyn
2.3 (5.12)	Gweithio gyda phartneriaid i redeg ffair swyddi a'i dilyn gyda sesiynau cyfweld ffug a chodi ymwybyddiaeth o wefannau swyddi gwag, i gynnwys datblygu fideo sy'n hyrwyddo gyrfaoedd yn gadarnhaol trwy gyfrwng y Gymraeg.	1-28	2-3 blwyddyn
2.4 (2.5, 2.12, 5.8)	Cysylltu â cholegau addysg bellach a phrifysgolion leol i gyfleu negeseuon cadarnhaol i fyfyrwyr i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u cyrsiau ac o fewn gyrfaoedd.	6, 7, 8, 14, 18, 25	2-3 blwyddyn
2.5 (2.4, 2.12, 5.8)	Ymgynghori a chreu ymgyrch i ddenu pobl ifanc i ystyried gwaith ieuencid, gweithgareddau chwaraeon a chelfyddydau fel arweinwyr, gwirfoddolwyr ac ati. Gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuencid, Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden, Gofalu am Gaerffili ac ati.	1-28	2-3 blwyddyn
2.6	Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn enwedig i staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys pecyn adnoddau i gefnogi darpariaethau i hyrwyddo iaith a threftadaeth leol e.e. Fforwm Ieuencid, clybiau ieuencid, llyfrgelloedd ac ati.	1-28	2-3 blwyddyn
2.7 (1.1, 2.2)	Datblygu tudalen we ar wefan y cyngor a DEWIS gyda dolenni i'r holl sefydliadau partner a'r holl adnoddau sydd ar gael.	1-28	1-2 flwyddyn
2.8 (1.7, 2.9, 2.12, 2.13, 3.8)	Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu llyfr a straeon digidol y gellir eu defnyddio fel adnoddau i hyrwyddo addysg gyfrwng Cymraeg yn gadarnhaol.	1-28	2-3 blwyddyn
2.9 (1.7, 2.8, 2.12, 2.13, 3.8)	Cysylltu â Hyrwyddwyr a Llysgenhadon yr iaith ar draws y swfydliadau partner i sicrhau neges gyson ynghylch addysg gyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.	1-28	1-2 flwyddyn
2.10 (1.8)	Helpu a chefnogi ysgolion i fodloni gofynion cynlluniau 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus' yn enwedig wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cysylltu gyda chyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac arweinwyr ysgolion y 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.	1-28	1-2 flwyddyn
2.11	Sicrhau bod athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu cynrychioli ar Fforwm Iaith y Sir a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg.	2, 21, 24	1-2 flwyddyn
2.12 (1.7, 2.8, 2.9, 2.13, 3.8)	Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu gwahanol ddulliau o gyfathrebu gwybodaeth i bobl ifanc, gan gynnwys podlediadau, clipiau fideo, cyfryngau cymdeithasol ac ati. i hybu negeseuon positif allweddol, yn enwedig i flynyddoedd ysgol 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 ac addysg bellach.	1-28	1-2 flwyddyn
2.13 (1.7, 2.8, 2.9, 2.12, 5.8)	Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu astudiaethau achos i'w defnyddio i hyrwyddo gyrfaoedd a chyfleoedd trwy'r Gymraeg, gan gynnwys rhai ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd wedi rhoi eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg.	1-28	1-2 flwyddyn

Maes Strategol 3 – Cymunedau

Gweledigaeth

Grwpiau cymunedol a busnesau yn cynyddu ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd.

Canlyniad

Cefnogi grwpiau cymunedol a busnesau a helpu nhw i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg o fewn eu cymunedau.

Dangosyddion

- Nifer y gweithgareddau Cymraeg a drefnir ac a gynhaliwyd o fewn cymunedau ar draws y fwrdeistref sirol.
- Nifer o bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau Cymraeg hynny.

Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

Blaenoriaethau Strategol

- Cefnogi gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da.
- Cefnogi grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith.
- Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- Grymuso preswylwyr a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg pan fydd y gwasanaeth ar gael.

Sefydliadau Partner

1. B I P Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cyngorau Tref a Chymuned
12. Cyngorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

Gweithred		Partneriaid	Statws
3.1 (3.2, 4.1, 4.6, 4.9, 5.1)	Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn meysydd gwasanaeth ac ar draws sefydliadau partner yn gwisgo llinynnau gwddf a neu fathodynau priodol sy'n dangos eu sgil ac i annog y cyhoedd i siarad Cymraeg wrth gyrchu gwasanaethau.	1-28	1-2 flwyddyn
3.2 (3.1, 4.1, 4.6, 4.9, 5.1)	Annog a chefnogi busnesau lleol i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys dosbarthu a hyrwyddo arddangos arwyddion, bathodynau neu linyynnau Iaith Gwaith i annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i fynd ati i gyrchu gwasanaethau trwy'r Gymraeg.	1-28	1-2 flwyddyn
3.3 (4.11)	Creu adnodd ac Ap sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys wasanaethau'r cyngor.	1-28	2-3 blwyddyn
3.4	Y cyngor a'r sefydliadau partner yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad Ffiliffest, gŵyl flynyddol Menter Iaith Caerffili, sy'n dathlu'r Gymraeg a threftadaeth leol.	1-28	1-2 flwyddyn
3.5 (4.3, 4.4)	Sicrhau bod rhaglenni digwyddiadau cymunedol Cyngor Caerffili yn cynnwys gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu cyfleoedd lle bo angen.	1-28	1-2 flwyddyn
3.6 Page: 207	Datblygu Cymunedau Dwyieithog Cyfeillgar - cysylltu ag ysgolion, llyfrgelloedd, busnesau lleol a Helo Blod.	1-28	3-5 blwyddyn
3.7 (1.7, 2.8, 2.9, 2.12, 2.13)	Hyrwyddo addysg Gymraeg a gweithgareddau iaith Gymraeg gyda phobl o grwpiau gwarchoddedig, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac anabled. Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid.	1-28	1-2 flwyddyn
3.8	Gweithio'n rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth rhieni o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sefydliadau partner i gefnogi eu cynnydd gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. Datblygu Digwyddiad 'y Glas' a pheycyn gwybodaeth i rieni sy'n anfon eu plant i ysgol Gymraeg am y tro cyntaf.	1-28	1-2 flwyddyn
3.9	Gweithio'n rhanbarthol i fynd ati i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gymraeg, gan gynnwys pam ein bod yn gwneud hynny, hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn nwyddau a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a byw bywyd bob dydd trwy'r Gymraeg.	1-28	1-2 flwyddyn
3.10	Gweithio gyda Chlwb Busnes Caerffili i godi ymwybyddiaeth busnesau lleol o'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.	1, 5, 6, 7, 8, 20, 21, 23, 25, 28	1-2 flwyddyn
3.11	Y Cyngor, ei wasanaethau a gomisiynir a sefydliadau partner perthnasol i hyrwyddo'r defnydd o'r cynnig gweithredol.	1, 2, 3, 13, 15, 16, 17, 23	1-2 flwyddyn

Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Cymraeg

Gweledigaeth

Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Canlyniad

- Mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.
- Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae grwpiau cymorth iaith Gymraeg wedi'u cynnwys mewn cyfeiriaduron a grwpiau cymunedol a gwirfoddol.
- Mae'r Gymraeg wedi'i hintegreiddio mewn asesiadau effaith a threfniadau cydweithredu.

Dangosyddion

- Nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n cael eu trefnu a'u cynnal mewn cymunedau ledled y fwrdeistref sirol.
- Nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau Cymraeg hynny.
- Nifer o staff sy'n gallu darparu gwasanaethu Cymraeg i'r cyhoedd yn unol â Safonau 127 a 151
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd, a'r canlyniadau iddynt, o ran argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn unol â Safon 147.

Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Strategaeth Mwy Na Geiriau
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir 2019-2022

Blaenoriaethau Strategol

- Y Safonau perthnasol yn cael eu gweithredu.
- Mae uwch reolwyr y cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i'r Gymraeg ac yn deall eu bylchau sgiliau.
- Defnyddio'r Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu, a dogfennau contractio a chomisiynu 3ydd parti.
- Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a sefydliadau partner.

Sefydliadau Partner

1. B I Aneurin Bevan (BIPAB)
2. Blynyddoedd Cynnar
3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4. Cefnogi Pobl
5. Clwb Busnes Caerffili
6. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
7. Coleg Gwent
8. Coleg y Cymoedd
9. Cymraeg i Blant
10. Cymraeg i Oedolion Gwent
11. Cyngorau Tref a Chymuned
12. Cyngorwyr
13. Gwasanaeth Addysg
14. Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15. Gwasanaeth Ieuencid Caerffili
16. Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17. Gwasanaeth Lleoliadau
18. Gyrfa Cymru
19. Heddlu Gwent
20. Helo Blod
21. Menter Iaith Caerffili
22. Mudiad Meithrin
23. Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24. Pob Ysgol CBSC
25. Prifysgol De Cymru
26. Y Rhwydwaith Rhieni
27. Y Sector Wirfoddol - CMGG
28. Yr Urdd

Gweithred		Partneriaid	Statws
4.1 (3.1, 3.2, 4.6, 4.9, 5.1)	Annog pob maes gwasanaeth o fewn y cyngor i ddefnyddio llinynnau gwddf a bathodynau iaith Gwaith (Safon 68) er mwyn hysbysu defnyddwyr gwasanaethau bod gwasanaeth Cymareg ar gael.	1-28	1-2 flwyddyn
4.2	Gwella darpariaeth gwasanaeth yn dilyn adborth neu gwynion a dderbyniwyd.	23	2-3 blwyddyn
4.3 (3.5 & 4.4)	Y cyngor i fapio yr holl gyllid derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allanol i ddarparu gweithgaredau (Holiday Hunger Club, Haf o Hwyl ac ati.) a mapio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.	2, 15, 16, 17, 23	1-2 flwyddyn
4.4 (3.5 & 4.3)	Wrth gynllunio gweithgareddau, dylid ystyried y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn lle bo angen.	1-28	1-2 flwyddyn
4.5	Pob maes gwasanaeth y cyngor i logio/cofnodi manylion pan fydd aelod o'r cyhoedd yn nodi ei fod yn dymuno i'w holl alwadau ffôn gael eu cynnal trwy gyfrwng Cymraeg (Safon 21).	23	1-2 flwyddyn
4.6 (3.1, 3.2, 4.1, 4.9, 5.1)	Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cwrdd â gofynion y cynnig cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r awdurdod lleol yn Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy gyfathrebiaeth ysgrifenedig.	1-28	1-2 flwyddyn
4.7	Gwella gwaith partneriaeth rhanbarthol rhwng meysydd gwasanaeth y cyngor a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.	1-28	1-2 flwyddyn
4.8	Sefydliadau partner a'r cyngor i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo gwerth y Gymraeg.	1-28	1-2 flwyddyn
4.9 (3.1, 3.2, 4.1, 4.6, 5.1)	Annog busnesau a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynau a llinynnau gwddf iaith Gwaith ac i ddatblygu delwedd ddwyieithog.	1-28	1-2 flwyddyn
4.10	Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg presennol yr holl sefydliadau partner e.e. llinellau ffôn, peiriannau hunanwasanaeth ac ati.	1-28	1-2 flwyddyn
4.11 (3.3)	Creu adnodd ac Ap sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys wasanaethau'r cyngor.	1-28	2-3 blwyddyn
4.12 (5.9)	Y cyngor a sefydliadau partner i gynnal archwiliad sgiliau ieithyddol o'u staff i ddeall pa allu sy'n bodoli gan ddefnyddio lefelau ALTE. Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pe bai unrhyw fylchau yn cael eu nodi.	1-28	2-3 blwyddyn
4.13	Ymgorffori camau gweithredu yn Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CAP) ac Asesiadau Perfformiad Cyfadranau (DPAs) y Cyngor.	23	1-2 flwyddyn

Maes Strategol 5 – Y Gweithle

Gweledigaeth

Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Canlyniad

Nifer a chanran cynyddol uwch o'r gweithlu yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Dangosyddion

- Y nifer o staff a gyflogir gan bartneriaid sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg.

Strategaethau Perthnasol –

- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-2024 Cyngor Caerffili

Blaenoriaethau Strategol

- Cynyddu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr lleol.
- Cynyddu'r wybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff sy'n gweithio o fewn y cyngor a sefydliadau partner.
- Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle.
Perchnogaeth: perchen gyda morgais neu	27,660	2907	24,753

fenthyciad neu berchnogaeth a rennir			
Rhent neu rent byw am ddim yn llawn	22,631	1812	20,819
Rhent: rhent cymdeithasol	13,962	878	13,084
Rhent: rhent preifat neu rhent byw am ddim	8669	934	7,735

11. Gweithgareddau Cymunedol a Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ganlyniadau arolwg 'Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru' (yr Arolwg Defnydd). Hefyd, yn 2015 cyhoeddodd Prifysgol Bangor ganlyniadau eu hastudiaeth ymchwil ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yng Nghymru. Mae'r ddwy astudiaeth hon yn rhoi data a darlun gwerthfawr o'r ffordd y mae pobl yn defnyddio'r iaith.

Rhwng arolwg defnydd 2004-6 ac un 2013-15, mae Caerffili wedi gweld cynnydd o 1000 o siaradwyr rhugl a chynnydd o 8,900 o siaradwyr sydd ddim yn rhugl.

Mae'r Arolwg Defnydd yn dangos mai pobl rugl sydd fwyaf tebygol o fod yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd. Hefyd, yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae siaradwyr Cymraeg rhugl ddwywaith yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn Gymraeg na phobl sydd ddim yn rhugl.

Er y cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Caerffili, mae'r Arolwg Defnydd yn dangos bod canran y bobl yn yr ardal sy'n siarad y Gymraeg bob dydd wedi gostwng o 46% i 38%.

Yn ardal Caerffili a'r De Ddwyrain i gyd, er bod llawer o'r ymatebwyr yn dweud bod y Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd, roedd mwyafrif y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref neu gyda ffrindiau. Yn yr ardal yma felly mae Menter Caerffili wedi datblygu cyfleoedd y tu hwnt i hynny. Yn sgil y cyfleoedd hyn i ddefnyddio'r Gymraeg mewn

rhyngweithiadau/cyswllt anffurfiol o ddydd i ddydd mewn cylchoedd ehangach na'r siaradwyr Cymraeg rydyn ni'n eu hadnabod golyga bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio ar lefel gymunedol. Mae hyn yn ei dro y gallwn sicrhau cynnydd mewn defnydd.

Yr her i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid, felly, yw targedu ymdrechion i'r meysydd ehangach hyn; sefydlogi ac ehangu cyfleoedd i siaradwyr rhugl; datblygu hyder pobl sydd ddim yn rhugl a hwyluso dulliau o'u cynnwys; hyrwyddo defnydd pellach mewn gweithleoedd ac o ran sefydliadau a busnesau sy'n wynebu'r cyhoedd i'w gwneud hi'n haws defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd anghyfarwydd neu newydd.

Y Gymuned

Yn y De Ddwyrain, lle mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ym mhob cymuned ddaeryddol, mae cynnal a hwyluso cymunedau o siaradwyr Cymraeg ar draws pob ystod oedran yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.

Mae sawl ystyr i gymuned pan fyddwn ni'n sôn am siaradwyr Cymraeg wrth gwrs. Mae cymuned yn fwy na lleoliad daeryddol, mae'n bodoli ar draws ffiniau ardal a rhanbarth, a bellach gyda chyfryngau cymdeithasol, gellid dadlau nad oes ffiniau i gymuned Gymraeg o'r fath. Mae'r Gymraeg yn rhywbeth sy'n uno pobl yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'n nodwedd ychwanegol o hunaniaeth sy'n creu cyswllt rhwng pobl ac sy'n sbarduno gweithgaredd a rhyngweithio.

Mae ymchwil wedi dangos bod sawl ffactor yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned. Yn gyntaf, er bod gan yr iaith statws swyddogol, mae'n iaith leiafrifol ac nid yw'n amlwg felly fel iaith gymunedol yn yr ardal hon. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu prinder cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ffactor amlwg arall yw hyder pobl i ddefnyddio'r iaith ac a yw pobl wedi arfer defnyddio'r Gymraeg – fe wyddom fod pobl sydd ddim yn rhugl yn llai tebygol o siarad Cymraeg bob dydd a mynychu digwyddiadau Cymraeg.

Wrth i Fenter Caerffili cynnal gwaith ymchwil ac ymgynghoriadau diweddar er mwyn cadarnhau beth fyddai'n helpu i ehangu defnydd o'r

Gymraeg yn y gymuned, roedd nifer o ymatebion o bobl leol yn adleisio'r themâu canlynol:

- Mwy o weithgareddau teuluol a chymdeithasol
- Cefnogaeth yn y gweithle i ddatblygu sgiliau Cymraeg
- Modd o adnabod siaradwyr Cymraeg mewn siopau, banciau, meddygfeydd ac ati, gyda bathodynau iaith gwaith er enghraifft
- Canolfan leol i bobl gymdeithasu yn Gymraeg
- Mwy o amlygrwydd ar y we – ar wefannau a gydag apiau
- Creu cyfeirlyfr o wasanaethau/siopau/caffis ac yn y blaen lle mae modd cael gwasanaeth yn Gymraeg
- Rhai yn dweud mwy o ddigwyddiadau yn ystod y dydd ac eraill yn dweud bod angen mwy o ddigwyddiadau y tu allan i oriau gwaith.
- Cyfleoedd i bobl 20-40 oed gwrdd a chymdeithasu

Darpariaeth i blant a theuloedd

Mae gan y Fenter rhaglen cynhwysfawr wythnosol, misol ac yn ystod y gwyliau ysgol ar gyfer plant oedran cynradd a'u teuloedd. Darperir rhan o'r rhaglen hon ar y cyd â partneriaid neu yn annibynol. Mae'r rhaglen arferol yn cynnwys:

- Sesiynau Sblash a Chân i rieni a babis
- Gweithdai amrywiol ar ol ysgol ac yn ystod y gwyliau megis celf a chreffft, coginio, animeiddio, lego, cartwnio
- Digwyddiadau i deuluoedd megis Miri Meithrin, Picnic yn y Parc, gweithgareddau awyr agored
- Teithiau
- Sgwad Sgwennu
- Rhaglen o gyfleoedd digidol megis clybiau a gweithdai gemau fideo, datblygu cynnwys, animeiddio

Partneriaid allweddol:

- Cymraeg i Blant
- Celf Ar y Blaen
- Cyngor B.S.Caerffili – Adran Hamdden a Datblygu'r Celfyddydau

Y Siarter Iaith

Erbyn hyn, mae'r Siarter Iaith yn weithredol ar draws ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg y Sir gyda'r 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i ddilyn y Siarter a'i egwyddorion. Bwriad y Siarter yw cefnogi disgyblion ac ysgolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol, wrth chwarae ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae gan bob ysgol targedau er mwyn cyrraedd lefelau Efydd, Arian ac Aur y Siarter ac mae modd mesur effaith y Siarter ar ddefnydd iaith disgyblion yn flynyddol. Mae gan y Fenter rôl allweddol wrth gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Er mwyn cefnogi'r ysgolion gyda'r gwaith hwn, mae'r Fenter wedi bod wrthi'n cynnal gweithdai a chlybiau digidol yn rhai o'r ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi'n gwaith o ddatblygu cymuned cyfrwng Cymraeg ar-lein gan annog plant a phobl ifanc i greu cynnwys ar-lein yn Gymraeg a rhwydweithio yn Gymraeg ar-lein. Yn ogystal, bu'r Fenter yn gweithio mewn partneriaeth â'r mudiad Celf Ar y Blaen er mwyn gweithredu prosiect darllen cyffrous newydd a oedd yn plethu llenyddiaeth cyfrwng Cymraeg gyda technoleg.

Darpariaeth i Bobl Ifanc

Ers 2002, mae'r Fenter wedi cyd-cyflogi a chyd-ariannu Swyddog Ieuenctid gyda'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili. Golyga hwn ein bod yn medru cynllunio gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn strategol. Mae'r Swyddog Ieuenctid yn cefnogi'r unig Glwb Ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn y Sir a ariennir gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili yn ogystal a chefnogi siaradwyr Cymraeg ifanc sy'n derbyn addysg trwy rhaglenni addysg tu allan i'r ysgol. Mae'r Swyddog Ieuenctid hefyd yn cydweithio â staff y Fenter er mwyn cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg a threfnu rhaglen o weithgareddau yn ystod y gwyliau ysgol.

Mae ein Swyddog Datblygu Digidol hefyd yn darparu rhaglen sylweddol o gyfleoedd digidol i bobl ifanc gan gynnwys clybiau wythnos a misol, gweithdai creu cynnwys ac adeiladu PC, teithiau i ddigwyddiadau digidol yn ogystal a chystadleuaethau o fewn twrnamentau e-chwaraeon.

Yr Urdd

Urdd Gobaith Cymru yw 'r mudiad ieuenctid gwirfoddol mwyaf yng Nghymru ac yn eithriadol bwysig wrth gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg gyda dros 56,000 o aelodau. Sefydlwyd yr Urdd yn 1922, a'r nod yw rhoi cyfleoedd i bob person ifanc yng Nghymru (8-25 oed) trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u grymuso i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau ac i Gymru. Am bron i ganrif mae'r Urdd wedi canolbwyntio ar roi profiadau anhygoel i bobl ifanc trwy'r Gymraeg, er mwyn iddyn nhw feithrin agweddau cadarnhaol tuag ati, a'i throsglwyddo i'w plant eu hunain.

Mewn cyfnod o newid fel hyn nid yw'n berthnasol rhoi'r wybodaeth am y gwasanaeth cyn Covid19, roedd swyddogion wedi eu lleoli ymhob ardal cyn cyfnod hwn, bydd yr Urdd yn cyfathrebu a chydweithio'n agos gyda nifer fawr o bartneriaid gan gynnwys y Mentrau Iaith a mudiadau wrth ail adeiladu gwasanaethau ar ôl y cyfnod hwn.

Bydd y cynlluniau ail-adeiladu yn cynnwys:-

- Ail adeiladu'r rhwydwaith cenedlaethol o swyddogion cymunedol i gynnal darpariaeth chwaraeon, celfyddydau a chymunedol ym mhob awdurdod lleol.
- Ehangu darpariaeth Prentisiaethau mewn cyfnod heriol yn economaidd i gynnig cymwysterau a chyflogaeth yn y Gymraeg.
- Cynnal Eisteddfod T ddigidol gwell a mwy ym Mai 2021 a gosod y seiliau i gynnal Eisteddfod Canmlwyddiant yr Urdd mewn cas yn 2022.
- Ail gychwyn, yn unol â chyfyngiadau COVID, cyfnodau preswyl, mewn gweryslyoedd ar ei newydd wedd yn dilyn buddsoddiad cyfalafol i'w uwchraddio.
- Paratoi ar ddathliadau canmlwyddiant yr Urdd a nifer fawr o ddigwyddiadau cyffrous ar draws Cymru a fydd yn ehangu'r cyfleoedd plant a phobl Ifanc I ddefnyddio'r Gymraeg.

Ffermwyr Ifanc

Daw Sir Caerffili o dan aelodaeth Gwent gyda 256 o aelodau dros 6 clwb o fewn ardal. Mae tua 14 o rhain yn medru ar y Gymraeg, er nid dyma eu hiaith gyntaf. Mae nifer o golegau o fewn yr ardal yn cynnig cyrsiau Cymraeg, ac tri Ysgol Uwchradd o fewn yr ardal. Er ni fedrai nifer o aelodau siarad yr iaith, mae nifer yn awyddus i'w ddysgu o fewn yr ardal yma gyda 3 aelod o glwb Frynbuga eisoes wedi ymuno a'r clwb darllen i ddysgwyr sy'n cael ei rhedeg gan CFFI Cymru. Ceir yn sicr gyfle i greu cysylltiadau gwell rhwng y Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith a Swyddogion yr Urdd.

Oedolion

Mae gan Menter Caerffili darpariaeth amrywiol i oedolion sy'n cynnwys darpariaeth misol ac wythnosol. Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth yn annibynol o bartneriaid eraill yn sgîl cyfyngiadau ariannol ond hefyd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gyrff eraill. Yn ystod y cyfnodau clo mae'r ddarpariaeth wedi parhau yn ei gyfanrwydd ond trwy platfformau digidol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys dosbarthiadau a gweithdai amrywiol megis coginio, trefnu blodau, celf, yoga, ffitrwydd, lles, sgiliau digidol
- Clwb Cerdded wythnosol
- Cyfleoedd i wirfoddoli ar draws gwasanaethau'r Fenter
- Sesiynau sgwrsio wythnosol a misol
- Teithiau
- Clybiau darllen
- Clwb Garddio
- Nosweithiau cymdeithasol
- Cefnogaeth i unigolion ynysig a bregus
- Gŵyl Ffiliffest

Merched y Wawr

Mae gan MyW un gangen yn y sir sef Cangen Cwm Rhymni gyda 22 o aelodau. Mae ganddynt raglen amrywiol iawn o gyfarfodydd, nosweithiau

gymdeithasol, teithiau a sgysiau. Yn ystod y cyfnodau clo, mae'r Fenter wedi bod yn hwyluso cyfarfodydd dros Zoom ar ran y gangen.

Dysgwyr

Mae darparu gweithgareddau i ddysgwyr y Gymraeg wedi bod yn flaenoriaeth i'r Fenter ers y cychwyn. Erbyn hyn mae gan y Fenter nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n dibynnu ar y Fenter am gyfleoedd i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac i gwrdd â dysgwyr eraill. Darperir boreau coffi wythnosol, Sadyrnau Siarad yn fisol a dau Glwb Darllen yn fisol. Yn ogystal trefnir nifer o ddigwyddiadau yn arbennig ar gyfer dysgwyr yn ystod y flwyddyn megis nosweithiau cwis, teithiau cerdded a chylch cinio achlysurol. Trefnir taith flynyddol er mwyn cynnig cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yr ardal i ymweld ag ardal wahanol o Gymru wrth ddefnyddio'u Cymraeg. Mae'n bwysig nodi bod y Fenter wedi derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad diffuant oddi wrth ddysgwyr y sir ers cychwyn y Fenter ac erbyn hyn mae grŵp craidd o ddysgwyr yn mynychu pob gweithgaredd a gynigir. Mae'r Fenter hefyd yn gweithio'n agos â Dysgu Cymraeg Gwent wrth lunio ei raglen o gyfleoedd i

ddysgwyr ac er mwyn sicrhau fod rhaglen amrywiol o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr y Sir. Mae gan y Fenter rôl allweddol wrth ddarparu pont i ddysgwyr i fewn i'r gymuned cyfrwng Cymraeg lleol a chefnogaeth ar hyd y daith honno.

Mudiadau a sefydliadau eraill

- Cwmni Drama CwmNi
- Papur Bro Cwm Ni
- Grwp Dysgwyr Dan y Graig, Rhisga
- Cylch Llen Bro Elyrch
- Capeli cyfrwng Cymraeg : Bryn Seion, Ystrad Mynach; Bethel, Caerffili a Thonyfelin, Caerffili
- Côr CwmNi
- Eisteddfod y Cymoedd

Cymuned ar-lein cyfrwng Cymraeg

Rhwydwaith cymunedol arall wrth gwrs yw un nad yw'n ddaearyddol ei natur fel nodwyd uchod. Mae'n werth crybwyll arferion siaradwyr Cymraeg o safbwynt eu defnydd o'r iaith ar y we, naill ai fel cyfrwng cyfathrebu rhwng teulu a ffrindiau neu'n ehangach o safbwynt y defnydd posibl y gall y Fenter ac eraill ei wneud o gyfryngau cymdeithasol wrth gyfathrebu a hyrwyddo.

Yn ôl astudiaeth ymchwil Prifysgol Bangor *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned*, nodir bodolaeth cymuned Gymraeg ar-lein 'fel lleoliad newydd i ddefnyddio iaith a datblygu rhwydweithiau ieithyddol ehangach'.

Mae'r Arolwg Defnydd hefyd yn talu sylw i gyfryngau cymdeithasol yng nghyd-destun defnydd, gan nodi mai ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth anfon negeseuon testun a bod rhwng 12-18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Twitter a Facebook yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae byd technoleg yn faes allweddol i hwyluso'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r Fenter wedi adnabod potensial cyfryngau newydd i ddenu cynulleidfaoedd Cymraeg drwy e-chlysur a defnydd o survey monkey er enghraifft i gasglu barn ar anghenion. Mae'n bwysig parhau i ymestyn dulliau cyfathrebu ymhellach ee Twitter, Snapchat ac yn y blaen gan fod sicrhau digon o opsiynau cyfathrebu yn galluogi pobl ifanc i ymateb yn well i'r hyn maen nhw'n ei ddefnyddio ac wedi arfer ag ef i gyfathrebu.

Yn ogystal, mae'r Fenter wedi datblygu darpariaeth cyfleoedd digidol sylweddol i blant a phobl ifanc ac wedi creu cymuned ar-lein cyfrwng Cymraeg lleol. Mae'r ddarpariaeth hon yn allweddol o safbwynt sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol i bobl ifanc ac ein bod yn medru cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl leol dilyn eu diddordebau a chysylltu â siaradwyr Cymraeg eraill.

12. Astudiaethau Perthnasol

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Rheolaeth effeithiol gan ymddiriedolwyr a staff gweithgar • Gwirfoddolwyr brwd a phrofiadol • Cynrychioli anghenion lleol • Gweithio mewn partneriaeth â thrawstoriad o fudiadau a sefydliadau eraill • Aelod o rwydwaith cenedlaethol y Mentrau Iaith • Llwyddo i ddenu nawdd sylweddol yn flynyddol ar gyfer cymunedau'r sir • Datblygu gwasanaeth gofal hunangynhaliol sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol • Creu swyddi lleol • Dealltwriaeth ddwys o natur ieithyddol y sir 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim digon o adnoddau i ehangu'n bellach • Diffyg adnoddau ariannol a dynol mewn rhai meysydd gweithgaredd • Diffyg cyllideb hyfforddiant • Diffyg cyllideb marchnata • Angen cryfhau proffil cyhoeddus, delwedd a dulliau marchnata a hyrwyddo • Cynnig gwasanaeth er mwyn llenwi bwlch a chwrdd ag angen heb fuddsoddiad ariannol digonol gan y corff a ddylai fod yn darparu'r gwasanaeth
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> • Arian Ewropeaidd hyd 2021 • Tendrau • Gwerthu gwasanaethau • Cryfhau perthynas gydag adrannau amrywiol yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru • Sicrhau rhagor o gytundebau lefel gwasanaeth • Partneriaethau newydd • Cydweithio ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol gyda Mentrau Iaith eraill • Cronfeydd newydd ariannol • Datblygu'r gwefan a dulliau marchnata • Cynyddu nifer ein defnyddwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Staff yn symud ymlaen a'r Fenter yn colli profiad, sgiliau ac arbenigedd • Cynlluniau grant yn dod i ben • Colli aelodau profiadol o'r Bwrdd Rheoli • Cystadleuaeth gynyddol am gyllid • Diffyg cefnogaeth wleidyddol yn genedlaethol ac ar lefel lleol i dwf y Gymraeg. • Lleihad yn y galw am ein gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm, yn arbennig Gofal Plant • Effaith COVID-19

Dadansoddiad PEST

<p>Gwleidyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim gymaint o ffocws gwleidyddol ar effaith Brexit ar gymunedau Cymru • Ansicrwydd parhaus i ddyfodol y Gymraeg • Ffocws ar etholiad nesaf Senedd Cymru cyfleoedd a bygythiadau • Potensial am gonsensws gwleidyddol i'r Gymraeg a gweledigaeth i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg • Canlyniad etholiadau nesaf Senedd Cymru, un blaid yn arwain neu clymbleidio • Etholiadau nesaf Llywodraeth Leol • Mesur y Gymraeg 2011 – normaleiddio defnydd o'r Gymraeg • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • agwedd negyddol gan adrannau o Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru tuag at y Gymraeg a gwaith y Fenter 	<p>Economaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith dirwasgiad ar gymunedau Cymru • Effaith Covid-19 ar economi yr ardal. • Effaith posib o economi ardaloedd eraill y DG yn adfywio yn gyflymach nac economi Cymru • Lefel cyflogau cyfartaledd • Tlodi gwledig a trefol a newidiadau mewn mathau o dlodi h.y. cyfartaledd cyflog byw • Prisiau tai a'i fforddadwyedd • agwedd negyddol gan cyllidwyr tuag at fuddsoddi yn y Gymraeg • cyfleoedd UE i ariannu cynlluniau newydd y ystod y cyfnod byr dymor • Ansicrwydd ynghylch cyllid a rhaglenni cronfeydd strwythurol i olynu arian yr UE • Sgil effeithiau llymder, ar yr economi a gwasanaethau lleol • Cyfleoedd i fwydo mewn i raglenni economaidd rhanbarthol a'r economi sylfaenol. • Cyfleoedd i greu a datblygu mentrau economaidd a chymdeithasol
<p>Cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Poblogaeth Cymru / yr ardal yn heneiddio • Effaith mewnfudo pobl hŷn ac allfudo pobl ifanc • Argaeledd arweinwyr cymunedol • Awydd yn lleol i ddefnyddio ac ymfalchïo yn y Gymraeg • Agwedd negyddol tuag at y Gymraeg • Mewnfudo gan di-Gymraeg • dim defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr • Amrywiaeth o fewn sefydliadau gwirfoddol a defnydd o'r Gymraeg oddi mewn iddynt • Cyfleoedd cymdeithasol • Cyfleoedd gwirfoddoli • Sut mae pobl iau yn cymryd rhan • Ffocws ar newid agweddau a dylanwad ffactorau sydd yn gysylltiedig a'i gilydd. • Dylanwad posib Covid-19 ar weithgareddau y dyfodol 	<p>Technolegol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnydd o dechnoleg ar draws rhychwant oedran • Cynnydd mewn cymhwysedd digidol o ganlyniad i Covid-19 • Rhwydweithiau cymdeithasol • Adnoddau sydd ar gael • Rheoliadau a cyfyngiadau megis GDPR o ran ysgogiad i gydweithio a rhannu gwybodaeth • Yr isadeiledd TG o fewn yr ardal • Sgiliau digidol - cynnydd ond bylchau mewn sgiliau digidol rhai grwpiau yn enwedig grwp oedran 50+ • Cyfle i ddatblygu mentrau newydd yn seiliedig ar dechnoleg • Defnyddio technoleg i leihau costau

5. Casgliad

Mae'r proffil hwn wedi dwyn ynghyd

- prif ystadegau siaradwyr Cymraeg yr ardal hon
- y prif ofynion statudol sy'n berthnasol i bartneriaid allweddol y Fenter
- nifer o ganfyddiadau ymchwil o safbwynt patrymau defnydd siaradwyr Cymraeg yr ardal
- canlyniadau yr arolwg a gynhaliwyd sy'n amlgu profiadau amrywiaeth o fudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod cyfnod clo cyntaf COVID-19

Drwy edrych ar y prif negeseuon sy'n deillio o brofiadau pobl yn yr ardal ochr yn ochr â'r data swyddogol, mae anghenion sawl maes yn dod i'r amlwg:

- yr angen am fwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol (o faes hamdden, i fyd gwaith)
- yr angen am fwy o gyfleoedd i gynyddu hyder ac ehangu defnydd siaradwyr Cymraeg di-hyder a dysgwyr mewn sefyllfaoedd newydd
- yr angen i gyflogwyr gydnabod gwerth y Gymraeg i'w gweithleoedd a sicrhau cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg
- yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg yn y gymuned er mwyn hybu defnydd ehangach – yn glywadwy ac yn weladwy (er enghraifft drwy ddefnyddio bathodynau ac arwyddion iaith Gwaith).

Mae gwaith Menter Caerffili yn seiliedig ar adnabyddiaeth dda o'i chymunedau ac anghenion ei chymunedau ac mae'n meddu ar greadigrwydd a hyblygrwydd o ran mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Mae gallu gan y Fenter i ymateb yn arloesol i anghenion lleol drwy brosiectau â phartneriaid ac ar draws sawl sector, fel y gwelir gyda Ffiliffest a chynlluniau lleol.

Agwedd arall sydd yn dod i'r amlwg yng ngwaith y Fenter yw nid ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru yn unig mae'n gwneud, ond mae'r gweithgareddau/gwasanaethau a ddarperir gan y Fenter hefyd yn cryfhau ac yn cyfoethogi'r hyn sy'n digwydd yn statudol ar lefel leol i hybu'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymateb i Safonau'r Gymraeg, Cymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Mwy na Geiriau – lluo o ofynion ynglŷn â gwella gwasanaethau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Felly, ni fu amser gwell i bwysleisio pwysigrwydd, cryfder ac arbenigedd y Fenter a'i phartneriaid fel ffynhonnell o gyngor ac arweiniad.

Mae cyfle gan bartneriaid a chyrff i droi at y Fenter i gyd-gynllunio'n strategol ar draws nifer o sectorau i hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd, gyda chyfleoedd am gydweithio ar draws sawl maes, ee:

- Addysg
- Gwasanaethau ieuenctid
- Hamdden
- Iechyd a Gofal
- Trechu tlodi
- Datblygu economaidd
- Gwaith a sgiliau
- Gwirfoddoli

Nod cynnwys y proffil hwn yw amlygu'r anghenion sy'n codi er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg yn y cymunedau ar draws yr ardal hon. Nid at sylw'r Fenter yn unig yw'r proffil hwn. Mae'n crynhoi yr hyn sydd angen digwydd ar lefel ehangach na'r Fenter ei hun, er mwyn creu sefyllfa gryfach i'r Fenter allu parhau i ddatblygu ac ehangu ei darpariaeth yn y ffordd mwyaf strategol ac effeithiol.

Atodiad C - Strategaeth y Gymraeg Ddrafft Bwrdeistref Sirol Caerffili 2022-27

Adroddiad Ymgysylltu

Cyflwyniad a Chyd-destun

Yn unol â gofynion Safon y Gymraeg 145 o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 mae gan Gyngor Caerffili [Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 ar waith](#). Mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu i hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae ein strategaeth bresennol yn adeiladu ar ein llwyddiannau yn y gorffennol i ddiwallu anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol a bodloni gofynion deddfwriaethol. Mae'r camau gweithredu yn y Strategaeth yn ystyrlon, yn briodol ac yn gyraeddadwy i bawb dan sylw ac fe'u rhennir yn chwe Maes Strategol:

1. Y Teulu
2. Plant a Phobl Ifanc
3. Cymunedau
4. Gwasanaethau Cymraeg
5. Y Gweithle
6. Seilwaith (Polisiau ac Arferion)

Gan adeiladu ar ein hymrwymiad parhaus, mae Strategaeth y Gymraeg wedi'i hadolygu a'i diweddarau ar gyfer 2022-2027. Mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau casglu tystiolaeth ac ymgysylltu cyn ymgynghori i ddatblygu cyfres ddiwygiedig o gamau gweithredu o Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd ddrafft 2022-2027. Bydd y camau hyn yn ein galluogi i gynllunio sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith yn lleol i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

- Adolygiad o ofynion deddfwriaethol
- Adolygiad o adroddiadau a chanllawiau allanol, gan gynnwys '**Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026**' Llywodraeth Cymru, a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg '**Safonau'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg**'
- Adolygiad o Strategaeth y Gymraeg pum mlynedd bresennol y Cyngor 2017-2022
- Dadansoddiad o setiau data lleol a chenedlaethol
- Ymgysylltu â rheolwyr darparu gwasanaethau o fewn y Cyngor
- Ymgysylltu â Fforwm Iaith Gymraeg Caerffili a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg

Methodoleg (Yr hyn a wnaethom)

Gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu mewn dau gyfnod penodol:

Cyfnod 1 – ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid i adolygu'r camau gweithredu drafft ac awgrymu gwelliannau

Cyfnod 2 – ymgynghoriad ffurfiol i geisio barn trigolion, aelodau etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r camau gweithredu drafft.

Mae'r rhain i'w gweld isod:

Cyfnod 1 - Grwpiau Ffocws Rhanddeiliaid

Trafodwyd y Cynllun Gweithredu drafft o fewn y Strategaeth yn fanwl drwy nifer o drafodaethau grwpiau ffocws.

Diben y grwpiau ffocws oedd rhoi cyfle i rhanddeiliaid allweddol drafod y camau gweithredu drafft a amlinellwyd, nodi a oedd unrhyw beth ar goll neu a oedd angen adolygu unrhyw beth neu ei uno â gweithred arall.

Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws yn ystod mis Medi ac roeddent yn ymdrin â'r canlynol:

Grŵp 1 – Plant a Phobl Ifanc	Dydd Iau 16 Medi - 10:30 – 12:00
Grŵp 2 – Y Gymuned	Dydd Iau 16 Medi - 13:30 – 15:00
Grŵp 3 – Y Teulu	Dydd Llun 20 Medi - 13:30 – 15:00
Grŵp 4 – Gwasanaethau a Gweithlu'r Gymraeg	Dydd Mawrth 21 Medi - 10:30 – 12:00

Mae rhestr lawn o rhanddeiliaid allweddol ar gael yn **Atodiad 1**.

Mae'r dull hwn wedi helpu i nodi camau gweithredu ystyrlon i alluogi'r cyngor i gyflawni yn erbyn gofyniad Safon 145 ac yn unol â'r tair thema a amlinellir yn '**Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026**', Llywodraeth Cymru, sef:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

Er mwyn galluogi pawb a oedd am roi eu barn i gymryd rhan, roedd yr holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog ac roedd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob grŵp ffocws. Anfonwyd yr wybodaeth am y grwpiau ffocws drwy wahoddiad i'r holl rhanddeiliaid allweddol.

Dylid nodi bod Grŵp Ffocws 3 wedi'i uno â Grŵp Ffocws 4 oherwydd niferoedd isel a bod y camau gweithredu ar gyfer y ddau Faes Strategol yn debyg.

I weld yr ymatebion a wnaed yn ystod y grwpiau ffocws, gweler **Atodiad 2**.

Y camau nesaf

Ystyriwyd canlyniadau trafodaethau'r grwpiau ffocws ochr yn ochr ag adborth gan staff a rheolwyr gwasanaethau a helpodd i lywio Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd ddrafft ddiwygiedig 2022-2027, cyn cael eu hystyried yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Cyfnod 2 – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng 20 Hydref a 24 Tachwedd 2021.

Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol yn ceisio nodi:

- A fydd y camau a amlinellir yn helpu i fodloni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Cymunedau, Gwasanaethau'r Gymraeg, y Gweithle a Seilwaith (Polisiau ac Arferion)
- Rhesymau dros anghytuno ag unrhyw un o'r camau a amlinellir
- Awgrymiadau ar gyfer unrhyw gamau ychwanegol y dylid eu cynnwys i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- Unrhyw farn ar yr effaith y byddai'r cynllun gweithredu drafft hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg

Gellir dod o hyd i gopi o'r arolwg yn **Atodiad 3**

Er mwyn galluogi pawb a oedd am roi eu barn i gymryd rhan, roedd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael yn ddwyieithog ac mewn amrywiaeth o fformatau. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd ac roedd ar gael ar draws ystod o lwyfannau. Holiadur ar-lein oedd y prif offeryn ymgynghori ond roedd copïau papur ar gael hefyd.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Preswylwyr a'r gynulleidfa ehangach - Er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl, amlygwyd yr ymgynghoriad ar dudalen flaen gwefan y Cyngor gyda dolen yn uniongyrchol i'r dogfennau ymgynghori ac arolwg ar-lein. Roedd fersiwn papur o'r arolwg hefyd ar gael i'w argraffu o'r Wefan neu ar gais mewn amrywiaeth o fformatau.
- Roedd copïau papur o'r arolwg ar gael yn ein llyfrgelloedd.
- Rhannwyd manylion yr ymgynghoriad drwy ffrwd Twitter a thudalen Facebook y Cyngor
- Cafodd trigolion sy'n siarad Cymraeg e-bost yn uniongyrchol drwy'r Fenter Iaith ac fe'u rhannwyd drwy grwpiau rhanddeiliaid eraill dan sylw a rhwydweithiau ehangach.
- Grwpiau rhanddeiliaid - anfonwyd e-bost yn uniongyrchol at y rhai a wahoddwyd i ymgysylltu â Chyfnod 1/a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â Chyfnod 1 yn ystod

wythnos gyntaf y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Anfonwyd nodyn atgoffa yr wythnos cyn y dyddiad cau.

- Anfonwyd e-bost at feysydd gwasanaeth y Cyngor hefyd yn y dogfennau ymgynghori.

Canlyniadau

Ymatebion a phroffil yr ymatebwyr


At ei gilydd, cwblhaodd 45 o ymatebwyr yr holiadur ar-lein. O'r rhain:

- Nododd 37 eu bod yn drigolion bwrdeistref sirol Caerffili
- Nododd 33 mai Saesneg oedd eu dewis iaith tra bod 4 ymatebydd yn nodi mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith. Dywedodd dau ymatebydd arall eu bod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) heb unrhyw ddewis ar gyfer y naill iaith na'r llall
- Nododd 23 eu bod yn fenywod, a 17 yn ddynion
- Roedd 27 o'r rhai a ymatebodd yn 50+, roedd 12 rhwng 26 a 49 oed ac roedd dau rhwng 16 a 25 oed

Barn ymatebwyr a themâu sy'n dod i'r amlwg

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn teimlo bod y camau gweithredu a amlinellir ym mhob maes strategol yn helpu i fodloni'r canlyniad a fwriadwyd ar gyfer y teulu, plant a phobl ifanc, cymunedau, gwasanaethau Cymraeg, y gweithle a seilwaith (polisiâu ac arferion). Roedd safbwyntiau cymysg mewn perthynas â phob maes fel y dangosir yng Ngraff 1. Roedd ychydig mwy o bobl yn cytuno nag yn anghytuno â'r camau gweithredu ar gyfer y teulu, gwasanaethau Cymraeg a seilwaith ond roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer plant a phobl ifanc, cymunedau a'r gweithle.

Graff 1: A yw'r camau a amlinellir yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir?



Rhesymau dros anghytuno ag unrhyw gamau gweithredu a amlinellir

Gofynnwyd i'r ymatebwyr amlinellu eu rhesymau dros anghytuno ag unrhyw un o'r camau a amlinellwyd ac fe'u crynhoir isod.

Sylwadau cyffredinol

- Targedau afrealistig ar gyfer yr amserlen.
- Nid wyf yn anghytuno fel y cyfryw, gan fod unrhyw ymdrechion i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg i'w canmol, ond credaf fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y gellir cyflawni rhai o'r camau hyn yn realistig.
- Cyfeiriodd nifer o sylwadau at y ffaith bod bwrdeistref Caerffili yn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf

Y Teulu

- Angen ymgysylltu â rhieni newydd yn gynharach (e.e. pecyn babanod gyda babanod newydd-anedig) gan fod llawer yn cael eu hannog i beidio â dewis addysg cyfrwng Cymraeg gan ofni na fyddant yn gallu helpu eu plentyn.
- Ni fydd unrhyw faint o hyrwyddo'n helpu i ddenu siaradwyr Cymraeg newydd os nad oes ganddynt ddiddordeb yn y lle cyntaf. Mae angen i chi hyrwyddo'n gynharach e.e. grwpiau babanod/grwpiau chwarae ac ati.

Plant a Phobl Ifanc

- Nid yw'r strategaeth a amlinellir fel petai'n wahanol iawn i'r strategaeth gyfredol
- Bydd pobl yn parhau i ddefnyddio eu hiaith gyntaf yn y cartref ac yn y gwaith ac mae'n hysbys bod plant ysgol yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth giât yr ysgol neu pan fyddant y tu hwnt i glyw eu hathrawon. Nid oes dim yn y strategaeth fel petai'n debygol o newid hyn

Cymunedau

- Er bod rhai bwriadau da yn y flaenoriaeth strategol hon, megis gwella mewnbwn a darpariaeth y Gymraeg yn ystod digwyddiadau mawr fel y Caws Mawr, marchnadoedd Nadolig, ac ati, er mwyn i unrhyw ran o hyn weithio mae angen hybu ymwybyddiaeth yn aruthrol i bobl hyd yn oed wybod y gallant ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y fwrdeistref ac na fydd hyn ynddo'i hun yn rhwystr.

Gwasanaethau Cymraeg

- Nid yw nifer y cwynion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio yn golygu llawer os nad yw pobl hyd yn oed yn gwybod pa gydymffurfiaeth sydd ei hangen; sut y byddant yn gwybod os nad yw'n cael ei gadarnhau? Rhaid i'r adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg fod yn fwy amlwg, a chael ei hyrwyddo'n ehangach - fersiwn ffeithlun efallai, neu fersiwn wedi'i gwtogi ar gyfer y wefan sy'n wynebu'r cyhoedd? Mae gan siaradwyr Cymraeg yn arbennig ddiddordeb yn y pethau hyn

Y Gweithle

- Nid yw'r strategaeth a amlinellir yn dangos methodoleg fonitro o fewn gweithleoedd ac er fy mod am weld mwy'n defnyddio'r iaith, nid yw'r strategaeth yn dangos cymorth ariannol, yn enwedig i fusnesau bach iawn

Seilwaith (Polisiau ac Arferion)

- Mae hwn yn faes hanfodol bwysig sy'n sail i holl swyddogaethau eraill y Cyngor. Yn anffodus, mae'r Gymraeg yn aml yn cael ei hystyried yn "ychwanegiad" wrth ystyried meysydd gwaith newydd neu wrth adolygu polisiau a gweithdrefnau. *Rhaid* iddi

ddod yn rhan o'r broses gynllunio gychwynnol ar gyfer unrhyw brosiect, nid yn unig o ran ei wneud yn ddwyieithog, ond o ran sut y gall gefnogi'r Gymraeg yn ystyrllon.

Camau Gweithredu Ychwanegol a nodwyd

Nododd yr arolwg nifer o gamau ychwanegol y dylid eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu fel y nodir isod:

Sylwadau cyffredinol

- Dydw i ddim yn gweld dim i helpu dysgwyr Cymraeg i fod yn hyderus wrth siarad a defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt
- Camau i bontio'r bwlch rhwng Cymraeg achlysurol a Chymraeg llenyddol i ddysgwyr gael mwy o afael ar strwythur sylfaenol yr iaith na'r patrymau lleferydd arferol (ond hanfodol) a addysgir ar gyrsiau dysgwyr cynnar.
- Dim sôn am agor mwy o ysgolion Cyfrwng Cymraeg a diffyg recriwtio siaradwyr Cymraeg yn benodol i'r cyngor. Mae annog yn lle gorfodi yn golygu na fydd llawer o gwmnïau'n defnyddio'r Gymraeg.
- Bydd yr iaith yn fwy gweladwy ond nid yw hynny'n golygu y gellir ei defnyddio ymhellach mewn bywyd cyhoeddus os nad yw'r rhai sy'n gweithio gyda'r cyhoedd yn siarad yr iaith.
- Gobeithio y bydd mwy o bobl yn dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio!
- Gobeithio y bydd yn rhoi'r hyder i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod ehangach o sefyllfaoedd. Gobeithiwn hefyd y cânt eu derbyn yn gadarnhaol bob amser hyd yn oed os na all y sawl y siaradir ag ef siarad Cymraeg

Y Teulu

- O ran grwpiau rhieni a babanod, er enghraifft, dylid cyflwyno'r Gymraeg fesul dipyn ac yn aml yn hytrach na grŵp Cymraeg /Saesneg yn unig, er mwyn i rieni ddod i arfer â'r Gymraeg gan bwyll heb gael eu llethu na'u dychryn. Dylid cynnig gwersi Cymraeg i rieni mewn grwpiau bach fel dosbarthiadau nos yn hytrach na grwpiau mawr i fagu hyder yn dysgu a siarad Cymraeg.

Plant a Phobl Ifanc

- Mae'r maes plant a phobl ifanc yn gynhwysfawr iawn ond mae fel petai'n anelu at yr hyn y gall y Cyngor Corfforaethol ei wneud, nid yr hyn y gall Addysg ei hun ei wneud. Mae'r blynyddoedd cynnar yn faes sy'n destun cryn drawsnewid, felly efallai y bydd cyfleoedd yma i ehangu. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ymweld â disgyblion hŷn i ddweud wrthynt am gyfleoedd i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg o ran canllawiau gyrfa, er gallai gwmpasu 2.3
- Plant: Agor mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg i normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae un ysgol uwchradd ledled y sir.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar faterion Hanes Cymru yn y ffordd y cyflwynir Hanes mewn Ysgolion. Gwelsom yn y ffordd y dysgir hanes Prydain yn draddodiadol fod angen iddo edrych yn wahanol efallai, a'i fod yn cael ei ailystyried yn hynny o beth, ar y ffordd y mae Gwladychiaeth a gweithredoedd yn y gorffennol wedi cael effaith andwyol ar lawer o grwpiau lleiafrifol

Cymunedau

- Creu ardaloedd mewn cymunedau lle anogir defnyddio'r Gymraeg ac mae ystod o lefelau yn bresennol i gefnogi dysgwyr

Gwasanaethau Cymraeg

- Byddai tudalen we bwrpasol ar gyfer pob peth Cymraeg yn ddefnyddiol. Gallai hyn gynnwys eitemau newyddion, dolenni i ddogfennau strategol, digwyddiadau, neu gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y fwrdeistref

Y Gweithle

- Gallai'r gweithle gynnwys cyfleoedd mwy anffurfiol fel 'caffi amser cinio' neu gyfarfod cinio' Cymraeg, ar ôl gwaith, neu gyfleoedd cymdeithasol i annog agwedd hwyliog, anffurfiol gan y bydd llawer ohono'n ymwneud â 'chydymffurfio' â'r safonau, felly gallai rhywbeth sy'n awgrymu ei bod yn hwyl fod yn fwy ysgogol na'r neges 'mae'n rhaid i chi'.
- Ddim yn siŵr i mi weld unrhyw beth yn y llwyth o wybodaeth am bosibilrwydd addysgu Cymraeg yn y gweithle yn benodol ynghylch yr eirfa sydd ei hangen ar gyfer y swydd dan sylw ac unrhyw rolau sy'n wynebu'r cyhoedd.
- A ddylid cael rhywbeth ynghylch hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn y sector preifat e.e. drwy'r Fforwm Busnes? A yw busnesau lleol yn hysbysebu eu bod yn gallu rhyngweithio â chwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg, a yw siopau lleol yn amlygu'r ffaith bod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg er enghraifft.

Effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Cafwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â sut y bydd y cynllun yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol. Crynhoir y rhain isod.

- Un broblem barhaus yw disgyblion yn peidio â defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael addysg Gymraeg. Mae pobl yn aml yn colli'r iaith. Mae angen annog pobl sy'n gadael yr ysgol i gefnogi mentrau ar ôl ysgol/prifysgol i helpu disgyblion ifanc a dysgwyr a chadw eu Cymraeg eu hunain yn fyw
- Gobeithio y gall unrhyw beth sy'n ceisio cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg gael effaith gadarnhaol yn unig ar sgiliau a defnydd yr iaith yn y fwrdeistref. Fy mhrif bryder yw gweithredu'r cynllun gweithredu yn barhaus. Mae'n cymryd llawer o ymdrech a gwaith i barhau i hyrwyddo, cefnogi a chynnwys y Gymraeg mewn rhanbarth sy'n draddodiadol yn llai Cymraeg ei iaith.
- Sicrhau bod y deunyddiau a gynhyrchir yn hygyrch i bawb
- Annog mwy o bobl i wisgo bathodynau iaith Gwaith i ddangos i eraill eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Annog busnesau sydd â siaradwyr Cymraeg i gyfarch pobl yn Gymraeg

- Bydd sicrhau bod grwpiau ar gyfer ymarfer siarad ar gael yn rhwydd yn helpu dysgwyr o bob lefel; mae'n debyg mai diffyg hyder i siarad yw un o'r problemau mwyaf i ddysgwyr. Rwy'n gwybod fy mod yn ddysgwr.
- Bydd yn dda i fwy o bobl ddysgu'r Gymraeg a'i bod yn cael ei defnyddio llawer mwy.
- Gobeithio y bydd yn cynyddu lleoedd lle siaredir y Gymraeg, yn cynnal yr iaith i lawer a'i dysgodd yn yr ysgol ac yn normaleiddio ei defnydd o fewn y gymuned.
- Mwy o bobl yn y cymunedau yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â Saesneg
- Drwy ddilyn y cynllun gweithredu, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg. Drwy ddangos arweiniad clir a chryf i'r Gymraeg wrth weithio ar brosiectau ar y cyd â sefydliadau partner, gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol y strategaeth.
- Mae'r cynllun gweithredu yn dda iawn, yn gynhwysfawr ac os gellir ei gyflenwi bydd yn gwneud gwahaniaeth a bydd yn helpu i ehangu'r iaith. Fodd bynnag, gallai rhai effeithiau i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg gynnwys teimlo dan fygythiad neu brinder cyfleoedd yn y farchnad swyddi i beidio â siarad Cymraeg, felly mae'n bwysig dod â'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i mewn, mewn ffordd sy'n annog ac nid yn 'cydymffurfio'.
- Mae angen gwaith ar rai o'r mesurau gan nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni. Er enghraifft, byddai rhai mesurau o fath arolwg ansoddol ynghylch a yw pobl yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac wedi mwynhau digwyddiadau yn hytrach na rhif yn rhoi darlun ehangach o lwyddiant

Sut y gellid newid y cynllun drafft i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg

Ceir crynodeb isod o sylwadau sy'n ymwneud â sut y gellid gwella'r cynllun er mwyn cynyddu effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg:

- Y dylai'r cynllun gweithredu fod yn hyblyg, ac os bydd angen newidiadau, gellir gwneud y rhain yn ystod oes y strategaeth bresennol, yn hytrach nag aros am yr adolygiad.
- cydnabyddiaeth bod hwn yn gynllun hirdymor
- Cael mwy o gyrsiau am ddim ar gael i bobl
- Credaf fod angen llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddod at ei gilydd i ymarfer siarad a gwrando ar y Gymraeg. Yna, pan fyddant yn hyderus gallant ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd pob dydd.
- Mae angen mwy o bwylais ar gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol.
- Ymgyrch o bosib i ddangos manteision cael dwy iaith. Busnes diwylliant teulu treftadaeth lle bynnag y daethoch oddi yno'n wreiddiol. Efallai tynnu sylw at ddefnydd arloesol o'r Gymraeg neu deuluoedd sydd wedi dysgu Cymraeg gyda'i gilydd neu sut mae busnesau'n defnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.
- Dechrau cydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel y byddai pob ysgol yn y pen draw yn sgwrsio yn Saesneg ac yn Gymraeg yn gyfartal ac ni fydd angen ysgolion

gwahanol gyfrwng gyda blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Byddai hyn yn golygu cyllid cyfartal.

- Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n fwy lleol nag o'r blaen gan ein bod yn siarad Saesneg yn bennaf. Drafft yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg a gobeithio mwy o fynediad i gyflogaeth sy'n gofyn am siaradwyr Cymraeg
- gweler uchod. Mae'r ymateb i'r rhai sy'n ceisio cyfathrebu yn Gymraeg yn hollbwysig
- Mae digon o gamau cadarnhaol yn y cynllun gweithredu, nid ydych am newid nac ychwanegu unrhyw beth.
- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn rhwydd ac yn lleol. Sicrhau staff dwyieithog wrth ddarparu gwasanaethau fel nad oes angen unrhyw siaradwr Cymraeg.

Y camau nesaf

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried a chaiff y Cynllun Gweithredu drafft ei ddiwygio yn unol â hynny cyn i fersiwn ddiwygiedig derfynol o Strategaeth y Gymraeg y Cyngor ar gyfer 2022-2027 gael ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022.

Diwygiadau a wnaed i'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar farn ymatebwyr:

Ychwanegu Prifysgol De Cymru fel sefydliad partner

Cam Gweithredu 1.7 – cynnwys hyrwyddwyr a llysgenhadon iaith ar draws sefydliadau partner

Cam Gweithredu 2.1 – cynnwys pob sefydliad partner

Cam Gweithredu 2.6 – cynnwys gwirfoddoli a Gofalu am Gaerffili

Cam Gweithredu 2.8 – Wedi'i aralleirio i: *Datblygu tudalen we ar wefan y Cyngor gyda dolenni i'r holl sefydliadau partner a DEWIS a'r holl adnoddau sydd ar gael.*

Cam Gweithredu 2.10 – cynnwys hyrwyddwyr a llysgenhadon iaith ar draws sefydliadau partner

Cam Gweithredu 2.11 – wedi ychwanegu'r testun canlynol: *Cysylltu â chyflenwi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Siarter Iaith ac arweinwyr ysgolion Cymraeg i Blant.*

Cam Gweithredu 2.13 – pwyslais ar weithio'n rhanbarthol i ddatblygu gwahanol ddulliau o gyfathrebu negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg i flynyddoedd 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11.

Cam Gweithredu 2.14 – pwyslais ar weithio'n rhanbarthol.

Cam Gweithredu 3.1 – ehangu testun i ddweud *ar draws yr holl sefydliadau partner.*

Cam Gweithredu 3.2 – aralleirio i ddweud: *Annog a chefnogi busnesau lleol i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys dosbarthu a hyrwyddo arddangos arwyddion, bathodynau neu laniardau iaith Gwaith i annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i gael at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Cam Gweithredu 3.5 – ehangu testun i gynnwys: *a datblygu cyfleoedd lle mae bylchau.*

Cam Gweithredu 3.7 – testun wedi'i uno â Cham Gweithredu 3.2.

Cam Gweithredu 3.7 – ychwanegu testun: *Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid.*

Cam Gweithredu 3.8 – ehangu testun i gynnwys *gweithio'n rhanbarthol a hefyd Datblygu Digwyddiad 'y Glas' a pheycyn gwybodaeth i rieni sy'n anfon eu plant i'r ysgol Gymraeg am y tro cyntaf.*

Cam Gweithredu 3.9 – Cam Gweithredu Newydd: *Gweithio ar sail ranbarthol i fynd ati i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr iaith Gymraeg, gan gynnwys pam ein bod yn gwneud hynny, hawliau siaradwyr Cymraeg i gael nwyddau a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a byw eu bywyd dyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Cam Gweithredu 3.9 – Cam Gweithredu Newydd: *Gweithio gyda Chlwb Busnes Caerffili i hybu ymwybyddiaeth busnesau lleol am y cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt ddarparu gwasanaeth Cymraeg.*

Cam Gweithredu 4.2 – *cynnwys gweithio mewn partneriaeth.*

Cam Gweithredu 4.6 – *nodi Cynllun Cydnabod Staff y Cyngor.*

Cam Gweithredu 5.3 – *pwyslais ar gweithio'n rhanbarthol.*

Cam Gweithredu 5.8 – Cam Gweithredu Newydd: *Y Cyngor a sefydliadau partner i gynnal archwiliad o sgiliau ieithyddol eu staff i ddeall pa gapasiti sydd ar gael. Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pe bai unrhyw fylchau'n cael eu nodi.*

Cam Gweithredu 5.9 – Cam Gweithredu Newydd: *Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu canllaw arfer da ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol e.e. cyfarchion dwyieithog ar ddechrau cyfarfodydd ac ati.*

Cam Gweithredu 5.10 – Cam Gweithredu Newydd: *Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn rhan o unrhyw broses ymsefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd.*

Cam Gweithredu 5.11 – Cam Gweithredu Newydd: *Datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i gefnogi ymrwymiad y cyngor i'r Gymraeg a gweithredu Safonau'r Gymraeg.*

Cam Gweithredu 5.13 – Cam Gweithredu Newydd: *Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliad anffurfiol, fel caffi amser cinio, boreau coffi ac ati.*

Atodiadau:

Atodiad 1: Rhestr o Randdeiliaid Ymgysylltu Cyfnod 1

Atodiad 2: Nodiadau grwpiau ffocws rhanddeiliaid (Cyfnod 1)

Atodiad 3: Arolwg Ymgynghoriad Ffurfiol Cyfnod 2

Atodiad 4: Crynodeb o sylwadau o'r arolwg (Cyfnod 2)

Cam 1 – Ymgysylltu trwy Grwpiau Ffocws Rhestr Rhanddeiliaid

1.	B I P Aneurin Bevan
2.	Blynyddoedd Cynnar
3.	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
4.	Cefnogi Pobl
5.	Clwb Busnes Caerffili
6.	Coleg Cymraeg Cenedalethol
7.	Coleg Gwent
8.	Coleg y Cymoedd
9.	Cymraeg i Blant
10.	Cymraeg i Oedolion Gwent
11.	Cynghorau Tref a Chymuned
12.	Cynghrowyr
13.	Gwasanaeth Addysg
14.	Gwasanaeth Cyflawni Addysg
15.	Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili
16.	Gwasanaeth Hamdden a Pharciau
17.	Gwasanaeth Lleoliadau
18.	Gyrfa Cymru
19.	Heddlu Gwent
20.	Helo Blod
21.	Menter Iaith Caerffili
22.	Mudiad Meithrin
23.	Pob Maes Gwasanaeth CBSC
24.	Pob Ysgol CBSC
25.	Prifysgol De Cymru
26.	Y Rhwydwaith Rhieni
27.	Y Sector Wirfoddol – CMGG
28.	Yr Urdd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2020-24

Nodiadau Grwpiau Ffocws Rhanddeiliaid

Barn yr ymatebwyr

Amlygodd yr ymatebion o drafodaethau'r grŵp ffocws nifer o welliannau i'w gwneud i'r cynllun gweithredu drafft cyn ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd.

Grŵp Ffocws 1 a 3

Maes Strategol 1 – Y Teulu a Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc

Beth mae rhanddeiliaid allweddol yn credu y dylem ei wneud:

- Angen gwneud archwiliad o'r ddarpariaeth gofal plant – Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Archwiliad o wasanaethau, cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan sefydliadau partner a meysydd gwasanaeth y cyngor
- Bydd llyfrgelloedd yn edrych ar ddarparu sesiynau Cymraeg i Blant
- Bod yn benodol ynghylch amserlenni yn erbyn pob cam gweithredu a pha sefydliadau partner sy'n ymwneud â phob un
- Ychwanegu Prifysgol De Cymru at y rhestr o sefydliadau partner
- Mae Coleg y Cymoedd yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg p'un a ydynt yn gysylltiedig â chwrs ai peidio ac yn eu gwneud yn ymwybodol o weithgareddau, cyrsiau a chyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg
